Chartered Institute of Housing Cymru

# TAI CYMRU GWOBRAU 2023

## Compendiwm Arfer Da

Rhannu'r gwersi a ddysgwyd o Wobrau Tai Cymru 2023

NODDWR PENNAWD:

aico | HomeLINK

# Croeso

Mae Siarter Frenhinol y Sefydliad Tai Siartredig (CIH) yn dweud mai ein pwrpas yw "hyrwyddo celf a gwyddoniaeth tai." Mae'n rhaid i ni weithredu, nid yn unig er budd ein haelodau, ond er budd y cyhoedd yn ehangach a dyna'r prawf yr ydym yn mesur popeth a wnawn yn ei erbyn.

Mae rhan fawr o'r gwaith rydyn ni'n ei wneud yn CIH yn ymwneud â nodi, cydnabod a lledaenu gwybodaeth, sgiliau ac arferion da.

Mae gwobrau yn rhan bwysig o'r broses hon. Mae'r ceisiadau a dderbyniwn yn aml yn tynnu sylw at arfer rhagorol neu arloesol, sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y cartrefi a'r gwasanaethau a brofir gan denantiaid, preswylwyr a chymunedau.

Rydym yn rhannu'r arfer da hwnnw mewn nifer o ffyrdd – drwy ein digwyddiadau unigryw am ddim i aelodau, trwy ein sesiynau briffio aelodau, a thrwy ein portffolio blynyddol o weminarau, byrddau crwn a chyfleoedd rhwydweithio. Rydym yn gwneud hyn nid yn unig i rannu dysgu, ond er mwyn amlygu a dathlu unigolion a sefydliadau sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Rhan ganolog o'r dull hwn o weithredu yng Nghymru yw Gwobrau Tai Cymru, ac o hynny, y Compendiwm Arfer Da sy'n cyd-fynd â hi, yr wyf yn credu ei fod yn un o'r cyhoeddiadau pwysicaf y mae CIH Cymru yn ei gynhyrchu bob blwyddyn.

Dyma'r cyhoeddiad sy'n tynnu ynghyd enghreifftiau ac astudiaethau achos o sut rydych chi a'ch cymunedau yn gwneud gwahaniaeth yn eich ardal leol, ond mae hefyd yn tynnu sylw at amcanion polisi cyhoeddus ehangach sy'n gwneud gwahaniaeth i'n bywydau ni i gyd.

Ac mae pwysigrwydd rhannu'r arfer da hwnnw yn fwy arwyddocaol fyth wrth i ni barhau i lywio ein ffordd drwy'r argyfwng costau byw a'r effaith y mae'n ei chael ar yr amgylchedd gweithredu a wynebwn fel gweithwyr proffesiynol tai.

Os nad ydym yn rhannu arfer da, sut fyddwn ni'n gwella'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu i'n tenantiaid? Byddwn yn parhau i rannu'r arfer hwnnw gyda'n haelodau a'r sector ehangach.

Ac os ydyn ni'n falch o fod yn weithwyr tai proffesiynol, ac mae gennym hawl i fod, yna dylen ni hefyd fod yn falch o ddysgu!



**Matt Dicks**
cyfarwyddwr cenedlaethol, CIH Cymru

| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **Rhagoriaeth gwasanaeth i gwsmeriaid** | | **5** |
| Defnyddio adborth gan gwsmeriaid i ddatblygu dulliau newydd o reoli ymddygiad gwrthgymdeithasol | Tai Cymunedol Bron Afon | 5 |
| Monmouthshire Homesearch - Customer Excellence in a Digital Age | Cymdeithas Tai Sir Fynwy | 6 |
| **Rhagoriaeth iechyd a llesiant** | | **9** |
| RHA Cymru (Hapus & BeActive RCT) | RHA Cymru | 9 |
| Tîm Datblygu Sefydliadol | Tai Tarian | 11 |
| Menopause support at United Welsh | United Welsh | 12 |
| **Rhagoriaeth arloesedd tai** | | **14** |
| Coleshill Terrace | Cyngor Sir Gâr | 14 |
| Pen Y Dre Apartments / Compass Community Hub | CBS Merthyr Tudful | 15 |
| Celtic Offsite | United Welsh | 16 |
| The Hill Street House | ZED PODS Limited | 18 |
| **Gweithio mewn partneriaeth** | | **20** |
| Cydweithio i leihau'r risg o ddigartrefedd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 20 |
| STAR housing model | United Welsh a Chyngor Caerffili | 21 |
| **Cynaladwyedd ym maes tai** | | **23** |
| Thornhill Decarb Project | Hafod | 23 |
| **Rhagoriaeth wrth eirioli cydraddoldeb ac amrywiaeth** | | **25** |
| Materion Cydraddoldeb | Cymdeithas Tai Newydd | 25 |
| Championing EDI at United Welsh | United Welsh | 27 |
| **Cefnogi cymunedau** | | **29** |
| Academi Adra | Adra | 29 |
| Tîm Cydlyniant Cymunedol | Cymdeithas Tai Cadwyn | 30 |
| The Restore Project | Cymdeithas Tai Linc Cymru | 32 |
| Clyd a Chynnes Cosy and Warm | Cymdeithas Tai Merthyr Tudful | 33 |
| Fit and Fed Merthyr Tydfil | Cymdeithas Tai Merthyr Tudful | 34 |


*Er mwyn cadw naws ddiledryw y prosiectau hyn, ac i gyfleu'r angerdd a deimlwyd gan y rhai dan sylw nid ydym wedi newid unrhyw ran o'r testun a gyflwynwyd i ni fel rhan o'r cofnodion hyn.*

| | | |
|---|---|---|
| Cost of Living Increase group (COLIn) a Trellis | Cymdeithas Tai Sir Fynwy | 35 |
| NU Life | Cymdeithas Tai Cadwyn | 37 |
| Jubilee Crescent Community Action | Cymoedd i'r Arfordir | 38 |
| **Datblygu cartrefi o safon uchel** | | **40** |
| Cynllun Peilot Tai Arloesol Caerffili | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 40 |
| Developing High Quality Homes at The Mill | Lovell | 41 |
| **Tîm tai y flwyddyn** | | **43** |
| Tîm Yma i Chi a Thimau Rhenti a Chymorth Tenantiaeth | Adra | 43 |
| Tîm Sir Ddinbych | Cymdeithas Tai Adullam Homes | 44 |
| Tîm Cartrefi Gwag Caerffili | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 46 |
| Tîm Datblygu sy'n Canolbwyntio ar Werth Cymdeithasol | Cymdeithas Tai Linc Cymru | 47 |
| Gwasanaethau Cymdogaeth | Cymdeithas Tai Sir Fynwy | 49 |
| Datblygiad Hill Street, Casnewydd | Cymdeithas Tai Linc Cymru | 50 |
| **Contractwr â ffocws ar y gymuned** | | **52** |
| Pentwyn Drive | Willis Construction Limited | 52 |
| **Creu lleoedd cadarnhaol** | | **54** |
| RHA \ Little Shed | RHA Cymru | 54 |
| **Cefnogi byw'n annibynnol** | | **56** |
| Byw â Chymorth | Caredig | 56 |
| **Rhagoriaeth mewn proffesiynoldeb, dysgu a datblygu** | | **58** |
| Fframwaith Egwyddorion ac Ymddygiadau Hafod | Hafod | 58 |
| **Cyflawnwr ifanc ym maes tai (Categori unigol)** | | **60** |
| Carys Wiggins | Cymdeithas Tai Taf | 60 |
| Joe Stockley | Cymoedd i'r Arfordir | 62 |


*Er mwyn cadw naws ddiledryw y prosiectau hyn, ac i gyfleu'r angerdd a deimlwyd gan y rhai dan sylw nid ydym wedi newid unrhyw ran o'r testun a gyflwynwyd i ni fel rhan o'r cofnodion hyn.*

# RHAGORIAETH GWASANAETH I GWSMERIAID

Noddir gan: united welsh

Mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym, mae'r angen am ddarparu gwasanaeth rhagorol yn bwysicach nag erioed. Mae'r wobr hon yn cydnabod tîm tai sy'n mynd yr ail filltir a'r tu hwnt i ddarparu gwasanaeth i gwsmeriaid sy'n wirioneddol ardderchog.

## Defnyddio adborth gan gwsmeriaid i ddatblygu dulliau newydd o reoli ymddygiad gwrthgymdeithasol

**Tai Cymunedol Bron Afon**



**Datganiad o gefnogaeth**

Mae tîm Tai Cymunedol Bron Afon yn darparu gwasanaeth rheoli tai cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ymdrin â phopeth o gofrestru tenantiaethau newydd, cyfnewid cartrefi, rheoli incwm rhent ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae'r tîm wedi gwneud gwelliannau i'r ffordd y maent yn rheoli adroddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu cymunedau, gyda ffocws cryf ar weledigaeth Bron Afon o gael eu hymddiried i helpu adeiladu cymunedau diogel a chryf, lle mae gan bawb le y maent yn falch o'i alw'n gartref.

Dywed cwsmeriaid Bron Afon fod delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol (YGG) yn bwysig iddynt ac mae'r tîm Tai Cymunedol wedi bod yn gwrando. Un o'i nodau strategol yw gwrando, deall a gweithredu, er mwyn i ni gynyddu ymddiriedaeth a boddhad ein cwsmeriaid.

Cesglir adborth cwsmeriaid o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys arolygon ymddiriedaeth a boddhad, cwynion ffurfiol, arolygon boddhad â thrafodion, y llwyfan 'Eich Llais' ac archwiliadau achos o YGG. Mae adborth cwsmeriaid fel llais cwsmeriaid Bron Afon yn allweddol i helpu i ddatblygu a gwella gwasanaethau a sicrhau eu bod yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n bodloni anghenion a gofynion y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

Mae polisi a gweithdrefn ymddygiad gwrthgymdeithasol y sefydliad wedi'u hadolygu a'u diweddaru i adlewyrchu adborth gan gwsmeriaid a thueddiadau a nodwyd, mae hyn wedi arwain at rai newidiadau mewn meysydd allweddol, gan gynnwys cyfathrebu, arferion adferol, gweithio mewn partneriaeth a gwelededd.

Mae Swyddogion Tai Cymunedol wedi'u hyfforddi mewn arferion adferol ac mae hyn wedi'i gynnwys fel rhan allweddol o'r weithdrefn. Mae arferion adferol yn canolbwyntio ar adeiladu a chynnal perthnasoedd ag unigolion a chymunedau, gan gydweithio i leihau gwrthdaro a datrys problemau gyda'n gilydd. Mae swyddogion yn cael sgyrsiau gyda'r rhai y mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithio arnynt a'r rhai a allai fod yn gyfrifol, gyda'r nod o feithrin perthnasoedd agored a gonest i'n helpu i reoli YGG yn fwy effeithiol. Mae mwy o sgyrsiau wyneb yn wyneb wedi'u cynnwys yn y broses i sicrhau bod swyddogion yn gallu deall yn llawn yr effaith ar unigolion drwy gydol y gŵyn.

Mae sgyrsiau manylach a gynhaliwyd wyneb yn wyneb yn golygu bod anghenion cymorth neu bryderon eraill

sy'n effeithio ar y sefyllfa yn cael eu nodi, gan alluogi'r cwsmer a'r swyddog tai cymunedol i weithio drwy'r achos yn fwy effeithiol. Mae'r rhyngweithio hwn yn caniatáu i berthnasoedd ddatblygu ac i ymddiriedaeth gael ei meithrin yn gynnar.

Mae'r ymagwedd YGG newydd yn canolbwyntio ar sefydlu cytundeb gyda chwsmeriaid o'r cychwyn cyntaf o ran sut a phryd y bydd eu swyddog tai cymunedol yn cysylltu â nhw. Mae hyn yn golygu bod pawb yn gwybod ac yn deall sut y byddant yn gweithio gyda'i gilydd. Mae cynlluniau gweithredu wedi'u cyflwyno, sy'n helpu i nodi'r camau nesaf ac yn rhoi disgwyliadau clir ynghylch cyfrifoldeb dros unrhyw gamau gweithredu, ar gyfer y cwsmer a'r swyddog sy'n rheoli'r achos ill dau. Mae'r cynlluniau'n helpu i reoli disgwyliadau trwy nodi'n glir y camau gweithredu y gellir eu cymryd a'r offer y gellir eu defnyddio.

Mae gwybodaeth fwy cynhwysfawr wedi cael ei hychwanegu at wefan Bron Afon i helpu i gefnogi'r rhai sy'n profi YGG, gyda'r ffocws cychwynnol ar unigolion yn cael sgyrsiau gyda'u cymydog eu hunain.

Mae cwsmeriaid wedi darparu adborth cadarnhaol trwy'r llwyfan adborth 'Rant & Rave', gan gynnwys –

'Gwrandawodd hi ar ein problemau ac mae wedi dweud wrthym sut y gallwn symud ymlaen ac yn cadw mewn cysylltiad bob pythefnos i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni.'

'Proffesiynol iawn, wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi ar bob cam.'

'Bob amser â diddordeb yn fy mhryderon, bob amser yn gwrtais ac yn ymateb yn rhagweithiol.'

Mae cydweithwyr yn gweld manteision y dulliau newydd, gyda rheolwr tai cymunedol yn dweud, "Mae hyder fy nhîm wrth ddelio ag YGG wedi cynyddu'n sylweddol. Drwy roi pwyslais ar arferion adferol ac achos craidd yr YGG, rydym yn gallu deall y niwsans a chynnig cymorth perthnasol."

**Canlyniadau a chyflawniadau**

- Dangosodd boddhad cwsmeriaid a fesurwyd trwy'r arolwg Ymddiriedaeth a Boddhad blynyddol gynnydd o 22% mewn boddhad â'r ffordd y mae Bron Afon yn delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ym mis Mehefin 2023 o gymharu â Mehefin 2022.
- Bu gostyngiad o 129 o achosion YGG agored rhwng Gorffennaf 2022 a Gorffennaf 2023. Dywed Swyddogion Tai Cymunedol iddynt deimlo mai'r rheswm dros hyn yw oherwydd eu bod yn adnabod eu cymuned a'u cwsmeriaid a'u bod yn delio'n rhagweithiol â phethau allan yn y gymuned.
- Ym mis Mehefin 2023, gwelsom gynnydd o 8% mewn archwiliadau achos llwyddiannus o gymharu â Mehefin 2022. Bob mis mae rheolwyr tai'n archwilio pob achos YGG agored, gan adolygu meysydd fel cadw mewn cysylltiad, dilyn y broses, cynnwys partneriaid a chael sgyrsiau adferol.

# Monmouthshire Homesearch - Customer Excellence in a Digital Age

**Cymdeithas Tai Sir Fynwy**




**Datganiad o gefnogaeth**

Mae Homesearch Sir Fynwy yn bartneriaeth rhwng yr Awdurdod Lleol a Landlordiaid Cymunedol Sir Fynwy, a weinyddir gan MHA. Y cynllun seiliedig ar ddewis yw'r pwynt mynediad sengl ar gyfer tai fforddiadwy o dan Bolisi Dyraniadau Cyffredin sy'n golygu bod yr holl dai cymdeithasol yn cael eu dyrannu gan ddefnyddio'r un meini prawf waeth pwy yw'r landlord. Mae'r tîm yn cynnwys 4 aelod o staff sy'n darparu gwasanaeth rhagorol i'w 3,800 o ymgeiswyr, gyda'r nod o ddarparu'r profiad cwsmer gorau o restr aros am dai yng Nghymru.

Ers lansio Homesearch yn 2013, mae'r tîm wedi dilysu 25,000 o geisiadau, gan ddarparu 3,800 o gartrefi o ansawdd uchel i ymgeiswyr y mae angen tai arnynt. Mae ymrwymiad Homesearch i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid eithriadol wedi'i yrru gan ddealltwriaeth ddofn o'r heriau y mae unigolion yn eu hwynebu yn yr argyfwng tai presennol a'u penderfyniad i greu atebion pwrpasol. Mae hyn wedi bod yn hynod

heriol o ystyried y cynnydd mawr mewn aelwydydd digartref yn y Sir ond mae Homesearch wedi ymateb drwy flaenoriaethu tai cymdeithasol sydd ar gael i deuluoedd digartref.

Yn ystod adolygiad cynhwysfawr o'r gwasanaeth yn 2021/22, ymgysylltodd Homesearch yn uniongyrchol ag ymgeiswyr i gywain mewnwelediad i'w hanghenion yn unol ag adroddiad Clywed Llais y Tenantiaid (gwrando, gweithredu a dysgu). Gan ymateb i'r adborth hwn, aeth y tîm yr ail filltir a'r tu hwnt i ail-ddylunio gwasanaeth arloesol a greddfol, gan fodloni disgwyliadau a symleiddio rhyngweithio ag ymgeiswyr. Yn bennaf dywedodd ymgeiswyr wrthym eu bod eisiau:

- Arweiniad gwell ar-lein
- Gwybodaeth gyson ac agored am hysbysebion a dyraniadau
- Mynediad haws i sefydlu a rheoli cyfrifon

Gweithredwyd cyfanswm o 59 o argymhellion ar gyfer newidiadau i'r gwasanaeth gan gynnwys:

- Gwella gwybodaeth ar hysbysebion eiddo'n sylweddol.
- Gwneud y ffurflen gais yn haws i'w chwblhau:
    - Lleihau maint y ffurflen er mwyn lleihau'r amser i'w chwblhau.
    - Ei ail-fformatio i ddyluniad ymatebol a chyfarwydd.
    - Cynnwys ceisiadau am eiddo 'i'w brynu' ac 'i'w rentu' mewn un ffurflen gais.
- Gostwng nifer y bandiau angen tai o 7 i 4 i symleiddio'r cynllun.
- Gwefan newydd sydd nid yn unig yn ymdrin â phryderon ymgeiswyr ond sydd hefyd yn cynnig profiad di-dor a hawdd ei ddefnyddio gan gynnwys porth i ymgeiswyr ddiweddaru amgylchiadau, cynnig a gwirio statws cynigion, gan alluogi ymgeiswyr i wasanaethu eu hunain, gan alluogi'r tîm i ganolbwyntio ar y rhai sydd angen cymorth a chyngor ychwanegol.

Yn wyneb yr argyfwng tai parhaus a phrinder tai fforddiadwy, cydnabu'r tîm bwysigrwydd rheoli disgwyliadau cwsmeriaid. Maent yn ymroddedig i sicrhau bod ymgeiswyr yn cael gwybodaeth dryloyw a chywir am eu hopsiynau tai. Trwy osod disgwyliadau realistig, maent yn meithrin ymddiriedaeth a dealltwriaeth, yn uniongyrchol gydag ymgeiswyr a thrwy:

- Fap rhyngweithiol ar y wefan, sy'n nodi amseroedd aros fesul band/ardal/math o eiddo
- 'Cynllun gweithredu' wedi'i deilwra sy'n cael ei greu'n ddigidol ar gyfer pob ymgeisydd newydd, ac yn rhoi cyngor ar yr holl opsiynau tai i'w harchwilio

Mae Homesearch wedi ymrwymo i gefnogi ymgeiswyr sydd ag anghenion tai unigryw neu anghenion ychwanegol gan gynnwys:

- Cydlynu ac eiriol dros atebion i anghenion tai wedi'u haddasu cymhleth ac wedi'u teilwra gyda'r Cyngor a landlordiaid partner
- Gwasanaeth cynnig ac ymgeisio wyneb yn wyneb/dros y ffôn â chymorth i unigolion na allant ymgysylltu â thechnoleg yn annibynnol
- Cynnal cyfarfodydd chwarterol gyda thimau Therapi Galwedigaethol a chydlynu adolygiadau achos i sicrhau ymateb i anghenion cymhleth a gofynion addasu wedi'u teilwra

Er mwyn grymuso ymgeiswyr, mae Homesearch wedi creu cyfres o fideos byr, llawn gwybodaeth sy'n esbonio agweddau amrywiol ar brosesau Homesearch. Mae'r fideos hyn yn adnoddau gwerthfawr, gan helpu ymgeiswyr i wneud penderfyniadau gwybodus ac ymgysylltu'n hyderus â'r gwasanaeth.

Mae sianeli cyfathrebu Homesearch yn darparu ar gyfer dewisiadau amrywiol; erbyn hyn gall ymgeiswyr gysylltu dros y ffôn, drwy e-bost a sgwrs fyw, neu anfon dogfennau'n uniongyrchol trwy declyn uwchlwytho dogfennau'r wefan. Mae'r dull aml-sianel hwn yn sicrhau y gall unigolion estyn allan yn y modd a'r amser sy'n addas iddynt hwy, gan feithrin rhyngweithio effeithiol ac effeithlon.

tebygolrwydd y bydd tân yn lledu.

Yn 2022 cynhaliodd y Tîm Diogelwch Tân tua 30 o ddigwyddiadau ymgysylltu gyda'n cwsmeriaid yn ein cymunedau hefyd i hyrwyddo diogelwch tân a darparu cyngor i'n cwsmeriaid.

**Canlyniadau a chyflawniadau**

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf:

Dywedodd 95% o denantiaid newydd eu bod yn fodlon iawn ar Homesearch

Atebwyd galwadau ffôn mewn 23 eiliad ar gyfartaledd.

Atebwyd 95% o'r holl alwadau a gyflwynwyd.

Dilyswyd 99.4% o geisiadau o fewn y targed 10 diwrnod.

Mae tystebau gan ein cwsmeriaid yn ystod 2022/23 yn cynnwys:

Staff ardderchog gydag agwedd wych

Gwych ac yn syth at y pwynt!

Yn gyflym ac yn hawdd iawn, wedi ateb popeth yr oeddwn ei angen

Cymwynasgar ac ystyriol iawn, wedi esbonio pethau'n dda iawn

Cyngor da iawn yn ddi-oed!

Gwasanaeth cwsmer ardderchog

Roedd Kristina yn help anhygoel ac a dweud y gwir roedd hi mor gwrtais a barod i helpu. Person anhygoel.

Roedd Lisa yn syfrdanol ac yn gymwynasgar. Roedd hi'n deall yr hyn yr oeddwn angen help ag ef a rhoddodd yr ateb gorau i mi, diolch yn fawr.

Yn broffesiynol ac yn gwrtais

Cyngor gwych ac esboniodd fy nghwestiwn fel yr oeddwn i'n deall a bod popeth wedi'i ddiweddaru. Diolch gwasanaeth gwych.

Mae Cerys yn cael 5 allan o 5.  Roedd hi'n wybodus ac yn barod i helpu. Diolch

Aeth Katie allan o'i ffordd i helpu a rhoi'r cyngor cywir i mi.

Oherwydd ei fod yn syml ac yn ddefnyddiol.

Allwn i ddim feddwl am air gwell na rhagorol i ddisgrifio'r gwasanaeth.  Maen nhw bob amser wedi bod yn gymwynasgar iawn i mi.

# RHAGORIAETH IECHYD A LLESIANT

Mae'r wobr hon ar gyfer sefydliadau sydd wedi dangos rhagoriaeth yn eu hymagwedd at iechyd a llesiant staff a / neu drigolion dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym eisiau clywed am brosiectau neu fentrau newydd sydd wedi gwella deilliannau iechyd a llesiant y bobl sy'n gysylltiedig â'ch sefydliad.

## RHA Cymru (Hapus & BeActive RCT)

**RHA Cymru**




**Datganiad o gefnogaeth**

Mae RHA wedi'i ymrwymo i sicrhau bod ei thenantiaid, staff a chymunedau lleol yn cael eu cefnogi i gynnal a gwella iechyd a lles da. Yn sail i'r ymrwymiad hwn mae 2 faes gwaith allweddol sy'n cael eu rheoli gan ein Hyrwyddwr Llesiant a ariennir yn graidd sydd yn:

- Hwyluso ein rhaglen lles staff mewnol – Hapus
- Cyflwyno ein rhaglen lles tenantiaid a chymuned – BeActive

I ddechrau, ariannwyd BeActive gan grant ac mae wedi cefnogi dros 850 o bobl i wella eu hiechyd, erbyn hyn rydyn ni'n ariannu'r gwasanaeth hwn yn graidd i sicrhau bod tenantiaid yn cael eu cefnogi i barhau i wella eu hiechyd trwy gefnogaeth un-i-un gyda maeth, ymarfer corff a magu hyder.

Mae'r gymuned ehangach yn cael eu cefnogi trwy gyfleoedd llesiant hygyrch am ddim fel ioga, grwpiau cerdded a sesiynau llesiant meddwl, wyneb yn wyneb ac ar-lein.

Gydag adnodd staff parhaol ar gael i gefnogi staff, tenantiaid a chymunedau gyda'u hiechyd a'u lles, rydym eisoes wedi cyflawni'r canlyniadau cadarnhaol a ganlyn ymhen llai na deuddeg mis:

- Cwblhaodd 15 aelod o staff a phedwar tenant daith gerdded noddedig 21 milltir ym mis Gorffennaf, i godi arian ar gyfer y rhai sy'n profi tlodi bwyd.
- Mae 5 aelod o staff yn mynychu dosbarthiadau ioga rheolaidd ac wedi nodi gwelliant mewn cwsg a hwyliau.
- Mae 1 tenant wedi dychwelyd i gyflogaeth amser llawn.
- Mae 1 tenant wedi lleihau ei feddyginiaeth ar gyfer cyflwr iechyd hirdymor yn sylweddol.
- Mae 1 tenant a oedd yn ynysig ers blynyddoedd lawer bellach yn rhyngweithio â grwpiau cymdeithasol ac yn gwirfoddoli.
- Cynigir sesiynau galw heibio llesiant staff a chymorth 1 i 1 amser cinio.
- Teithiau cerdded iechyd misol a sesiynau therapi anifeiliaid anwes
- Pause4thought a Hot Flash Café - Grwpiau Cefnogi Menopos
- Ask Twice - grwpiau a gweithgareddau Cymorth Iechyd Meddwl i Ddynion.

Adroddodd yr holl gyfranogwyr RHA/BeActive am welliannau yn eu hiechyd, cyflwr emosiynol, a lefelau hyder. Dywedodd un tenant ifanc:

'Mae ymarfer yn y gadair wedi gwneud i mi deimlo'n fwy ffit a hapus, mae wedi helpu gyda phoen yn fy ngwddf gan fy mod wedi dysgu sut i ymestyn y cyhyrau o amgylch fy asgwrn cefn, mae ymarferion anadlu wedi fy helpu i ymlacio a chysgu. Roeddwn i'n unig ac mae gen i iechyd meddwl gwell nawr gan fy mod i'n cwrdd â phobl ac yn dysgu byw'n well. Nid oes angen meddyginiaeth arnaf mwyach ar gyfer fy nghlefyd y siwgr ac rwyf wedi datblygu fy annibyniaeth'.

Fe wnaethom ddatblygu ein rhaglen Hapus gyntaf yn 2016, i ofalu am ein cydweithwyr oherwydd bod staff iach yn staff hapus, ac mae staff hapus yn perfformio'n well - felly roedd gwella ein cynnig llesiant presennol i staff yn hollbwysig. Yn fwy diweddar, fel rhan o'n rhaglen bu i ni ymgynghori â staff ar ba gymorth yr hoffent i RHA ei gynnig, ac mae hyn wedi bod yn effeithiol o ran nodi anghenion llesiant ac wedi ein galluogi i fod yn hyblyg ac yn gyfannol yn ein cynnig llesiant. Mae wedi ein helpu i gynyddu cyfranogiad staff mewn gwneud penderfyniadau strategol a phenderfynu ar eu hamgylchedd gwaith newydd o ganlyniad i newidiadau yn sgil y pandemig. Fe wnaethom greu amgylchedd gwaith newydd yn ein swyddfeydd, adnewyddu'r swyddfa'n llwyr a datblygu mannau gweithio ac ystafelloedd cyfarfod arloesol ar ôl derbyn adborth gan staff.

Mae Hapus wedi cefnogi cydweithwyr i ddod yn fwy actif, dod yn fwy heini, bwyta'n iach, addysgu eu hunain a'u teuluoedd, a lleihau straen tra hefyd yn cysylltu mwy â'i gilydd. Erbyn hyn mae Hapus yn cael ei arwain gan ein swyddog llesiant penodedig, mae gennym fwy o ffocws a gweithgareddau i gefnogi llesiant meddwl, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad, a gweithgarwch corfforol.

Mae ein dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn hefyd wedi gweld staff a thenantiaid yn dod at ei gilydd ar gyfer digwyddiadau fel ein sesiynau menopos o'r enw Hot Flash Cafes.

Jacqueline: Hoffwn ddiolch i chi am y digwyddiad 'cyntaf' hwn o lawer i ddod a gafodd ei gyflwyno'n wych - y caffi menopos. Diolch - fel bob amser, am eich agwedd tra agored, caredig, proffesiynol a llawn parch. Roedd yn hyfryd cwrdd â chydweithwyr RHA eraill hefyd a rhannu profiadau. Mae'r gefnogaeth hon yn hollbwysig ac yn hanfodol i fywydau cynifer o bobl.

**Canlyniadau a chyflawniadau**

HAPUS

- Darparwyd 160 o becynnau lles i gydweithwyr.
- Mae staff yn teimlo eu bod yn cael gwrandawiad hefyd ac rydym wedi gwella lefelau boddhad
- Mae ein pythefnos 9 diwrnod wedi gwella perfformiad ochr yn ochr â lleihau lefelau salwch
- Mae'r mewnrwyd llesiant Hapus yn galluogi mynediad cyfrinachol at adnoddau ar gyfer yr holl staff.
- Fe wnaeth digwyddiadau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wella cynhwysiad, e.e., Siaradwyr mis Hanes Pobl Dduon, digwyddiadau Balchder a stori drawsryweddol "Cerdded Yn FY Esgidiau" i denantiaid
- Grwpiau Hot Flash Café & Pause for Thought (menopos).
- Digwyddiadau llesiant meddwl gyda BITC Cymru ac Amser i Newid Cymru
- Llysgenhadon staff sydd wedi siarad am ein harfer da mewn digwyddiadau rhwydweithio

BEACTIVE

- cymerodd 850 ran mewn sesiynau llesiant a rhaglenni ffitrwydd, y gwnaethom eu cynnal drwy gyllid craidd.
- Sesiynau ioga ac ymwybyddiaeth ofalgar a gyflwynwyd mewn ysgolion.
- Cefnogwyd 15 o grwpiau cymunedol i leihau anghydraddoldeb iechyd yn RhCT
- Llyfrgell fideo llesiant a hunangymorth ar-lein a gyrchwyd gan dros 900 o unigolion.
- Dros 1000 o ddilynwyr ar ein grŵp llesiant BeActive ar gyfryngau cymdeithasol

Elizabeth:

'Trwy gymryd rhan, sylweddolais fy mod yn gwenu ac yn chwerthin eto. Gwnes i gwrdd â phobl ac fe wnaethom gysylltu a rhannu profiadau. Fe wnaeth hyn fy helpu i deimlo'n well ac yn llai unig - dechreuais deimlo'n llawer gwell ynof fy hun yn gorfforol, ac roedd y teithiau cerdded a'r ioga'n wych. Fe wnaeth BeActive fy helpu i deimlo'n fwy heini ac yn gryfach ac rwy'n herio fy hun.'

# Tîm Datblygu Sefydliadol

**Tai Tarian**



**Datganiad o gefnogaeth**

Mae Tai Tarian bob amser yn rhoi Iechyd a Lles ar frig yr agenda. Mae'r tîm Datblygu Sefydliadol yn darparu cymorth cyfannol i weithwyr i helpu ym mhob rhan o fywyd, gan i ni werthfawrogi na ellir gwahanu gwaith a bywyd bob amser.

Yn ychwanegol at bolisïau ac arferion lles safonol, yn ystod y 12 mis diwethaf, hwylusodd Tai Tarian y canlynol yn sgil gofyn i weithwyr beth yr oeddent am ei weld: -

- Nawdd Mates in Mind i gefnogi ein gweithwyr gwrywaidd o bell sy'n gyffredinol anodd eu cyrraedd a'u cynnwys mewn cymorth lles. Mae hyn yn cynnwys gwasanaeth tecstio ar gyfer y rhai nad ydynt yn hyderus i siarad.
- Wythnos Ffocws ar Iechyd Dynion, gan gynnwys MOTs iechyd, sgrinio iechyd a gweithdai rheoli straen.
- Gweithdy EMPOIWER gyda siaradwr gwadd allanol i symbylu ac ysbrydoli staff. (Ynni, Cymhelliant, Gweithgarwch Corfforol, Optimistiaeth, Lles, Deallusrwydd Emosiynol a Gwydnwch).
- Ymgyrch menopos gan gynnwys hyfforddiant i weithwyr a rheolwyr, arolwg staff, a hyrwyddo'r Ap Health&Her i gefnogi staff. Roedd yr ymgyrch hon ar gyfer yr holl staff, gan fod y menopos yn effeithio'n anuniongyrchol ar bawb, boed fel aelod o'r teulu, ffrind neu gydweithiwr.
- Gweithdai Lles Ariannol yn cefnogi staff drwy'r Argyfwng Costau Byw. Mae'r tîm credyd cynhwysol mewnol yn rhoi cymorth ac awgrymiadau ar sut i wneud i arian fynd ymhellach a chyrchu cymorth.
- Darparodd Tai Tarian £500 i bob gweithiwr ym mis Rhagfyr 2022 i gefnogi biliau ynni uchel, a ariannwyd drwy leihau'r cynllun adnewyddu swyddfa ar gyfer gweithio hybrid.
- Darparwyd Ap Help@Hand i bob aelod o staff gael mynediad at Feddyg Teulu o bell, Second Opinion, cwnsela, a chymorth lles arall i'w gwneud hi'n haws i staff gael mynediad at y cymorth y gallent fod ei angen ar unwaith.
- Gweithdai Maeth, anogaeth 1 i 1, blogiau a fideos i gefnogi staff gyda materion maeth a materion iechyd cysylltiedig fel gordewdra. Ymysg y cynnwys oedd bwyta am gost is, cefnogi gwell egni a chwsg, bwyta ar gyfer hormonau i gefnogi ymgyrch y menopos, a chreu arferion da wrth weithio o bell.
- Mae hyfforddiant Iechyd Meddwl a Lles Cadarnhaol i-act achrededig ar gael i bob gweithiwr, wedi'i gyflwyno gan ein hyfforddwr achrededig mewnol. Mae dros 350 o weithwyr wedi'u hyfforddi hyd yma, gan roi'r sgiliau iddynt ofalu amdanynt eu hunain, gwella gwydnwch a chefnogi pobl eraill.
- Darperir sgrinio iechyd rheolaidd i staff trwy ein Darparwr Iechyd Galwedigaethol.
- Gweithdai tîm ar wydnwch a hunanymwybyddiaeth. Mae hyn yn cefnogi timau i wybod sut mae pawb yn gweithio, beth sy'n eu cymell a sut y gallant gydweithio orau trwy lywio achosion straen yn y gwaith a rhoi cefnogaeth.
- Lansio Ap Let's Talk sy'n darparu llwyfan ar gyfer trafodaethau pwrpasol gan gynnwys Lles.
- Sianel cyfathrebiadau lles benodol i staff ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau lles fel dosbarthiadau cadw'n heini amser cinio, teithiau cerdded, côr, a gweithgareddau eraill.
- Lansiwyd ein hymgyrch Your Life, Your Story er mwyn i staff rannu eu storïau ac yn bwysicach fyth, eu taith at adferiad er mwyn cefnogi eraill.

O ran ein Buddion cymunedol -

- Mae gan Tai Tarian gronfa gweithred o garedigrwydd, a ariennir yn ddeuol gan staff a'r sefydliad. Y llynedd buddsoddwyd dros £12500 yn y gymuned i gefnogi'r rhai mewn angen, megis banciau bwyd neu ariannu gwisg ysgol ar gyfer teulu incwm isel, a beic i gefnogi cymudo i'r gwaith.
- Dau brosiect Bioamrywiaeth yn galluogi tenantiaid ac aelodau o'r gymuned i gymryd rhan, cymdeithasu a dysgu sgiliau newydd. Cefnogodd plant ysgol lleol ein tenantiaid i ddod â bywyd yn ôl i'w gerddi.
- Rhoddwyd offer chwaraeon i amryw dimau chwaraeon o bob oed a gallu.
- Rhoddwyd amrywiaeth o offer Celf a Chrefft i nifer o grwpiau cymunedol.
- Ymrwymwyd i roddi i fanciau bwyd ar draws Castell-nedd Port Talbot bob mis.
- Yn ystod gwyliau ysgol darparwyd dros 400 o becynnau bwyd a rhoddwyd cynhwysion i 130 o blant gael dosbarthiadau coginio.
- Cystadleuaeth garddio flynyddol ar gyfer ein tenantiaid (tyfu eich gardd eich hun gorau, gardd bywyd gwyllt orau, gardd gyffredinol orau)


## Canlyniadau a chyflawniadau

Y buddion y mae'r rhaglen lles wedi'u cyflwyno:-.

- Newid yn y diwylliant lle mae gweithwyr yn siarad yn agored am iechyd meddwl. Roedd yr ymgyrch Your Life, Your Story yn bwerus o ran creu amgylchedd diogel, gan annog gweithwyr i siarad a cheisio cymorth, gan wybod nad ydyn nhw ar eu pennau eu hunain.
- Bu i weithdai ariannol helpu gweithiwr i gyrchu budd-daliadau nad oedd yn ymwybodol ohonynt, gan ei alluogi i ddod yn annibynnol yn ariannol, sicrhau cyflogaeth a llety, gan drawsnewid ei fywyd.
- Mae Tai Tarian wedi achub bywydau trwy ddarparu cefnogaeth, offer ac awgrymiadau sgwrsio i ymgysylltu â'r rhai sydd wedi mynegi meddyliau hunanladdol, drwy greu amgylchedd lle nad yw hunanladdiad yn dabŵ a'i fod yn bwysig i'w archwilio, er mwyn dod o hyd i'r gefnogaeth gywir yn gyflym.
- Galluogodd yr hyfforddiant i-act i staff gefnogi teuluoedd a chwsmeriaid gan ddefnyddio'r adnoddau hyfforddi a ddarparwyd, gan leihau eu ffactorau straen personol, a chynyddu gwydnwch.
- Cyrchodd gweithwyr Gymorth Meddyg Teulu y tu allan i oriau gwaith yn gyflym, gan atal cyflyrau rhag gwaethygu.
- Mae gweithwyr yn fwy gwydn ac agored i dderbyn cymorth, gan leihau absenoldeb a galluogi dychwelyd i'r gwaith â chymorth, neu mewn rhai achosion, cefnogi staff i aros yn y gwaith.
- Gwelliant o ran cadw staff, gan fod gweithwyr yn gwerthfawrogi'r rhaglen lles a gynigir.
- Mae ein cymunedau'n ymgysylltu mwy gan gefnogi un o nodau Cymru Iachach.

# Menopause support at United Welsh

**United Welsh**




### Datganiad o gefnogaeth

Menywod dros 50 oed yw'r segment o'r gweithlu sy'n tyfu gyflymaf, a bydd y rhan fwyaf o fenywod, pobl draws ac anneuaidd yn mynd drwy gyfnod newid y menopos yn ystod eu bywydau gwaith. Mae perimenopos yn dechrau rhwng canol a diwedd y 40au, ond i rai, gall ddechrau mor gynnar â diwedd y 30au.

Canfu astudiaeth yn 2019 gan y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu fod tair o bob pump o fenywod sy'n profi menopos yn cael eu heffeithio'n negyddol yn y gwaith. Canfu'r astudiaeth hefyd i bron i draean o fenywod ddweud bod y menopos wedi cael effaith negyddol arnynt yn y gwaith. At hynny, datgelodd BUPA fod bron i 900,000 o fenywod yn y DU wedi gadael eu swyddi oherwydd symptomau'r menopos.

Wrth fynd trwy'r menopos ei hun, cafodd Rebekah Drobac, Swyddog Cymdogaeth yn United Welsh, y syniad o godi ymwybyddiaeth yn y gwaith a chreu grŵp cefnogi. Sylweddolodd Rebekah ein bod ni'n dysgu sut i reoli ein hiechyd yn ystod ein harddegau ac yn ystod beichiogrwydd, ond bod yr addysg yn stopio pan ddaw i flynyddoedd y menopos. Roedd hi eisiau creu gofod i fenywod ac aelodau teulu rannu profiadau, rhoi syniadau a helpu ei gilydd ar hyd y ffordd.

Dechreuodd Rebekah drwy siarad â thîm Gweithredol United Welsh i drafod sut y gallem godi ymwybyddiaeth o'r menopos a'r hyn y gallai'r busnes ei roi ar waith yn ymarferol i gefnogi staff. Fe wnaethom gydnabod y gwerth y gallai'r syniadau hyn ei greu o ran gwella iechyd a lles pobl sy'n ei brofi neu'n cael eu heffeithio ganddo.

Sefydlwyd grŵp cymorth, gan wahodd menywod ac aelodau teulu i ddod at ei gilydd a siarad yn agored am y menopos a sut mae'n effeithio arnynt. Mae'r grŵp yn rhoi cymorth uniongyrchol i 35 o bobl, ac mewn arolwg staff diweddar (Awst 2023), dywedodd 86% o staff United Welsh iddynt deimlo bod gwaith Rebekah a'r grŵp menopos wedi bod o fudd iddyn nhw a/neu eu partneriaid, gyda 98% ag ymwybyddiaeth lawn o'r symptomau.

Mae United Welsh hefyd wedi bod yn gweithio i fod yn weithle mwy ystyriol o'r menopos dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae bellach wedi:

- Sefydlu cwrs e-ddysgu ar ein mewnrwyd, sy'n cynnwys gwybodaeth iechyd, atgyfeirio a deunyddiau asesu
- Darparu gwybodaeth am y menopos i staff trwy bosteri, e-byst, a chyflwyniadau mewn cyfarfodydd cwmni cyfan

- Sicrhau bod cynhyrchion mislif ar gael ym mhob toiled, gan gynnwys toiledau niwtral o ran rhywedd
- Cynnal cyfarfodydd grŵp cymorth menopos misol
- Creu dogfennau arweiniad menopos ac asesiad risg menopos i reolwyr a staff eu cyrchu
- Diweddaru ein polisi salwch i gynnwys symptomau perimenopos a menopos i dorri'r stigma ac annog sgyrsiau agored
- Dod â chydweithwyr ynghyd i lofnodi addewid menopos United Welsh

Mae menopos yn cael effaith fawr ar fenywod yn y gweithlu, yn enwedig o ran lles, cynhyrchiant, a chadw staff. Mae angen cynyddol iddo gael ei flaenoriaethu gan sefydliadau, gan ddatblygu amgylchedd mwy cynhwysol a chefnogol.

Diolch i Rebekah a chefnogaeth cydweithwyr ar draws United Welsh, mae siarad am y menopos yn y gwaith yn rhywbeth arferol i ni. Mae ein gwaith wedi helpu mwy o bobl i ddeall sut y gall peri/menopos effeithio ar unigolion ac mae wedi galluogi'r sefydliad i wneud addasiadau gwell i staff.

### Canlyniadau a chyflawniadau

Dechreuodd angerdd y Swyddog Cymdogaeth Rebekah Drobac don o waith cadarnhaol i gefnogi staff United Welsh sy'n profi neu'n cael eu heffeithio gan beri/menopos:

- Mae ein grŵp menopos yn cefnogi dros 35 o fenywod ac aelodau teulu'n uniongyrchol
- Mae gan 98% o staff ymwybyddiaeth lawn o symptomau perimenopos a menopos
- Teimlai 86% o staff iddynt gael eu cefnogi gan y camau a gymerwyd i godi ymwybyddiaeth o'r menopos
- Rhoddodd staff sgôr o 4.4 allan o 5 i'r cymorth sydd ar gael
- Mae polisïau AD wedi'u hadolygu a'u diweddaru i gefnogi'r rhai y mae'r menopos yn effeithio arnynt
- Mae United Welsh yn gweithio tuag at achrediad Lefel 2 Ystyriol o'r Menopos.

Dywedodd Amanda Oliver, sy'n rhan o'r grŵp menopos yn United Welsh: "'Fe wnaeth y grŵp fy ngrymuso i fod â'r hyder i fynnu cael fy nghlywed ac i fy symptomau gael eu cymryd o ddifri, yn hytrach na dim ond derbyn a dioddef.

"Rwyf bellach wedi cael presgripsiwn HRT ar gyfer fy symptomau perimenopos, ac mae wedi newid fy mywyd. Fyddwn i ddim wedi cael yr wybodaeth na'r hyder i fynd at fy meddyg teulu heb y gefnogaeth rwyf wedi'i chael gan Rebekah a'r grŵp. Mae angen grŵp cymorth menopos ar bob sefydliad ac mae'n haeddu meddu ar yr wybodaeth a'r hyder i ddeall beth sy'n digwydd i'w cyrff a chael y cymorth sydd ei angen arnynt."

# RHAGORIAETH ARLOESEDD TAI

Mae'r wobr hon wedi'i anelu at raglenni neu brosiectau a all ddangos yn glir sut maent wedi datblygu dull arloesol gan wneud gwir wahaniaeth i fywydau tenantiaid a chwsmeriaid. Gallai hyn fod yn unrhyw gynnyrch, gwasanaeth neu dechnoleg newydd, mewn unrhyw faes e.e. datgarboneiddio – yr hyn sy'n allweddol yw medru dangos arloesedd.

## Coleshill Terrace

**Sefydliad arweiniol: Cyngor Sir Gâr**

**Sefydliadau partner: Yr awdurdod lleol, y bwrdd iechyd, y trydydd sector a'r gymuned leol**




**Datganiad o gefnogaeth**

Mae Cyngor Sir Gâr wedi prynu hen adeilad y cofrestrydd yn nhref Llanelli. Mae datblygu'r safle hwn wedi creu lleoliad llety â chymorth pwrpasol ar gyfer 8 unigolyn ag anableddau dysgu. Mae gweithio mewn partneriaeth wedi bod yn allweddol i ddatblygiad y lleoliad hwn ac mae rhanddeiliaid allweddol fel y tenantiaid a'u teuluoedd, yr Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd, y 3ydd Sector a'r Gymuned leol wedi cymryd rhan wrth gynllunio a gwireddu'r lleoliad.

Adran Tai Cyngor Sir Gâr yw Landlord cofrestredig yr eiddo ac mae'n gyfrifol am holl swyddogaethau'r landlord. Mae sefydliad 3ydd sector wedi cael ei gomisiynu i ddarparu gofal a chefnogaeth i'r unigolion sy'n byw yn yr eiddo.

Yr egwyddorion allweddol sy'n sail i gomisiynu a darparu'r model hwn yw bod:

Hybu llesiant yn canolbwyntio ar helpu pobl i reoli eu hiechyd a'u lles ac atal salwch.

Hybu annibyniaeth yn annog pobl i gael dewis a rheolaeth dros eu bywydau ac yn eu cefnogi i gyflawni eu nodau a'u canlyniadau personol.

Cefnogi Annibyniaeth yn darparu'r lefel gywir o gymorth i sicrhau y gall unigolion fyw yn eu cartrefi eu hunain, cynnal eu tenantiaethau a chynnal cysylltiadau â'u rhwydwaith cymorth ehangach / teulu / cymuned o ddiddordeb.

Yr amcan trosgynnol yw sicrhau bod unigolion yn cael eu grymuso i gynnal bywydau iach ac annibynnol yn niogelwch a chysur eu cartrefi eu hunain drwy ddull sy'n seiliedig ar asedau. Mae'r llety wedi'i ddylunio ar y cyd â thenantiaid i greu amgylchedd byw sy'n cefnogi pobl i fyw'n annibynnol.

Mae'r llety a rennir wedi'i ddylunio i fod yn lleoliad arbenigol ar gyfer oedolion yr ystyrir bod ganddynt anghenion canolig i uchel. Mae'n cynnwys; 2 lawr, gyda 4 ystafell wely, pob un â'i ystafell ymolchi ei hun. Mae 2 ddeiliad i lawr y grisiau a 2 i fyny'r grisiau gyda mynediad i ardal fyw gymunedol a chegin a rennir.

Fflatiau hunangynhwysol annibynnol, sef 4 fflat sy'n cynnwys ystafell wely, lolfa/ardal fwyta/cegin, ac ystafell ymolchi. Mae anghenion yr unigolion o fewn y fflatiau hunangynhaliol yn isel i ganolig. Mae'r model ar gyfer y fflatiau hunangynhwysol wedi'i ddylunio i gefnogi unigolion i symud ymlaen i fyw'n fwy annibynnol pan fo'n briodol.

Mae gofod byw pob unigolyn wedi'i addurno'n unol â'u hoffterau a'u harddull.

O fewn y dyluniad rydym wedi ymrwymo i ddarparu cartref sydd â chostau rhedeg blynyddol isel, sy'n gwella effeithlonrwydd ynni'r adeilad, yn lleihau'r ôl troed carbon trwy ddefnyddio ynni glanach ac yn darparu amgylchedd byw iach.

Rydym wedi cynnwys y technolegau arloesol diweddaraf sy'n caniatáu i'r cartref gynhyrchu a storio ei ynni ei hun, gan olygu bod gan unigolion fwy o reolaeth dros faint o ynni a ddefnyddir, gan ostwng biliau tanwydd ac ôl troed carbon trwy gymryd llai o ynni o'r grid ynni. Mae gan yr estyniad adeiladwaith ffrâm bren perfformiad uchel i leihau colli gwres. Yn allanol mae'r adeilad yn elwa o Baneli Ynni'r Haul PV, ffenestri a drysau allanol gwydr triphlyg i leihau colli gwres.

Trwy wneud yr ynni'n lanach trwy osod ffynonellau gwresogi trydanol a lleihau'r gwres a gollir yn sylweddol ar gyfer yr adeiladau hyn bydd arbediad sylweddol mewn allyriadau carbon. Daeth y deunyddiau ar gyfer y dyluniad o ffynonellau lleol, er enghraifft, pren, fel ei fod yn lleihau'r ôl troed carbon.


**Canlyniadau a chyflawniadau**

Mae'r Cynllun yn darparu cyfle gwych i ni ddysgu mwy am sut rydym yn darparu cartrefi cost isel, carbon isel, ynni-effeithlon yn ogystal â llety diogel ac addas ar gyfer ein grwpiau cleientiaid mwyaf agored i niwed. Gobeithiwn y gellir ailadrodd ei lwyddiant ar draws ein stoc tai ehangach a'r gwasanaeth yn gyffredinol.

# Pen Y Dre Apartments / Compass Community Hub

**Sefydliad arweiniol: CBS Merthyr Tudful**

**Sefydliadau partner: Cartrefi Cymoedd Merthyr**



**Datganiad o gefnogaeth**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi ymrwymo i ddatblygu modelau cymorth priodol ar gyfer ein pobl ifanc, wedi'u harwain gan ein gweledigaeth glir. Fel rhan o'n strategaeth rhianta corfforaethol, rydym yn cydnabod pwysigrwydd sefydlu system haenog gadarn o opsiynau tai i rymuso a galluogi ein pobl ifanc i gyflawni eu llawn botensial. Yn unol ag Adran 79 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, rydym wedi ymrwymo i gyflawni ein dyletswydd ddigonolrwydd a sicrhau llety digonol ar gyfer pob math o blant sy'n derbyn gofal.

Yn 2020/21, llwyddodd CBSMT i sicrhau £1,129,174 o gyllid CGI (Cronfa Gofal Integredig) i ymdrin ag anghenion llety pobl ifanc 16-24 oed ym Merthyr Tudful. Dyrannwyd y cyllid i adnewyddu adeilad sy'n eiddo i'r cyngor yn ystâd y Gurnos, gan greu pum uned o lety hunangynhwysol un a dwy ystafell wely. Mae'r unedau hyn wedi'u dylunio'n benodol i ddarparu ar gyfer pobl ifanc sy'n pontio o ofal maeth neu lety gofal preswyl rhianta corfforaethol, yn ogystal â'r rhai yn y grŵp oedran hwn sy'n cyflwyno'n ddigartref.

Mae'r adeilad a ddewiswyd, a adwaenir ar hyn o bryd fel Canolfan Dysgu yn y Gymdogaeth, yn chwarae rôl hanfodol wrth gefnogi pobl ifanc ac oedolion di-waith i gyrchu rhaglenni hyfforddi sydd â'r nod o wella'u cyflogadwyedd. Mae'n cynnwys tri adeilad, sy'n cynnig ystod o gyfleoedd hyfforddiant galwedigaethol ac amgylcheddau dysgu trwy brofiad. Mae'r gweithdai'n cynnwys gwaith coed, gwaith plymwr, gwaith metel ac ardaloedd adeiladwaith, salon gwallt proffesiynol, a gweithdy cerameg, ymhlith eraill. Er mwyn creu'r fflatiau hunangynhwysol, roedd y cynllun cyfalaf a gymeradwywyd yn golygu adnewyddu un adeilad (Bloc 2) ac adleoli gweithdai presennol i weddill yr adeiladau gyda mân addasiadau. Sicrhaodd y cynllun strategol hwn fod rhan o'r ganolfan ddysgu'n parhau'n weithredol ac yn hygyrch i bobl ifanc.

Mae integreiddio cymorth tai a hyfforddiant galwedigaethol yn rhoi cyfle unigryw i unigolion ifainc gael mynediad uniongyrchol at gartrefi modern a diogel ac ar yr un pryd elwa o hyfforddiant ar y safle. Mae'r dull integredig hwn yn gwella'u hintegreiddio cymdeithasol, yn lleihau'r risg o ynysu, ac yn eu hannog i beidio ag ymddwyn mewn modd gwrthgymdeithasol. Trwy gyfuno llety a chymorth â chyfleoedd hyfforddiant galwedigaethol, rydym nid yn unig yn darparu lle i fyw ond hefyd yn rhoi'r sgiliau a'r addysg angenrheidiol i bobl ifanc ddilyn addysg uwch neu gyflogaeth, a thrwy hynny gynyddu eu siawns o lwyddo yn yr hirdymor.

Mae ein prosiect yn rhoi pwyslais mawr ar atal ac ymyrryd gynnar i bobl ifanc 16 – 24 oed sydd wedi bod yn y system ofal. Trwy ymyrryd yn y cam hollbwysig hwn, rydym yn ymdrin yn rhagweithiol â'u hanghenion ac yn cynyddu eu siawns o annibyniaeth lwyddiannus. Mae'r prosiect yn cefnogi ein pobl ifanc

i gyflawni eu dyheadau trwy ddarparu amgylchedd tai sefydlog a chefnogol iddynt, gan eu grymuso i gyflawni eu nodau. Mae hefyd yn gwella pontio rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion, gan sicrhau system gymorth ddi-dor a pharhaus.

Trwy ddodrefnu'r fflatiau hunangynhwysol, ein nod yw rhoi'r dechrau gorau posib i'w tenantiaethau i'n pobl ifanc. Mae'r dull hwn yn meithrin ymdeimlad o berchnogaeth, perthyn, a phwysigrwydd ymhlith y trigolion. Trwy gael mynediad at eitemau ffisegol hanfodol sy'n angenrheidiol ar gyfer byw'n gynaliadwy, gall ein pobl ifanc ffynnu a theimlo eu bod wedi buddsoddi yn eu cartrefi newydd. Mae hyn, yn ei dro, yn gwella eu llesiant cyffredinol, eu hannibyniaeth a'u boddhad â'r gwasanaethau tai a ddarperir.

Rydym wedi derbyn adborth cadarnhaol a thystebau gan drigolion a'r sefydliadau rydym wedi cydweithio â nhw, sy'n amlygu effaith ein gwasanaethau tai a'n cymorth ar eu hannibyniaeth, eu llesiant a'u boddhad cyffredinol. Mae'r prosiect hefyd wedi ennill cydnabyddiaeth am ei ymagwedd arloesol at gefnogi pobl ifanc i bontio i fyw'n annibynnol.

**Canlyniadau a chyflawniadau**

Cwblhawyd y gwaith ddiwedd mis Rhagfyr 2022 gyda 5 x uned o lety wedi'u dodrefnu ac yn barod i'w meddiannu ganol mis Ionawr 2023. Mae pob un o'r 5 uned llety bellach wedi'u meddiannu ac mae'r bobl ifanc yn derbyn cymorth i gyflawni eu nodau. Bydd y gwasanaeth yn darparu llety â chymorth sydd wedi'i staffio 24 awr y dydd ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymorth lefel isel ac Ymadawyr Gofal ifainc 16-24 oed ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Mae'r gefnogaeth y bydd y bobl ifanc yn ei derbyn wedi'i gyfeirio gan drawma ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn a bydd yn gweithio tuag at ddyheadau unigol y bobl ifanc a thuag at fyw'n annibynnol. Bydd y cymorth yn cynnwys cyllidebu a chyllid, cyflogaeth a hyfforddiant, lles a sgiliau bywyd.

Bydd pobl ifanc yn cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol dan arweiniad fframwaith y Grant Cymorth Tai. Mae disgwyl i bobl ifanc sy'n byw yn fflatiau Pen y Dre gyflawni canlyniad sylfaenol 3 – gall pobl gael mynediad i gartref sefydlog a'i gynnal, "Mae gen i lety sefydlog sy'n bodloni fy anghenion ac sy'n debygol o bara chwe mis neu fwy" yn ogystal â chanlyniadau eilaidd amrywiol sy'n dibynnu ar eu dyheadau personol.

Unwaith y bydd y bobl ifanc yn barod i symud ymlaen o Ben y Dre, byddant yn cael eu cefnogi yn eu camau nesaf tuag at sicrhau tenantiaeth annibynnol, yna drwy'r broses o symud i'w cartref newydd a hefyd wrth iddynt yn ymgartrefu ac ymsefydlu yn eu cartref newydd.

# Celtic Offsite

**United Welsh**



**Datganiad o gefnogaeth**

Ceir diffyg tai fforddiadwy yng Nghymru, ac mae United Welsh yn benderfynol o chwarae ei rhan i ddarparu mwy. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu 1,300 yn fwy o gartrefi yn y pum mlynedd nesaf, a bydd yr holl gartrefi newydd a adeiledir gan ein sefydliad yn rhai nad ydynt wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad nwy gydag effaith amgylcheddol isel.

Mae United Welsh yn darparu cartrefi i bobl sydd angen tai fforddiadwy. Er mwyn sicrhau bod cartrefi mor fforddiadwy â phosib y tu hwnt i daliadau rhent, mae'n bwysig eu bod yn cael eu hadeiladu i fwyafu effeithlonrwydd ynni i leihau costau biliau trigolion.

Mae ein cyfrifoldeb i leihau ein hôl troed carbon i daclo'r argyfwng hinsawdd hefyd yn ystyriaeth allweddol yn ein cynlluniau datblygu.

Er mwyn mynd i'r afael â'r prinder tai fforddiadwy, yr angen am ddatgarboneiddio, a chymorth i bobl ar incwm isel, penderfynodd United Welsh greu ei gyfleuster datblygu ei hun i fanteisio'n llawn ar dechnegau gweithgynhyrchu fframiau pren ac oddi ar y safle i adeiladu cartrefi carbon isel.

Mae Celtic Offsite, menter gymdeithasol newydd United Welsh, yn gyfleuster gweithgynhyrchu sydd â'r capasiti i greu adeileddau ffrâm bren o ansawdd uchel gydag inswleiddio a ffenestri wedi'u gosod yn y ffatri ar gyfer cartrefi carbon isel.

Mae gwaith cynhyrchu yn y ffatri yng Nghaerffili bellach wedi dechrau ac yn y 12 mis diwethaf, mae Celtic Offsite wedi darparu ei gartrefi cyntaf ar safleoedd.

Mae hyn wedi cynnwys:

- Fflatiau Min-Y-Coed – llety digartrefedd i deuluoedd yng Nghaerdydd yn gweithio gydag United Welsh, Cyngor Caerdydd a Hale Construction

- Acer House – llety tai â chymorth sy'n cynnwys pum fflat, gofod cymunedol a staff ym Mrynmawr, wedi'i ddarparu gydag United Welsh, ABUHB a Kingfisher Developments Ltd

Mae 36 o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru. Mae llawer yn wynebu'r un heriau datblygu a chynaladwyedd ag United Welsh, fel y mae awdurdodau lleol hefyd.

Mae'r rhan fwyaf o gartrefi sy'n cael eu hadeiladu gan y sector tai cymunedol ar gyfer pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, neu'r rheini mewn lleoliadau sy'n amhriodol i'w hanghenion. Mae cyflymder adeiladu, cynnal a chadw a hirhoedledd yn hanfodol er mwyn i ddatblygiadau tai fforddiadwy fod yn hyfyw ac yn llwyddiannus yn yr hirdymor, o'r gwaith adeiladu cychwynnol hyd at ofal eiddo preswyl a fforddadwyedd i drigolion.

Mae cartrefi ffrâm bren yn gyflym i'w hadeiladu mewn lleoliad ffatri (wyth wythnos yn gyflymach ar gyfartaledd na dulliau traddodiadol) ac nid yw tywydd gwael ar safleoedd yn effeithio arnynt.

Mae llai o wastraff a gwell amodau iechyd a diogelwch hefyd.

Mae pren hefyd yn cael ei ystyried fel y deunydd adeiladu mwyaf cynaliadwy gyda'r carbon corfforedig isaf, ac fel deunydd sy'n effeithlon o ran gwres, mae'n helpu i leihau biliau gwresogi trigolion yn y tymor hir.

Roeddem yn cydnabod y byddai cyfleuster adeiladu fframiau pren hefyd yn helpu partneriaid i gyflawni eu huchelgeisiau a rennir o ran datblygu a datgarboneiddio.

Yn ddiweddar mae Celtic Offsite wedi gweithio ar brosiectau ffrâm bren i ddau landlord cymunedol arall - Grŵp Pobl a RHA Cymru. Y datblygiadau partneriaeth presennol sydd gennym ar y safle yw:

- Hen swyddfa ddidoli'r Post Brenhinol yn Nhreorci – naw fflat ar rent fforddiadwy ar gyfer RHA Cymru, gan weithio gyda Kingfisher Developments Ltd
- Croespenmaen – 60 o gartrefi rhent fforddiadwy ar gyfer Grŵp Pobl, yn gweithio gyda M&J Cosgrove.

Dyluniwyd Celtic Offsite i gefnogi'r economi leol i ffynnu hefyd.

Mae ystafelloedd hyfforddi ar y safle i ddarparu sgiliau, datblygiad a phrentisiaethau ar gyfer swyddi adeiladu gwyrdd, ac mae dros 60% o'r staff yn drigolion Unedig Cymru.

Dywedodd Bex Whitcombe, Gweithredwr Ffatri Celtic Offsite:

"Fel tenant United Welsh mae'n wirioneddol anhygoel. Rwy'n fam sengl i bedwar o blant, wnes i erioed feddwl y byddwn i'n gallu gweithio fel hyn."

Mae cyflawni lefelau uchel o foddhad cwsmeriaid hefyd o'r pwys mwyaf i ni.

Rydym wedi cyflawni'r sgorau boddhad cwsmeriaid canlynol gan dimau ar safleoedd hyd yma:

- Acer House: 97%
- Min-Y-Coed: 81%
- Cyn swyddfa ddidoli, Treorci: 97%

Dywedodd Neil Francis, Rheolwr Safle gyda Kingfisher:

"Roedd y gwasanaeth a dderbyniais gan Celtic Offsite yn eithriadol, o ddosbarthu'r platiau sylfaen i'r cam terfynol o gomisiynu'r ffenestri. Roedd gan y tîm cyfan ymagwedd broffesiynol iawn at y rhaglen, gan gynnwys cynllunio, cyfathrebu, ansawdd, ac iechyd a diogelwch, yn galluogi i'r prosiect cyfan fynd rhagddo'n llyfn.

"Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda nhw ar brosiectau yn y dyfodol."

## Canlyniadau a chyflawniadau

Mae Celtic Offsite wedi darparu ei gartrefi cyntaf ar y safle, gan helpu United Welsh a phartneriaid i gyflawni eu cynlluniau datblygu cynaliadwy a datgarboneiddio.

Fel menter gymdeithasol newydd o fewn Grŵp United Welsh, mae Celtic Offsite yn gyfleuster gweithgynhyrchu yng Nghaerffili, sy'n adeiladu adeileddau ffrâm bren o ansawdd uchel gydag inswleiddio a ffenestri wedi'u gosod mewn ffatri ar gyfer cartrefi carbon isel.

Sefydlodd United Welsh Celtic Offsite fel dull arloesol o adeiladu cartrefi ynni effeithlon ar raddfa fawr ac yn gyflym; gan ymdrin â'r prinder tai fforddiadwy a'r angen am ddatgarboneiddio.

Gydag uned ffatri benodedig o 28,000 troedfedd sgwâr, yn cynnwys yr offer torri coed diweddaraf, mae'r ffatri wedi'i threfnu i fodloni gofynion a disgwyliadau contractwyr a chleientiaid.

Yn ychwanegol at gyflenwi cartrefi, mae Celtic Offsite wedi ymrwymo i ddarparu datblygiad sgiliau gwyrdd a phrentisiaethau ar gyfer trigolion United Welsh a phobl leol.

Mae gan y ffatri ystafelloedd hyfforddi ar y safle ac mae dros 60% o'r staff yn drigolion United Welsh.

Mae eu sgôr boddhad cwsmeriaid cyfartalog yn 92%.

Mae holl elw Celtic Offsite yn cael ei ail-fuddsoddi i ddarparu mwy o gartrefi a gwasanaethau fforddiadwy, gan gynnwys rhaglen ddatgarboneiddio United Welsh.

# The Hill Street House

**Sefydliad arweiniol: ZED PODS Limited**

**Sefydliadau partner: Cymdeithas Tai Linc Cymru a Chyngor Dinas Casnewydd**



**Datganiad o gefnogaeth**

Mae Cyngor Dinas Casnewydd (CDC) yn wynebu argyfwng cyflenwad acíwt o dai fforddiadwy gyda dros 9,000 o aelwydydd ar eu cofrestr tai a dros 369 o aelwydydd yn aros mewn llety dros dro. Nododd CDC nifer o safleoedd i adeiladu cartrefi rhent cymdeithasol a dewiswyd Hill Street oherwydd ei leoliad trefol-ganolog, er bod y safle gyda llethrau serth wedi'i leoli mewn Ardal Gadwraeth. Roedd y mynediad cul i'r safle yn golygu nad oedd modd ei ddatblygu drwy fethodoleg adeiladu draddodiadol. Fodd bynnag, roedd CDC eisiau adeiladu'r cartrefi hyn yn gyflym.

Trwy gydweithio'n agos â Linc Cymru a CDC, aethom ati i ddylunio ac adeiladu'r cynllun tai rhent cymdeithasol carbon tra-isel hwn, sef "Hill Street House". Mae'r prosiect wedi darparu llety diogel, dymunol o ansawdd uchel i 12 o bobl sengl sydd wedi bod yn aros mewn llety dros dro ar ôl bod yn ddigartref, ac wedi hynny yn eu helpu i drawsnewid eu bywydau. Fe wnaethom ddefnyddio methodoleg adeiladu modiwlaidd cyfeintiol arloesol ynghyd â dylunio hyblyg ar sail grid, techneg gweithgynhyrchu darbodus a strategaeth logisteg arloesol i oresgyn yr heriau dylunio a chyfyngiadau'r safle. Adeiladwyd y prosiect yn unol â Rhaglen Datgarboneiddio Llywodraeth Cymru, a hwn oedd y cynllun a gwblhawyd gyntaf i dderbyn cyllid o grant Digartrefedd Cam 2 Llywodraeth Cymru.

Y cynllun hwn yw cynllun tai modiwlaidd, carbon tra isel cyntaf y DU (Cat 1) rhent cymdeithasol mewn Ardal Gadwraeth. Mae'r cynllun hwn yn ailddefnyddio gofod dros ben ar faes parcio sy'n eiddo i'r cyngor, gan osgoi'r angen am ddymchwel a phrosesau gorchymyn prynu gorfodol hir. Roedd ein harloesi'n dilyn saith nod DLlCD (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2015) gyda ffocws ar CO2, Cyfalaf ac Ynni. Roedd y datblygiad yn bodloni'r holl egwyddorion datblygu adeiladau 'MUST' (Isafu, Defnydd, Amnewid a Thrin) / (Minimize, Use, Substitute, and Treat).

Technoleg arloesol

Mae ein system fodwlar cyfeintiol, a ddatblygwyd ac a brofwyd yn y Sefydliadau Ymchwil Adeiladu, yn sicrhau ystyriaethau arbennig o ran tân, ansawdd, sŵn, ansawdd aer, cyfleustodau. Gyda system a sylfeini wedi'u peiriannu'n llawn, CDM, proses adeiladu a gosod effeithlon heb fawr o darfu ar y safle, mae'r cartrefi hyn yn rhagori ar ansawdd cartrefi a adeiladwyd yn gonfensiynol.

Mae'r fflatiau wedi'u hinswleiddio i raddau mawr iawn a does dim cysylltiad nwy. Maent yn defnyddio lefelau isel iawn o ynni, mae paneli solar yn cynhyrchu trydan yn ystod y dydd ac mae systemau dŵr a gwresogi ynni isel yn cyfrannu at y ffaith bod gan y datblygiad un o'r lefelau perfformiad ynni gorau mewn tai cymdeithasol yn y DU, yn unol â Rhaglen Datgarboneiddio Llywodraeth Cymru.

Datblygiad Carbon Tra Isel ac Effeithlonrwydd Ynni Uwch

Dyluniwyd yr adeilad gan ein tîm dylunio mewnol ar gyfer effeithlonrwydd ynni, dewis o ddeunyddiau i ddarparu'r perfformiad a'r diogelwch gorau, dewis o wydr a lleihau pontio thermol. Yn ogystal, darparwyd mwy o wyrddni, gardd dŵr glaw, palmentydd athraidd fel rhan o strategaeth Draenio Cynaliadwy. Daethom o hyd i 65% o ddeunyddiau'n lleol er mwyn isafu'r effaith amgylcheddol a defnyddiwyd partneriaid cadwyn gyflenwi lleol ym mhob cam o gylch bywyd yr adeilad. Wedi'u hadeiladu gyda dull 'ffabrig yn gyntaf' yn yr amgylchedd ffatri rheoledig, mae'r fflatiau hunangynhwysol hyn wedi'u hinswleiddio i raddau mawr ac mae lefel aerglosrwydd (fel y'u hadeiladwyd) wedi'i fesur yn is na 1m3/m2/awr yn erbyn lefel perfformiad cynlluniedig o 2 m3/m2/awr @50Pa , a gwelliant o 80% ar y Gydymffurfiaeth Genedlaethol.

Bywyd a ffordd o fyw carbon isel

Mae'r datblygiad yn hyrwyddo "teithio llesol" ac mae'n gwbl ddi-gar, gan ei fod wedi'i leoli'n agos at siopau, yr orsaf reilffordd ac amwynderau eraill. Darperir lle diogel i storio beiciau er mwyn annog mathau cynaliadwy o gludiant. Rhoddwyd dodrefn ac offer coginio ail law i denantiaid wrth iddynt symud i mewn. Helpodd y "Canllaw Trigolion" hawdd ei ddeall denantiaid i addasu i dechnolegau a ffordd o fyw carbon isel.

Arbedion:

Tua 10 Tunnell o Arbedion Carbon a 43 kilo litr o arbedion dŵr y flwyddyn.

Sian Diaz, Cyfarwyddwr Datblygu, Linc Cymru:

"Gyda phrosiect Hill Street rydym wedi gwireddu ein diben o greu'r amgylchedd cywir i bobl ffynnu. Nid yn unig y mae'r cynllun yn golygu gostyngiad mewn costau llety dros dro i'r Cyngor, mae hefyd yn gweld 12 o bobl yn derbyn lle diogel, diogel a chyfforddus i fyw ynddo."

**Canlyniadau a chyflawniadau**

Canlyniadau arloesol:

1. Cynllun modiwlaidd, rhent cymdeithasol, carbon tra isel (Cat 1) cyntaf y DU mewn Ardal Gadwraeth.
2. Defnyddio Hawliau Datblygu a Ganiateir sydd newydd gael eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru i hwyluso cartrefi newydd yn enwedig yn y pandemig.
3. MMC cyfeintiol oddi ar y safle heb unrhyw wastraff i'w dirlenwi yn ystod gweithgynhyrchu.
4. Dim ond 3 diwrnod o amser gosod ar y safle gan leihau aflonyddwch, sŵn a gwastraff lleol.
5. Cyflawnwyd EPC gradd A a Chyfraddau Allyriadau Anheddau negyddol, SAP gradd A o dros 92+.
6. Adeiladwaith aerglosrwydd wedi'i inswleiddio i raddau mawr gyda 0.87 i 0.98 m3/h/m2 o newidiadau aer yr awr @50 PA (80% yn well na'r lefel Cydymffurfiaeth Genedlaethol o 5 m3/h/m2)
7. Mae paneli solar sy'n cysylltu â'r grid yn cynhyrchu tua 1.1 kW trydan yn yr oriau brig.
8. Awyru mecanyddol ynni isel gydag adferiad gwres 93%
9. Amcangyfrifir y caiff dros 297* tunnell o allyriadau carbon eu harbed dros 30 mlynedd o'i gymharu ag adeilad newydd sy'n cydymffurfio â Rhan-L (*Yn seiliedig ar gyfraddau SAP DER ar gyfer Defnydd o Ynni a Reoleiddir (Nid yw'n cynnwys gofynion heb eu rheoleiddio)
10. Canfyddiad Cadarnhaol: Ymwelodd Ei Uchelder Brenhinol y Tywysog William â'r cynllun fel rhan o'r Fenter Homewards sydd â'r nod o roi diwedd ar ddigartrefedd. Wedi'i ddangos ar The One Show ar y BBC fel cartrefi cymdeithasol cynaliadwy enghreifftiol a arweinir gan MMC
11. Restore Project: Derbyniodd y trigolion ddodrefn ail law a llestri a roddwyd i'w helpu i ymgartrefu.

# GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH


Noddir gan: LOVELL

Bydd y wobr hon yn dathlu partneriaeth a chydweithio ar draws y sbectrwm tai. Os yw eich sefydliad wedi datblygu, cyflwyno neu yrru cynnydd trwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau y tu mewn a'r tu allan i'r maes tai, hoffem glywed oddi wrthych.

## Cydweithio i leihau'r risg o ddigartrefedd

**Sefydliad arweiniol: Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**

**Sefydliadau partner: Bron Afon, Hafod Cymru, Linc-Cymru, Cartrefi Melin, United Welsh, Pobl**



**Datganiad o gefnogaeth**

Cydnabu grŵp o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (LCC) ynghyd â thîm Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen fod lefelau uchel o ôl-ddyledion rhent ar gynnydd yn y fwrdeistref.  Fe wnaethant nodi risg y byddai mwy o aelwydydd yn colli eu cartrefi, a fyddai'n golygu cynnydd mewn digartrefedd a galw mawr ar wasanaethau yn Nhorfaen o ganlyniad.

Nodwyd bod cwsmeriaid ond yn ymgysylltu â'r tîm Tai ar ôl iddynt dderbyn dyddiad llys neu droi allan, gan arwain at gostau ychwanegol.  Prif effaith hyn oedd y straen o ddyddiad llys neu droi allan posib, a waethygodd y pwysau ar aelwydydd. Arweiniodd hefyd at berthnasoedd dan straen rhwng y cwsmer a'r LCC.  Roedd gan y tîm Tai lai o amser i weithio gyda chwsmeriaid i ddod o hyd i ateb.  Roedd yn golygu ymdrin dim ond â'r risg uniongyrchol yn hytrach na gweithio ar yr achos craidd a rhoi mesurau cefnogi ar waith yn gynharach o lawer.

Cytunwyd i weithredu prosiect atal, lle trosglwyddwyd achosion ôl-ddyledion mwyaf y LCC a oedd mewn perygl o fynd i'r llys i'r tîm Tai. Byddent yn ymweld ac yn ymgysylltu â'r cwsmer i sefydlu cynlluniau talu, cynnig cymorth ariannol arbenigol, atgyfeirio ar gyfer unrhyw anghenion cymorth eraill a chysylltu â chyflogadwyedd. Ar gyfer yr achosion hynny nad oeddent yn ymgysylltu â'r LCC, byddent yn trefnu ymweliadau ac apwyntiadau ar y cyd â'u timau i ailadeiladu perthnasoedd ac ymddiriedaeth. Ar ôl cyfnod o amser, os oedd y cwsmer yn gweithio gyda gwasanaethau ac wedi cynnal cytundeb talu, byddai'r tîm Tai'n talu swm oddi ar yr ôl-ddyledion i helpu dileu'r risg o ddigartrefedd a sefydlogi'r denantiaeth a'r llety ymhellach.

Cynhaliwyd cyfarfodydd bob pythefnos i adolygu'r achosion a amlygwyd i sicrhau bod cwsmeriaid yn ymgysylltu â gwasanaethau, bod taliadau'n cael eu cynnal ac i drafod unrhyw broblemau eraill o fewn yr aelwyd.  Gallai hyn gynnwys cyflwr yr eiddo, atgyweiriadau, cyflogadwyedd a bod yn agored i niwed. Trefnwyd apwyntiadau ar y cyd yn swyddfeydd y LCC er mwyn i gwsmeriaid a swyddogion ailadeiladu ymddiriedaeth, gan sicrhau bod gan gwsmeriaid fwy o gysylltiad â'r sefydliad a mwy o hyder yn y berthynas â'u LCC.

Yn dilyn llwyddiant y prosiect a'r gwersi a ddysgwyd, mae rhannau o broses adennill ôl-ddyledion yr LCC wedi'u diweddaru i sicrhau eu bod yn gyson.  Mae unrhyw achosion sydd mewn perygl o fynd i'r llys yn awr yn cael eu cyfeirio at y tîm Tai, gan ddarparu cyfleoedd i ymyrryd yn gynharach, mynd i'r afael â materion allweddol yn gynnar yn y broses a chydweithio i gyflawni canlyniadau gwell. Mae'r ymagwedd aml-asiantaeth hon yn galluogi Bron Afon

i roi cymorth priodol ar waith ar gyfer cwsmeriaid ac yn rhoi llai o straen ar wasanaethau yn y gymuned drwy fod yn rhagweithiol yn hytrach nag yn adweithiol. Mae gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o asiantaethau'n ei gwneud hi'n haws taclo'r problemau y mae trigolion yn eu hwynebu cyn gynted â phosib.

Y LCC sy'n cymryd rhan yw Bron Afon, Hafod Cymru, Linc-Cymru, Cartrefi Melin, United Welsh a Thai Pobl.

**Canlyniadau a chyflawniadau**

- O'r 40 o gyfrifon a gyfeiriwyd i mewn, bu i 38 ymgysylltu â'r prosiect a gostyngwyd ôl-ddyledion £60,000 o ganlyniad i daliadau gan y Tîm Tai a thaliadau gan y cwsmer.
- O'r 40, atgyfeiriwyd 8 am gymorth dyled arbenigol gyda'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth a chynyddodd 5 eu horiau gwaith diolch i gymorth gan Gyflogadwyedd Torfaen.
- Nid oedd yr un o'r cyfrifon wedi'u symud ymlaen i fod yn destun achos llys ac mae'r taliadau wedi'u cynnal gan y cwsmeriaid. Mae hyn yn golygu bod tenantiaethau wedi'u cynnal a bod cwsmeriaid wedi aros yn eu cartrefi.
- Mae'r ymagwedd hon wedi cael ei chyflwyno o fewn prosesau adfer ac rydym yn parhau i weld yr un lefelau o lwyddiant ac ymgysylltu.

# STAR housing model

**Sefydliad arweiniol: United Welsh a Chyngor Caerffili**

**Sefydliadau partner: Platfform**



**Datganiad o gefnogaeth**

Mae'r prosiect fflatiau STAR yn bartneriaeth rhwng United Welsh, tîm Cefnogi Pobl Cyngor Caerffili a Platfform. Mae fflatiau STAR – Dechreuwr, Pontio ac Ailsefydlu (Starter, Transitional and Resettlement) – yn llwybr ailgartrefu ar gyfer unigolion sy'n gadael llety dros dro y mae angen lefelau llai o gymorth arnynt, nad ydynt yn gwbl parod i fyw'n annibynnol.

Sefydlwyd y prosiect yn wreiddiol i gefnogi pobl ar restr aros yr awdurdod lleol sydd angen llety 'cam-i-lawr' i'w cefnogi i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddal contract tai'n annibynnol. Yn flaenorol, byddai United Welsh yn gweithio gyda'r tîm Cefnogi Pobl i ddyrannu eiddo i'r unigolion hyn, gyda chefnogaeth wedi'i theilwra i'w hanghenion. Unwaith yr oeddent yn gallu ymdopi gydag ychydig iawn o gymorth neu ddim cymorth o gwbl, byddai'r person yn gadael fflat STAR ac yn symud i gartref "anghenion cyffredinol" a rentir.

Gan gydnabod bod yr unigolion hyn yn debygol o fod wedi profi trawma yn eu bywydau, ac eisoes wedi symud o un eiddo i'r llall, cydnabu'r prosiect yr angen am ddarparu llety hirdymor o'r cychwyn cyntaf, yn hytrach na phroses a oedd yn ei hanfod yn gofyn i bobl symud o leiaf dwywaith ar ôl gadael llety â chymorth.

Gweithiodd United Welsh gyda'r tîm Cefnogi Pobl a darparwyr cymorth allanol i baru unigolion orau â phob eiddo fel ateb hirdymor. Roedd hyn yn golygu unwaith y byddai'r person yn barod i ostwng neu stopio lefel y cymorth, byddai'r cartref yn dod yn eiddo anghenion cyffredinol yn awtomatig a gallai'r preswylydd barhau i fyw yno yn lle symud eto. Yna mae United Welsh yn dod o hyd i eiddo arall i fod yn gartref STAR yn rhywle arall i rywun arall sy'n dechrau'r broses.

Mae'r bartneriaeth hon rhwng United Welsh a thîm Cefnogi Pobl Caerffili yn golygu bod unigolion sy'n dod o lety â chymorth yn cael cartref hirdymor sy'n addas ar eu cyfer, gan alluogi pontio haws a'u helpu i ymgartrefu'n gyflymach.

Dywedodd Shelly Jones, Rheolwr Cefnogi Pobl yng Nghyngor Caerffili: "Mae'r model STAR wedi rhoi ateb unigryw ond syml i ni i sefyllfa gymhleth yng Nghaerffili. Mae gennym lawer o bobl nad oes angen llety â chymorth amser llawn arnynt bellach nad ydynt yn barod i gwblhau eu taith i dai annibynnol.

"Mae'r prosiect hwn yn rhoi sicrwydd i'r unigolyn a'r amser i fagu hyder hyd nes eu bod yn barod i reoli cartref. Mae ein perthynas ag United Welsh yn ein galluogi i baru unigolion orau ag eiddo sydd wedi'u sefydlu i fod yn gartrefi hirdymor iddynt, gan roi ymdeimlad o sefydlogrwydd a lle diogel i'r trigolion ffynnu. Mae wedi newid bywydau'r bobl yr ydym yn eu cefnogi."

Meddai Kirsty Crocker, Rheolwr Gwasanaeth yn Platfform sy'n darparu cymorth i drigolion STAR:

"Mae'r prosiect yn darparu cefnogaeth adsefydlu ddwys i unigolion, gall trigolion gael cymorth gennym

ni tra’n dal i ennill annibyniaeth a dysgu sut i reoli tenantiaeth. Mae wedi bod yn wych i ni weld pobl sydd wedi bod mewn llety â chymorth ers amser maith yn cael eiddo STAR ac yn dechrau teimlo’n rhan o gymuned a ffynnu.”

## Canlyniadau a chyflawniadau

Ar hyn o bryd mae 12 fflat STAR ar draws bwrdeistref Caerffili, gyda thri wedi trosglwyddo'n rhwydd i eiddo anghenion cyffredinol. Caniataodd y prosiect STAR i'r trigolion hynny ymgartrefu yn eu cartref newydd ar ôl llety dros dro, gan ennill yr hyder a’r sgiliau i reoli eu cartrefi’n annibynnol heb orfod symud eto ar ôl i’r cymorth ddod i ben.

Mae'r prosiect wedi ymrwymo i ddarparu profiad pontio llyfn, cefnogol a chynaliadwy i drigolion. Datblygodd dau drigolyn gyfeillgarwch agos ar ôl byw yn yr un llety dros dro, felly i'w helpu gyda cham nesaf eu taith, cawsant eu gosod mewn fflatiau STAR yn yr un adeilad fflatiau.

Bydd United Welsh yn awr yn sicrhau bod un fflat STAR ar bob safle datblygu newydd, yn ogystal â pharhau i ddod o hyd i eiddo addas ymhlith ein cartrefi presennol. Y nod yw cynyddu nifer y fflatiau a thai STAR ac ar yr un pryd sicrhau nad yw nifer y cartrefi anghenion cyffredinol sy'n cael eu gosod drwy'r Gofrestr Tai Cyffredin yn cael ei gyfaddawdu.

# CYNALADWYEDD YM MAES TAI

Noddir gan: BLAKE MORGAN

Mae'r sector tai, fel llawer o rai eraill, yn wynebu'r her o dorri allyriadau carbon er mwyn cyrraedd targedau sero-net Llywodraeth Cymru erbyn 2050.

Mae'r wobr hon yn dathlu sefydliadau a all ddangos eu bod wedi goresgyn rhai o'r heriau sylweddol wrth dorri allyriadau carbon. Gall ymgeiswyr ystyried datblygiadau newydd, prosiectau ôl-osod neu unrhyw fentrau eraill sydd wedi helpu i leihau allyriadau carbon.

## Thornhill Decarb Project

**Sefydliad arweiniol: Hafod**

**Sefydliadau partner: SERS Ltd**



**Datganiad o gefnogaeth**

Er i gartrefi newydd Hafod gael eu hadeiladu gyda chynaladwyedd fel blaenoriaeth, mae datgarboneiddio cartrefi hŷn sydd eisoes yn bodoli'n her barhaus.

Yn awyddus i wneud gwaith ôl-osod helaeth a fyddai o fudd i'r blaned, ac i gwsmeriaid, aeth Hafod ati i gwblhau gwaith datgarboneiddio effeithiol wrth i gwsmeriaid aros yn eu cartrefi, yn hytrach na gwaith na ellid ei wneud ond ar eiddo gwag.

Mae 78 o dai a 4 bloc o fflatiau yn Thornhill, Cwmbrân, wedi cael eu hôl-osod gydag uwchraddiadau allanol helaeth. Dechreuodd y prosiect, a ariannwyd yn uniongyrchol gan Hafod, ym mis Gorffennaf 2021 a daeth y gwaith i ben ym mis Awst 2023.

Mae Hafod yn credu mewn adeiladu cymunedau a chreu cysylltiadau, ac mae'r ymagwedd hon yn hollbwysig o ran bwrw ymlaen â'u hagenda ôl-osod. Dim ond os bydd y gymuned yn uniaethu â phwysigrwydd cynaladwyedd y gellir gwneud cynnydd yn y maes hwn.

Arloesi a gwella:

Cynhaliwyd arolwg o'r cartrefi, a adeiladwyd rhwng 1976 a 1982, i ddod o hyd i wybodaeth dechnegol am golli gwres, ac ymgynghorwyd â chwsmeriaid i ddeall eu profiadau a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau parhaus.

- Dyluniodd y tîm doeau newydd i ymgorffori inswleiddiad wal allanol newydd. Roedd hwn wedyn yn eistedd o dan y bondo newydd ac o'r herwydd yn edrych yn wreiddiol.
- Roedd y lleoliad, ar safle uchel yng Nghwmbrân, yn golygu bod amgáu'r cartrefi mewn deunydd inswleiddio'n allweddol. Gweithiodd Hafod a'r contractwr SERS, gyda'i gilydd i wneud y gwaith mewn ffordd nad oedd yn ymwthiol. Gosodwyd inswleiddio y tu allan i'r cartrefi a gosodwyd rendrad brics ar ei ben. Golygodd hyn na tharfwyd o gwbl, neu ddim ond i raddau bach, ar rannau mewnol cartrefi cwsmeriaid.
- Roedd gosod ffenestri newydd bob amser yn rhan o'r cynllun yn Thornhill. Ond aeth y tîm un cam ymhellach gan ystyried sut y gellid gwella'r hen ddyluniad i leihau'r mannau oer. Roedd hyn yn cynnwys newid y drws cefn (a oedd yn flaenorol â rhywfaint o PVC diangen gyfagos), rhwystro'r rhan hon i atal man oer a diweddaru'r drws cefn i un o ansawdd gwell.
- Roedd gwneud y cartrefi'n fwy aerglos yn flaenoriaeth, a gosodwyd systemau awyru tŷ cyfan.

Goresgyn heriau:

Fel y mae Sarah Hancock, Pennaeth Asedau yn

Hafod yn ei ddweud, "Mae tîm prosiect Thornhill yn arbenigwyr wrth weld heriau fel cyfleoedd. Roedd eu hagwedd gadarnhaol a'u hymrwymiad i'n hagenda datgarboneiddio'n golygu bod y prosiect hwn yn llwyddiant ysgubol."

Roedd y gwaith a wnaed yn golygu bod cyfathrebu'n effeithiol â chwsmeriaid yn allweddol. Aethant i'r afael â hyn yn uniongyrchol gyda John a Hannah, arweinwyr y prosiect, yn treulio amser gyda chwsmeriaid bob wythnos. Trwy wneud hyn, fe wnaethon nhw hefyd gryfhau perthynas Hafod gyda chwsmeriaid yn Thornhill.

Daeth un o'r heriau mwyaf hanner ffordd drwy'r prosiect pan achosodd digwyddiadau byd-eang brinder o ddeunyddiau. Roedd angen gorchuddio'r inswleiddiad mewn ffordd a oedd yn ddymunol i'r golwg. I wneud hyn, dechreuodd y tîm gyda slipiau brics, ond daeth yn amhosibl cael gafael ar y rhain.

Unwaith eto, trodd yr angerdd dros hybu cynaladwyedd yr her faterol hon yn newid cadarnhaol. Aeth rendrad brics yn gyflym yn dechneg effeithiol. Bu'r contractwr SERS hyd yn oed yn dyfeisio eu hofferyn eu hunain i wella effeithlonrwydd. Roedd y dechneg newydd hon yn golygu y gallai un ochr i dŷ gael ei rendro â brics mewn un diwrnod yn unig ac mae tîm y prosiect yn glir ei bod yn dechneg y byddent yn ei defnyddio eto.

Buddsoddi mewn cymunedau:

Pan ofynnwyd i SERS am eu gweithlu, roedd yr ymrwymiad i'r gymuned leol yn glir, 'Maen nhw i gyd o Gwmbrân, gallaf hyd yn oed bwyntio at rai o'u tai oddi yma!'

Roedd cwsmeriaid yn gallu siarad yn agored â'r contractwr, ac aeth y prosiect yn gyflym yn ymdrech tîm rhwng Hafod, SERS a chwsmeriaid.

Roedd manteision i'r gymuned hefyd, ac ar ddiwedd y prosiect cynhaliwyd digwyddiad i gwsmeriaid, cydweithwyr a chontractwyr ddathlu eu cyflawniad.

Buddion yn y dyfodol:

Yn dilyn llwyddiant y prosiect, mae Hafod wedi bwrw ymlaen â'i agenda ôl-osod, gan wneud cais yn ddiweddar am gyllid i wneud dau brosiect ôl-osod arall, gan ddefnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu o Thornhill.

Cynaladwyedd oedd y grym y tu ôl i'r prosiect, ond bydd creu cartrefi iach i gwsmeriaid hefyd yn sicrhau manteision parhaus.

Bydd y tîm yn parhau i weithio ochr yn ochr â chwsmeriaid Thornhill i fonitro eu biliau a'u defnydd o ynni dros fisoedd y gaeaf.

## Canlyniadau a chyflawniadau

Pan ofynnon ni i John a Hannah, arweinwyr y prosiect, beth oedden nhw'n teimlo oedd wedi gwneud y prosiect yn llwyddiant, fe wnaethon nhw ymateb ar y cyd, "y cwsmeriaid".

Mae'r gefnogaeth gymunedol dros y prosiect hwn a'r manteision y byddai'n eu creu wedi bod yn sylweddol. Gweithiodd cwsmeriaid ochr yn ochr â chydweithwyr a chontractwyr Hafod, gan roi sylw mawr i dechnegau newydd a oedd yn cael eu defnyddio a dangos amynedd pan oedd gwaith yn cael ei wneud ar gartrefi. Mae eu cefnogaeth, a'r anogaeth a roddwyd i'w cymdogion, wedi helpu i yrru'r agenda ôl-osod yn ei blaen yn yr ardal.

Dywedodd Dean, sydd wedi byw yn Thornhill ers 7 mlynedd:

"Roedd fy nhŷ yn weddol oer. Hynny yw, byddwn yn codi yn y bore ac mae'r tymheredd fel 6 gradd yn y tŷ, yr holl ffordd drwodd. Roeddwn i'n gorfod rhoi'r gwres lan yn llawn, a doedd y gwres ddim yn dal…

"Yna fe gawson ni'r ffenestri a'r inswleiddio newydd, ac 'dw i wedi sylwi bod yna wahaniaeth. Rydych chi'n gwybod pa mor oer y gall Cymru fod! Mae fy nhŷ wedi bod yn llawer mwy ynni-effeithlon ers i'r gwaith gael ei wneud. Mae wedi bod yn wych, byddwn yn ei argymell!"

Roedd angerdd tîm Asedau Hafod hefyd wedi gwneud y prosiect yn llwyddiant. Mae'r ffaith bod y gwaith a wnaed ganddynt wedi cyfrannu at agenda datgarboneiddio Hafod, yn ogystal â chreu cartrefi mwy iach i gwsmeriaid, yn profi y gellir cyflawni prosiectau cynaladwyedd yn effeithiol, gyda chymorth i gwsmeriaid a manteision i bawb dan sylw.

# RHAGORIAETH WRTH EIRIOLI CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Bydd y wobr hon yn cydnabod sefydliadau sy'n arwain wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn eu busnesau. Rydym eisiau clywed am sefydliadau sy'n gyrru newid cadarnhaol a phwrpasol ac sy'n cyfrannu at adeiladu cymuned sy'n wirioneddol gynhwysol.

## Materion Cydraddoldeb

**Cymdeithas Tai Newydd**



**Datganiad o gefnogaeth**

Yn 2021, sefydlodd Newydd weithgor penodedig i ymgymryd â marc ansawdd QED fawr ei fri Tai Pawb a ddarparodd fframwaith cynhwysfawr benodol i Gymru ar gyfer adolygu, gwella a thrawsnewid yr effaith ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws llywodraethu, gwasanaethau, mynediad, cyfranogiad a diwylliant. Bu'n bleser anferthol i ni ennill yr achrediad hwn ym mis Mawrth 2022.

Mae amrywiaeth o fentrau a newidiadau i arferion gwaith wedi cael effaith arwyddocaol, fel a ganlyn:

- Fe wnaethom ddatblygu calendr cynwysoldeb i amserlennu gwybodaeth i'w rhannu gyda staff/tenantiaid a siaradwyr gwadd i siarad mewn sesiynau briffio staff i wella dealltwriaeth, cynyddu ymwybyddiaeth, a dathlu'r nodweddion gwarchodedig e.e. Siaradodd Lisa Power MBE, ymgyrchydd Iechyd Rhywiol/hawliau LHDT am hanes LHDTC+; daeth rhywun i siarad am yr hil-laddiad yn Rwanda; mae tenantiaid gwadd wedi siarad am addasiadau i'r anabl; eu profiad o fod yn drawsryweddol; a Diwali. Mae gwybodaeth a rennir ar gyfryngau cymdeithasol/Yammer (ein e-hysbysfwrdd i staff) yn cael ei thagio fel #equalitymatters
- Gosodwyd meddalwedd ReciteMe ar ein gwefannau i wella hygyrchedd
- Mae strategaethau/polisïau'n destun asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb i sicrhau bod gwasanaethau'n deg ac yn gynhwysol
- Cryfhawyd ein polisi/gweithdrefn troseddau casineb, a gweithiodd Swyddogion Cymunedau Diogelach gyda Heddlu De Cymru i gynyddu ymwybyddiaeth o droseddau casineb/cyfeillio/ar-lein
- Cyd-gynhyrchodd Is-grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Newydd (NEADS) 4 siarter a fu'n cynnwys ystyriaethau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad (EDI). Cyhoeddwyd y rhain ar ein gwefan ar ôl cael eu cymeradwyo gan ein Panel Darllen Tenantiaid (Diogelwch yn Gyntaf, Addasiadau Rhesymol, Gwasanaeth Cwsmeriaid, a Chod Ymddygiad Contractwyr)
- Gwellwyd arferion EDI drwy recriwtio i'r Bwrdd, cynefino a hyfforddiant ac adolygwyd manylebau swyddi/cod ymddygiad y Bwrdd
- Mae adran effaith ar gydraddoldeb bellach wedi'i chynnwys yn adroddiadau'r bwrdd
- Darparwyd hyfforddiant Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb i'r Bwrdd/Rheolwyr i gynyddu craffu ar faterion cydraddoldeb
- Mae adroddiad EDI blynyddol manwl yn cael ei greu ar gyfer y Bwrdd sy'n cynnwys dadansoddiad o berfformiad meysydd darparu gwasanaeth allweddol yn ôl nodwedd warchodedig

- Cynhelir dadansoddiad manwl o ddata/cwynion i nodi tueddiadau a sicrhau nad oes unrhyw unigolyn neu grŵp yn cael ei drin yn annheg
- Er mwyn ymdrin â thangynrychiolaeth pobl o leiafrifoedd ethnig, bu i ni fabwysiadu Rheol Rooney
- Mae data proffilio tenantiaid yn cael ei fonitro/diweddaru'n barhaus er mwyn i ni deilwra gwasanaethau'n effeithiol i ddiwallu anghenion amrywiol
- Mabwysiadwyd ymagwedd dim goddefgarwch tuag at ymddygiad/iaith amhriodol
- Datblygwyd canllawiau hygyrchedd ar gyfer ein cyfathrebiadau
- Rydym yn cynhyrchu e-gylchlythyrau misol ar gyfer tenantiaid i rannu diweddariadau gwasanaeth; canlyniadau/cyflawniadau; a chyfleoedd dylanwadu sydd ar y gweill
- I gynyddu ein gwelededd a galluogi tenantiaid i siarad â ni wyneb yn wyneb, rydym yn hwyluso digwyddiadau gwib cymunedol yn rheolaidd
- Darparodd ein Tîm Cynhwysiad Digidol gefnogaeth gardiau SIM a chefnogaeth 1-i-1 am ddim i denantiaid a gosodwyd Seinyddion Clyfar yn lolfeydd cymunedol cynlluniau byw'n annibynnol
- Derbyniodd y Bwrdd/staff hyfforddiant EDI/Tuedd Anymwybodol
- Bu i ni weithio gyda Marie Curie/Cymdeithas Alzheimer i ddatblygu Cynllun Gweithredu Cyfeillion Dementia a datblygu Cynllun Gweithredu Gweithredoedd Nid Geiriau/Gwrth Hiliaeth Cymru ar y cyd i ddatblygu ein hymrwymiad i gynhwysiad ymhellach

Tysteb Tai Pawb

“Darparodd Newydd dystiolaeth gynhwysfawr, gan gynnwys nifer o enghreifftiau o arfer da, sy’n arddangos eu gwaith a sut mae’n hyrwyddo cydraddoldeb i’w cydweithwyr, tenantiaid, a’r gymuned ehangach. Mae ymrwymiad clir i welliant parhaus mewn cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad o fewn y sefydliad”

Tystebau staff

“Fel person o liw, roedd yn gwneud synnwyr i mi ymuno â grŵp QED a chyfrannu at y gwaith gwych sy’n cael ei wneud ar y cyd. Rwyf bob amser wedi bod yn ddiolchgar am y gefnogaeth y mae Newydd wedi'i rhoi i mi"

“Rydym yn gwmni anhygoel o gynhwysol yr wyf yn falch o weithio iddo”

“Mae’r wybodaeth yr wyf wedi'i chael o'r grŵp QED wedi bod yn amhrisiadwy ac rwy’n hyderus y bydd y pethau rwyf wedi’u dysgu'n siapio fy llwybr proffesiynol am flynyddoedd i ddod”

“Rwy’n falch o fod yn rhan o’r grŵp QED ac rwy’n gobeithio y bydd y gwaith a wnawn yn sicrhau bod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu, eu cynnwys, eu parchu a’u gwerthfawrogi yn y gweithle a thu hwnt!”

## Canlyniadau a chyflawniadau

Eleni ymatebodd 129 o staff i'n harolwg QED blynyddol. Dangosodd y canlyniadau fod 95% yn ymwybodol o'n strategaeth EDI (+9% ers y llynedd); roedd 78% yn meddwl bod y strategaeth wedi'i chymhwyso'n dda iawn (+10%); teimlai 76% y gallent fod yn agored am eu hamgylchiadau personol yn y gwaith (+5%); a theimlai 67% fod Newydd yn gwneud mwy ar EDI na chyn ymgymryd â QED.

Tynnodd Tai Pawb sylw at ein Rhestr Wirio Hygyrchedd; yr adroddiad EDI blynyddol i'r bwrdd; y Siarter Addasiadau Rhesymol; a'r Calendr Cynwysoldeb fel arfer gorau. Gan iddynt ddwlu cymaint ar y calendr cynwysoldeb fe wnaethant ei fabwysiadu eu hunain, gan deimlo bod ein hadroddiad EDI yn flaenllaw yn y sector.

Llwyddom i ennill achrediad Cyfeillion Dementia.

Ni oedd y cyntaf yng Nghymru i gwblhau TESA (Asesiad Safonau Ymgysylltu â Thenantiaid) TPAS Cymru yn llwyddiannus a roddodd sicrwydd bod ein Strategaeth Dylanwadwyr Tenantiaid newydd yn cynnwys arferion ymgysylltu cynhwysol. Daethom yn ail hefyd yn eu gwobrau arfer gorau yn 2023 ar gyfer y categori 'Llais y Tenantiaid'.

Mae 4 o'n cynlluniau byw'n annibynnol wedi ennill Gwobr Platinwm Visibly Better RNIB Cymru. Mae'r gwaith gwelliant sylweddol yn cynyddu annibyniaeth ac yn gwneud bywyd yn haws i denantiaid sydd â nam ar y golwg.

Llwyddom i recriwtio aelod bwrdd o gefndir ethnig lleiafrifol ar ôl i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth gael ei wneud yn faen prawf hanfodol yn y fanyleb person.

# Championing EDI at United Welsh

**United Welsh**



**Datganiad o gefnogaeth**

Yn United Welsh, mae gennym daith hir o wrando, dysgu a gweithredu o'n blaenau i chwarae ein rhan yn wirioneddol wrth leihau annhegwch. Mae'r datganiad hwn yn amlinellu gwaith diweddar.

Dysgu EDI

Mae hyfforddiant EDI a thuedd anymwybodol yn orfodol i bob aelod o staff. Creodd ein Partner Busnes Dysgu a Datblygu gyfres ddysgu ar-lein hefyd ar gyfer dysgu sefydliadol parhaus am nodweddion gwarchodedig y Ddeddf Cydraddoldeb.

Rhyddhawyd naw modiwl gwirfoddol byr bob mis, 4-6 munud o hyd, i annog cyfranogiad. Er enghraifft:

- "Priodas a phartneriaethau sifil: Beth yw'r gwahaniaeth?"
- "Anableddau cudd"
- "Oedran yn y gweithle"

Ar gyfartaledd, cwblhaodd 39% o staff y modiwlau'n wirfoddol gan roi sgôr o 4.6 allan o 5 iddynt wella eu dealltwriaeth o faterion EDI.

Adrodd storïau amrywiol

Yn ystod y 18 mis diwethaf, mae ein tîm Cyfathrebu wedi rhannu dros 30 o storïau a darnau cynnwys addysgol i chwyddo lleisiau lleiafrifol a rhannu dysgu, o brofiadau personol yn ymwneud ag anabledd i ddathliadau crefyddol ar gyfer Eid al-Fitr a'r Pasg.

Dywedodd cydweithwyr fod gweld eraill yn rhannu eu storïau personol yn eu hannog i "fod yn ddewr" a rhannu rhai eu hunain.

Recriwtio a chadw

Bu i ni gyflawni achrediad Cyflog Byw Gwirioneddol yn 2020 a gwobr Efydd Cyfamod y Lluoedd Arfog yn 2022, gan gadarnhau ein hymrwymiad i gyflog teg a chefnogi personél y Lluoedd Arfog gyda dyletswyddau a chyflogaeth.

Rydym wedi adnewyddu ein gweithdrefn recriwtio, gan gyflwyno Rheol Rooney a galluogi cydweithwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant EDI i eistedd yn wirfoddol ar baneli asesu. Mae hyn yn golygu bod grŵp mwy amrywiol yn siapio asesiadau ac yn gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar werthoedd, amrywiaeth meddwl, ac arbenigedd ymgeiswyr.

Polisi a gweithdrefnau

Rydym wedi ymrwymo i adolygu'r holl bolisïau a gweithdrefnau AD trwy lens EDI. Er enghraifft, roedd ein polisi Absenoldeb Rhiant a Rennir yn flaenorol yn seiliedig ar lefelau tâl statudol, yn wahanol i'n tâl Absenoldeb Mamolaeth a Mabwysiadu, sydd ill dau yn uwch.

Yn dilyn ymgynghoriad staff, fe'i diweddarwyd fel bod gweithwyr cymwys yn derbyn cyflog llawn uwch o 18 wythnos, gan gynnwys ar gyfer benthyg croth a mabwysiadu.

Gwneud nid Dweud

Fe wnaethom lofnodi addewid Gwneud nid Dweud Tai Pawb yn 2020 i roi terfyn ar anghydraddoldeb hiliol. Mae datblygu ein gweithredoedd wedi ein helpu ar ein taith i fod yn wrth-hiliol. Mewn arolwg cynhwysiad staff diweddar, dywedodd 93% y bu gwelliant yn ein hymagwedd at daclo hiliaeth yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae ein hadroddiad cynnydd diweddaraf yma: www.orlo.uk/dnw_snj6e

Cynllun gweithredu LHDTC+ Byw'n Dda

Canfu ymchwil Stonewall fod rhai pobl hŷn yn dychwelyd "i'r closèd", yn enwedig wrth symud i lety ymddeol. Rydym yn cyflwyno cynllun gweithredu yn ein llety pobl hŷn i ddatblygu agweddau cadarnhaol ac annog ceisiadau tai LHDTC+. Hyd yma, mae hyn wedi cynnwys:

- Sgyrsiau ymwybyddiaeth mewn cynlluniau, gyda thrigolion yn adrodd yn ôl cymaint yr oeddent wedi'u mwynhau
- Arweiniad wedi'i ddiweddaru i gydweithwyr/teuluoedd ar gyfer pobl LHDTC+ sy'n byw gyda dementia
- Arddangosfeydd poster i esbonio gwahanol gymunedau LHDTC+
- Adduned cynwysoldeb a ddatblygwyd gyda'n Fforwm Trigolion sy'n cael ei harddangos ym mhob cynllun.

Balchder Cymru

Rydym yn gorymdeithio yn Balchder i ddangos ein hymrwymiad i sicrhau cydraddoldeb i'r holl bobl LHDTC+. Fe wnaethom orymdeithio yn 2022 a 2023 a gwahodd pobl a sefydliadau i ymuno â ni i

gynrychioli'r sector tai cymunedol yn well. Roeddem yn falch iawn o gael trigolion, teuluoedd, Tai Pawb, CHC a CCHA i ymuno â ni eleni.

Digwyddiadau 'Dyma Fi'

Mae digwyddiadau staff 'Dyma Fi' yn ofod diogel i siarad a dysgu am ein gilydd mewn fforwm empathetig. O bryd i'w gilydd byddwn yn gwahodd siaradwyr i wella dysgu ac mae pynciau diweddar wedi cynnwys Hanes Pobl Dduon, bod yn drawsryweddol, a chyfrifoldebau gofal personol.

Get into Housing

Wedi'i arwain gan CCHA, mae'r prosiect yn gweithio gyda phobl o gefndiroedd Lleiafrifoedd Ethnig i ddechrau gyrfa ym maes tai neu gael profiad gwaith; cynnig mentora wedi'i deilwra, profiad gwaith ymarferol, a'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

Hyd yma, mae pump o bobl wedi cwblhau lleoliadau gwaith chwe mis, gyda thri'n cael cyflogaeth barhaol gyda ni.

Peri/Menopos

Mae'r Swyddog Cymdogaeth Rebekah Drobac wedi bod yn eiriolwr angerddol dros gefnogaeth peri/menopos, gan arwain at:

- Gefnogi 35 o staff trwy sesiynau un-i-un a sesiynau grŵp
- Arweiniad ac asesiadau risg a grëwyd ar gyfer addasiadau cydweithwyr
- Adnoddau dysgu a grëwyd i hyfforddi staff
- Polisi salwch wedi'i ddiweddaru i drechu stigma sy'n gysylltiedig â symptomau.

## Canlyniadau a chyflawniadau

Amcan United Welsh yw i'r holl drigolion a staff deimlo y gallant fod nhw eu hunain yn gyfan gwbl a pherthyn i'r cymunedau y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt ac yn ymweld â hwy.

Mae gan ein Fforwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad (EDI)bob deufis, dan gadeiryddiaeth Jan Bell, bolisi drws agored ac mae dros 20 o gydweithwyr yn mynychu'n rheolaidd. Yn hollbwysig, nid yw EDI yn "eiddo" i un person.

Mae unigolion, timau a gweithgorau angerddol ar draws y busnes wedi ein galluogi ni ar y cyd i:

- Ddysgu mwy am y gwahanol agweddau ar EDI
- Rhannu storïau mwy amrywiol; gan godi ymwybyddiaeth ac addysgu
- Gwella polisïau, gweithdrefnau ac asesiadau risg
- Gwneud ein recriwtio'n fwy cynhwysol
- Targedu cymorth at gymunedau lle mae ymchwil wedi dangos eu bod yn wynebu gwahaniaethu
- Darparu cyfleoedd i gymunedau gael mynediad teg at gyflogaeth a chefnogaeth.

Mae cynhwysiad yn un o egwyddorion arweiniol Strategaeth 2023/27 United Welsh, sy'n amlinellu ein hymrwymiad i barhau â'n gwaith o hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad, gan gynnwys adrodd yn agored am ein cynnydd a sut rydym yn taclo gwahaniaethu. Rydym hefyd yn bwriadu parhau i ymwreiddio EDI yn gadarn yn ein polisïau a'n harferion, gan ddileu rhwystrau o fewn ein prosesau a'n gwasanaethau busnes.

# CEFNOGI CYMUNEDAU

Noddir gan: resource Sustainable Creativity

Mae'r wobr hon yn dathlu prosiectau, mentrau a sefydliadau sydd wedi mynd yr ail filltir a'r tu hwnt, gan weithio i gefnogi eu cymunedau yn ystod y cyfnod anodd sydd ohoni. Roedd y beirniaid yn chwilio am gydweithio a thystiolaeth o lwyddiant.

## Academi Adra

**Adra**



**Datganiad o gefnogaeth**

Adra yw'r gymdeithas tai fwyaf yng Ngogledd Cymru.

Ond mae ei waith yn fwy na brics a morter. Mae'n ymwneud â sicrhau bod eu tenantiaid a'u trigolion yn cael cyfle, i gyrchu swyddi a chyfleoedd hyfforddi ac i fyw mewn cymunedau sy'n llewyrchus ac yn ffyniannus, sef blaenoriaeth allweddol yng Nghynllun Corfforaethol Adra.

Mae gan Adra gartrefi ar draws Gogledd Cymru. Mae'n ardal gyda lefelau amddifadedd uchel mewn rhai cymunedau; mae'n anodd dod o hyd i swyddi o safon ac mae'r economi leol yn profi anawsterau oherwydd yr argyfwng Costau Byw parhaus, costau tanwydd ac ynni uchel. Mae'r her o ran creu swyddi o safon wedi'i hamlygu yn adroddiad 'Tlodi yn Arfon yn yr 21ain Ganrif', a gynhyrchwyd gan Sefydliad Bevan.

Un o brosiectau blaenllaw Adra yw Academi Adra. Wedi'i sefydlu ym mis Chwefror 2021, mae'n cefnogi tenantiaid a'r rhai sy'n byw yn ein cymunedau i ddatblygu sgiliau a fydd yn cynyddu eu cyfleoedd cyflogadwyedd. Maent nid yn unig am greu swyddi'n lleol ond hefyd cynyddu incwm eu haelwydydd, yn enwedig nawr yn ystod yr argyfwng costau byw.

Mae Academi Adra wedi gweithio gydag ystod eang o sefydliadau. Mae'r partneriaid yn cynnwys Tai Gogledd Cymru, Procure Plus, Gwaith Gwynedd, Canolfan Byd Gwaith, Fforwm Canolfannau Cyswllt Cymru, Cyngor ar Bopeth, Hyfforddiant Gogledd Cymru, Grŵp Llandrillo Menai, GISDA, DU Construction Ltd, WF Clayton & Co Ltd, Wynne Construction, North Wales Recovery Communities, Gyrfa Cymru, Môn CF, GH James Cyf a Williams Homes.

Trwy'r partneriaethau blaengar hyn, rydym wedi llwyddo i gynnig cyrsiau, profiad gwaith, lleoliadau gwaith, prentisiaethau, hyfforddeiaethau, gwirfoddoli a chyflogaeth barhaol.

Mae nifer o gyrsiau wedi'u cynnal mewn llwybrau adeiladwaith, gwasanaethau cwsmeriaid a chefnogi pobl.

Mae Academi Adra yn ymwneud â rhoi cyfle i bawb, a chwalu rhwystrau i sicrhau bod pawb yn gallu llwyddo. Yn ddiweddar cynhaliodd Adra ymgyrch i annog mwy o ferched ifanc i ymuno â'r diwydiant adeiladu a thai, lle cafodd 65 o ferched o Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes flas ar weithio ym maes adeiladwaith fel rhan o ddigwyddiad o'r enw 'Nid Jyst i Fechgyn'.

Arweiniodd Adra y digwyddiad hwn ynghyd â Chwarae Teg, elusen sy'n ysbrydoli, yn arwain ac yn gweithredu cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru. Trefnwyd y digwyddiad i gyd-fynd â Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ym mis Mawrth. Cafwyd cyflwyniadau gan staff Adra am eu gyrfaoedd a heriau a manteision gweithio yn y maes tai a'r maes adeiladwaith. Bu ymweliad hefyd â'n hyb datgarboneiddio lle cafodd y myfyrwyr gyfleoedd ymarferol i ddysgu am wahanol agweddau ar y diwydiant adeiladwaith.

Cynllun Hyfforddai Tai: Mae Adra yn rhedeg ei Chynllun Hyfforddai Tai am y drydedd flwyddyn yn olynol. Mae'r cwrs wedi bod yn llwyddiannus iawn ac yn mynd o nerth i nerth.

Mae'r Cynllun Hyfforddai Tai yn rhoi cyfle i ddau berson weithio gydag Adra am ddwy flynedd, gan gael blas ar wahanol adrannau yn y sector tai megis:

- Rhent ac incwm
- Gosodiadau
- Tai fforddiadwy
- Gwasanaeth cwsmeriaid
- Datblygu busnes
- Cymuned

Mae cyfranogwyr yn astudio tuag at Lefel 2 CIH ar yr un pryd, gan ddarparu sylfaen ragorol a dealltwriaeth sylfaenol o rai o'r sgiliau a'r wybodaeth y bydd eu hangen arnynt i weithio ym maes tai.

Mae 6 o bobl wedi cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus dros y 3 blynedd diwethaf.

Meddai Iwan Trefor Jones, Prif Weithredwr, Adra:

"Mae Academi Adra wedi mynd o nerth i nerth ac mae hynny'n cael ei adlewyrchu yn yr ystod eang o fusnesau sydd eisiau gweithio gyda ni. Rydyn ni'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl.

"Rydym am fod yn arweinydd y sector yn y maes hwn a theimlwn ein bod wedi adeiladu seiliau cadarn yn y ddwy flynedd gyntaf o weithredu Academi Adra. Ni allwn aros am barhau i greu cyfleoedd swyddi a hyfforddiant pellach yn y dyfodol".

**Canlyniadau a chyflawniadau**

Hyd yma:

- Mae 101 o unigolion wedi cael eu cefnogi trwy hyfforddiant a phrofiad gwaith.
- Mae 31 wedi cyrchu hyfforddiant.
- Cefnogwyd 31 gyda phrentisiaethau.
- Mae 12 hefyd wedi cael cymorth i weithio gydag Adra neu ei gontractwyr.
- Mae 8 wedi cael profiad gwaith cyflogedig.
- Mae Academi Adra wedi cynhyrchu gwerth cymdeithasol o £532,981

Astudiaeth achos

Declan: "Roeddwn wedi bod yn byw mewn eiddo Adra ers tua 3 blynedd felly roeddwn yn ymwybodol o'r busnes a'r cyfleoedd gwaith a oedd ar gael ganddynt. Roedd y pandemig a'r cyfnod clo wedi'i gwneud hi'n anodd i mi dderbyn y cymorth yr oeddwn ei angen gan yr ysgol a'r coleg i chwilio am waith a datblygu gyrfa yn y sector TG. Gwelais yr hysbyseb ar gyfer y brentisiaeth Technoleg Gwybodaeth (TG) a phenderfynais fynd amdani. Mae'r gwahaniaeth yn fy nealltwriaeth o TG ers i mi ddechrau'n syfrdanol - mae wedi bod yn wych dysgu cymaint am bwnc sydd o ddiddordeb mawr i mi. Rwy'n gobeithio y bydd cyfle i mi barhau i ddilyn fy angerdd dros TG a rhoi rhywbeth yn ôl i'r busnes."

# Tîm Cydlyniant Cymunedol

**Cymdeithas Tai Cadwyn**

**Datganiad o gefnogaeth**




Mae'r tîm cydnerthedd cymunedol (TCC) yn darparu gwasanaeth wedi'i deilwra i'w denantiaid; Mae Cadwyn yn Gymdeithas Tai sy'n benodol i Gaerdydd, felly mae'r TCC yn gweithredu yn y cymunedau mwyaf amrywiol o ran diwylliannau ac ethnigrwydd yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth hwn yn wasanaeth cyfannol sy'n canolbwyntio ar anghenion tenantiaid, gan ganolbwyntio ar Ddulliau Adferol (RA) ac Amgylcheddau a Gyfeirir gan Seicoleg (PIE). Rydym yn un o'r nifer fach o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) sy'n darparu lefel uchel o gefnogaeth arbenigol gan gynnwys:

- Cyngor ar Ddyledion arbenigol a reoleiddir gan FCA – Darparu cyngor manwl ac archwilio opsiynau i oresgyn dyled a gwella iechyd meddwl a lles - Y llynedd llwyddwyd i ddileu bron i £50,000.00 o Ddyledion Tenantiaid.
- Cyngor Arbenigol ar Fudd-daliadau Lles – Mwyafu incwm, apelio yn erbyn penderfyniadau budd-daliadau a chynorthwyo wrth wneud hawliadau a thrwy hynny wella iechyd a sefydlogrwydd ariannol. Mae hyn yn ei dro yn arwain at effaith ddramatig a chadarnhaol ar les corfforol a meddyliol trigolion. - Y llynedd yn unig bu gwelliant o £459,978.52 yn incwm Trigolion

- Cymorth Cyflogaeth a Hyfforddiant Wedi'i Deilwra – Cefnogi trigolion i gymryd rheolaeth a dysgu'r sgiliau sydd eu hangen i oresgyn diweithdra a thangyflogaeth; cyrchu dysgu ychwanegol a hyfforddiant ffurfiol fel NVQs mewn Gwallt a Harddwch a thrwyddedau proffesiynol fel CSCS ac SIA - cafodd 33 gyflogaeth trwy gefnogaeth y cynllun, mynychodd 37 gyrsiau/hyfforddiant. O ganlyniad uniongyrchol, amcangyfrifwyd bod cyfanswm enillion blynyddol o £437,385.16 wedi'i ddarparu i drigolion.
- Cyngor Arbenigol ar Ynni a Thanwydd – Atal datgysylltiadau a rhoi cymorth argyfwng tanwydd trwy grantiau, cyngor a chynlluniau cymorth.
- Cefnogi llwybrau gwirfoddoli ar draws Caerdydd – 14 o wirfoddolwyr
- Cynhwysiad Digidol – Cynorthwyo'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol i gyrchu gwasanaethau

Mae'r holl waith wedi'i deilwra hwn yn cyfrannu at gynyddu cynaladwyedd tenantiaid a lleihau ôl-ddyledion rhent sy'n galluogi i Cadwyn fuddsoddi mewn gwasanaethau ychwanegol a phrosiectau effaith cymunedol sydd oll yn cysylltu â'n gweledigaeth ac yn rhoi hwb i gryfder ariannol cwsmeriaid yn ystod yr argyfwng costau byw digynsail hwn. Rydym yn ymfalchïo mewn gweithio gyda thenantiaid o ddechrau eu tenantiaeth i ddarparu pob cymorth yn fewnol heb i drigolion agored i niwed orfod cael eu trosglwyddo o un adran i'r llall i adrodd eu stori, gan osgoi codi trawma eto.

Rydym yn cyrchu gwasanaeth NuLife Cadwyn trwy gynnig talebau dodrefn gwerth £250 i denant mewn angen.

Ac rydym wedi gweithio gyda CHC i ddarparu pecyn cymorth argyfwng costau byw a chyhoeddi astudiaethau achos.

Mae ein gwasanaeth yn canolbwyntio'n llwyr ar yr unigolyn ac felly mae modd ei addasu'n hawdd iawn i anghenion ein trigolion. Rydym yn darparu cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â defnyddio amrywiaeth o offer a gwasanaethau cyfieithu ar gyfer trigolion sy'n siarad unrhyw un o'r 100 a mwy o ieithoedd cymunedol yn ein portffolio, ac rydym yn addasu'r ddarpariaeth yn aml i barchu anghenion y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig er enghraifft; darparu gweithwyr cymorth benywaidd yn hytrach na rhai dynion ar gyfer ymweliadau cartref i denantiaid benywaidd sy'n ymarfer Mwslemiaeth. Rydym hefyd yn cynnig cwrdd â thenantiaid mewn lleoliadau cymunedol neu yn eu cartrefi i sicrhau eu bod yn gyfforddus wrth gwrdd ag un o'r staff wyneb yn wyneb. Waeth beth bynnag fo anghenion yr unigolyn rydym yn awyddus ac yn gallu addasu.

Tystebau

'Diolch yn fawr iawn am fod yno i ni. Gwrando ar ein problemau a'n helpu i'w datrys.'

'Rwyf mor ddiolchgar am bopeth yr ydych wedi'i wneud i'm helpu i ddatblygu fy ngyrfa.'

"Rwy'n hoffi'r ffaith os oes gennych chi'ch anghenion unigol eich hun, boed yn gorfforol neu o ran iechyd meddwl, maen nhw'n teilwra hynny o'ch cwmpas fel ei fod yn addas i chi.'

"Rwy'n ddiolchgar iawn eich bod bellach wedi clirio fy holl ddyledion ac nid oes angen i mi boeni pan fyddaf yn marw, gallaf farw'n heddychlon" -

"Rydych chi wedi arbed cymaint o arian i mi a gallaf nawr ffocysu'r arian hwn ar dalu am y pethau na allwn dalu amdanynt o'r blaen"

**Canlyniadau a chyflawniadau**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gallwn adrodd ar yr allbynnau canlynol gan y Tîm Cydlyniant Cymunedol (CRT)

- Cyfanswm a gefnogwyd: 374
- Atgyfeiriadau newydd: 358
- Cyfanswm enillion ariannol i denantiaid: £613,397.76
- Sicrhau'r incwm mwyaf posib i'n tenantiaid: £459,978.52
- Dyled wedi'i chlirio/gostwng ar gyfer ein tenantiaid: £48,958.89
- Llwyddodd 47 i ddod o hyd i waith drwy gefnogaeth y cynllun (gan gynnwys 14 o bobl nad ydynt yn denantiaid yn ein cymunedau mannau problemus)
- Mynychodd 37 gyrsiau/hyfforddiant
- Gwirfoddolodd 14
- Dros 200 o ganlyniadau meddal gan gynnwys:

1. Hyder gwell
2. Cymryd mwy o gyfrifoldeb
3. Llai o Straen/Gorbryder
4. Rheoli Arian yn Well
5. Sgiliau Cyfathrebu Gwell
6. Sgiliau Digidol Gwell
7. Iechyd Corfforol Gwell

Gostyngodd ôl-ddyledion rhent ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i 1.4% i'r lefelau cyn y pandemig

# The Restore Project

**Sefydliad arweiniol: Cymdeithas Tai Linc Cymru**

**Sefydliadau partner: Grŵp Pobl, Wastesavers, Nulife, Circulate**



### Datganiad o gefnogaeth

Mae Linc Cymru wedi croesawu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 drwy gyflwyno ymagwedd uchelgeisiol ac arloesol at ymdrin â datblygiadau newydd. Ymgorffori chwe egwyddor y siarter creu lleoedd, adeiladu cartrefi newydd mewn lleoliadau cynaliadwy, rhoi pwyslais ar gydlyniant cymunedol, creu mentrau economi gylchol, ac ymwreiddio polisi a fframwaith gwerth cymdeithasol i fanteisio i'r eithaf ar fuddion cymunedol.

Yn sgil y Pandemig Covid-19, yr argyfwng tai a chostau byw daeth Linc yn fwyfwy pryderus am yr heriau sy'n wynebu cwsmeriaid newydd wrth symud i mewn i'w cartrefi newydd. Ar ôl profi digartrefedd neu fyw mewn llety dros dro adroddodd tenantiaid newydd eu profiad o gysgu ar loriau neu mewn llety anaddas/anniogel, eu bod yn poeni am sut i fforddio dodrefnu eu cartrefi, y straen o symud a goresgyn problemau iechyd a lles sylweddol. Roedd bodloni eu blaenoriaethau ariannol yn her i lawer, ac roedd angen i Linc ddod o hyd i ateb grymusol a fyddai'n eu cynorthwyo i bontio a chynnal eu tenantiaethau newydd.

Ariannwyd y Prosiect ReStore gan Sefydliad Cymunedol Cymru ac fe'i darparwyd gan y Tîm Gwerth Cymdeithasol. Roedd yn cynnwys.

- Ymagwedd 'ystafell arddangos i garreg y drws' gyda phartneriaid,
- Profiad didrafferth a di-stigma
- System atgyfeirio syml a chyflym ar gyfer staff rheng flaen
- Trefnu danfoniadau i gartrefi a gosod y dodrefn.
- Cydweithio i fynd i'r afael â Sero Net a'r Economi Gylchol
- Lleihau anfon dodrefn da i safleoedd tirlenwi.
- Pecyn o ddodrefn ail law o safon mewn canolfannau Ail-ddefnyddio
- Arddangos fflatiau a chael ymrwymiad iddynt trwy ddull 'gweld yw credu'.
- Cymalau contract gwerth cymdeithasol gyda chontractwyr
- Tudalen Yammer 'Donate It' ar fewnrwyd y staff ar gyfer gwasanaeth Rhad-gylchu 'Angen ac Yn Eisiau.
- Cefnogaeth un i un i'r rhai â phobl y mae arnynt ei angen neu'r rhai heb arian i dalu am gludiant.

Astudiaeth achos - Yn 2022, lansiodd Linc ddatblygiad tai fforddiadwy 100%. Mae'n darparu llety dymunol a diogel o ansawdd uchel ar gyfer 12 o bobl sengl a oedd yn ddigartref yn flaenorol

Cawsant eu cefnogi ar hyd eu taith o sefydlu eu cartrefi newydd, gan gynnwys dodrefnu'r fflatiau ar gyllidebau tynn: "Roedd y Prosiect Re-Store yn ateb perffaith i ddarparu dodrefn ar gyfer ein 12 o denantiaid newydd gan y byddai'r rhan fwyaf ohonynt yn symud i'w cartref newydd heb ddim byd o gwbl, neu ychydig iawn."

Er mwyn dangos y defnydd o ddodrefn ail law, creodd Linc 'fflat arddangos' i bob person ymweld â hi cyn symud i mewn. "Cafwyd popeth o Wastesavers a'r Tip Shop. Defnyddiwyd dodrefn o ansawdd da wedi'u rhoi/ailgylchu a dodrefn meddal gan ein partneriaid i ddangos beth y gellir ei gyflawni, cafodd dim byd ei wastraffu, yna dewiswyd popeth a ddefnyddiwyd ar gyfer 'arddangos' gan ein tenantiaid ac fe'i rhoddwyd i'n tenantiaid.

Mae'r ymagwedd newydd, o roi pecynnau dodrefn safonol i alluogi tenantiaid i ddewis eitemau â llaw, gan ddefnyddio grant o £200, a gweithio mewn partneriaeth â staff tai rheng flaen, y Canolfannau Ailddefnyddio, Circulate, NuLife, Wastesavers ac Ymddiriedolaeth Raven House, wedi ildio canlyniadau rhagorol.

Mae wedi parhau i ddatblygu ac esblygu gyda mwy o bartneriaid yn ymuno, a mwy o werth am arian yn cael ei gynnig i denantiaid.

- Defnyddiodd Wastesavers ei Gronfa Gymdeithasol i drosoli cyllideb ychwanegol o £80 y tenant i gynnig mwy o eitemau i ddodrefnu cartrefi, a werthfawrogwyd yn fawr gan denantiaid.
- Darparodd Ymddiriedolaeth Raven House allfa ychwanegol yn y gymuned i denantiaid ymweld ag ef i gael pecynnau dodrefn a chymorth bwyd ychwanegol.
- Darparodd ein contractwr J&J Removals stoc ychwanegol o gliriadau tai i ganolfannau Ailddefnyddio a oedd yn orlawn, gan ddarparu gwasanaeth dosbarthu wedi'i bersonoli i denantiaid am ddim.

Darparodd NuLife nwyddau trydanol bach – tegelli a thostwyr – i denantiaid newydd a oedd yn sefydlu cartref.

### Canlyniadau a chyflawniadau

Mae'r prosiect wedi bod yn llwyddiannus oherwydd dull cydweithredol o gefnogi cwsmeriaid, trwy brosiect economi gylchol â ffocws ar y cwsmer a'r gymuned sy'n cyfrannu at y targedau Sero Net

Elwodd 50 o gwsmeriaid

Dargyfeiriwyd 5,648 tunnell o wastraff o safleoedd tirlenwi.

Tysteb

Derbyniodd cwsmeriaid ddodrefn am gost o £1069. "Mae hynny'n eithaf anhygoel a dweud y gwir. "Mae'r prosiect Re-Store wedi gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i bobl. Roedd angen un eitem o ddodrefn ar rai, roedd angen sawl eitem ar rai eraill. Nid ydym byth yn rhagnodol a bob amser yn annog pobl i ddewis yr eitemau yr hoffent eu cael, wedi'r cyfan eu cartref nhw yw e."

Abbie Prescott-Bird, Wastesavers, Rheolwr

Dyma rai o'r sylwadau adborth o'r gwerthusiad.

C: A yw'r dodrefn a dderbyniwyd wedi gwneud gwahaniaeth i ansawdd bywyd

A: "Ydy. Roedd y tenant yn cysgu ar y llawr a hithau 5 mis yn feichiog gan fod ei matres ei hun â sbringiau'n dod trwyddo a oedd yn brifo ei chefn."

B: "Ydy. Mae wedi galluogi tenant sy'n dod o sefyllfa o ddigartrefedd i helpu ei dŷ i deimlo'n fwy fel cartref."

C: Beth oedd eu profiad o'r prosiect Re-Store?

C: "Roedden nhw'n falch iawn. Yn arbennig o hapus gan nad oeddent yn gallu cael mynediad i wely dwbl trwy DAF felly dyma'r unig ffordd y gallent gael yr hyn yr oedd ei angen arnynt.

# Clyd a Chynnes Cosy and Warm

**Sefydliad arweiniol: Cymdeithas Tai Merthyr Tudful**

**Sefydliadau partner: Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Ffos y Frân. CBS Merthyr, Cymunedau am Waith, Cadwch Gymru'n Daclus**



**Datganiad o gefnogaeth**

Yn ystod haf 2022 cynhaliodd CTMT ymgynghoriad gyda thrigolion i ddeall yn well eu hofnau am y gaeaf sydd i ddod, gyda chostau ynni a bwyd ar gynnydd. Dangosodd ein hymgynghoriad fod pawb a ymatebodd yn poeni sut y byddent yn ymdopi â chostau ynni a bwyd cynyddol, a sicrhau y byddai eu rhent yn cael ei dalu. Yn seiliedig ar hyn, fe wnaethom greu ein prosiect Clyd a Chynnes (Cosy and Warm) sydd wedi dod yn ddull cyfannol o gefnogi ein deiliaid contract trwy'r argyfwng costau byw. Trwy gyllid gan Gymorth Costau Byw Cronfa Gymunedol y Loteri a Ffos y Frân, roeddem yn gallu:

- Darparu 300 o becynnau cynnes i'n tenantiaid mwyaf agored i niwed sy'n cynnwys potel dŵr poeth, blanced cnufiog, dau becyn o gawl paned, thermomotor wal a gwybodaeth am rwydweithiau cymorth lleol yn y fwrdeistref.
- Darparu talebau ychwanegu credyd ynni ar gyfer deiliaid contract sy'n cael trafferth gyda'u costau gwresogi.
- Cefnogi deiliaid contract sydd â dyledion cyfleustodau mawr i leihau'r rhain trwy gyfeirio at asiantaeth bartner, Riverside.
- Sefydlu tri grŵp Clyd a Chynnes lleol ar draws y fwrdeistref lle maent yn cael popty araf am ddim, cynhwysion wythnosol a phryd o fwyd cynnes am ddim.
- Cefnogi deiliaid contract gydag eitemau hanfodol fel nwyddau gwyn.
- Cymorth hanfodol gyda bwyd ac eitemau cartref.

Yn ogystal â mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw, mae'r prosiect hefyd wedi ymdrin â materion unigrwydd ac unigedd y mae llawer o'n deiliaid contract wedi'u hwynebu yn ystod misoedd y gaeaf. Rhoddodd y tri grŵp Clyd a Chynnes gyfle i bobl gysylltu, rhannu syniadau, adeiladu perthnasoedd a dod ynghyd ar gyfer diddordeb a rennir. Mae'r adborth a'r tystebau a gawsom o'r sesiynau wrth fynd i'r afael â'r agwedd hon yn cynnwys:

- "Mwynheais yn fawr yr agwedd gymdeithasol ar y sesiynau hyn a pharatoi prydau gyda'm cymdogion. Cawsom amser gwych bob amser."
- "Mae'n wych mynd i'r sesiynau hyn gyda fy nghymdogion a dysgu gyda'n gilydd. Rwy'n defnyddio fy mhopty araf yn rheolaidd ac erbyn hyn yn defnyddio fy mhopty yn llawer llai. Oherwydd fy mod yn defnyddio fy mhopty araf yn fwy, rwyf wedi arbed trydan. Heddiw, mae gen i gyri cig eidion yn fy mhopty araf.
- "Anogodd y prosiect coginio araf i mi fynd allan o'r tŷ. Yn ystod y gaeaf dwi fel arfer yn aros i mewn felly roedd yn braf iawn mynd allan a bod gyda

phobl eraill. Yn ogystal â bod gyda fy ffrindiau a chymdogion dysgais ryseitiau newydd a chefais fwyd am ddim trwy'r pryd y gwnaethom ei goginio a rhoi cynnig arno. Roedd yn hyfryd."

- "Roedd yn siom pan ddaeth y sesiynau i ben ar gyfer y gwanwyn a'r haf. Gwnes i gwrdd â phobl newydd yn fy nghymuned, dysgais sut i goginio mewn ffordd fforddiadwy a gwnaeth roi rhywbeth i mi ei wneud. Roeddwn i wrth fy modd."

Mae'r prosiect wedi gweithio'n gyfannol i geisio cefnogi ystod o faterion lleol a chenedlaethol fel rhan o'r prosiect. Bu i ni weithio gyda Chymunedau am Waith i gefnogi pobl i gyrchu hyfforddiant a chymorth cyflogaeth am ddim. Helpodd hyn i gynyddu hyder a sgiliau a chefnogi rhai o'r grŵp yn ôl i gyflogaeth. Bu i ni weithio mewn partneriaeth â Cadwch Gymru'n Daclus a thîm sbwriel ac ailgylchu'r awdurdod lleol hefyd. Cynhaliom sesiynau siop cyfnewid lle gallai pobl roddi a chymryd dillad, llyfrau a theganau. Yn ogystal â lleihau'r gwastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi, roedd yn golygu bod gan lawer y cyfle i gael dillad o safon ar adeg pan oedd cyllidebau personol dan bwysau.

Un dysteb sy'n crynhoi ein hymagwedd yw, "Mae'r prosiect hwn wedi bod yn llinell fywyd i mi yn ystod misoedd caled y gaeaf."

**Canlyniadau a chyflawniadau**

- Cefnogwyd 88 o deuluoedd gyda thalebau egni rhwng Hydref 2022 ac Awst 2023 gwerth cyfanswm o dros £5000.
- Mynychodd 47 o deuluoedd ein sesiynau coginio araf Clyd a Chynnes yn rheolaidd.
- Dosbarthwyd 300 o becynnau Cynnes i'n deiliaid contract mwyaf agored i niwed.
- Roedd 14 o geisiadau i'r Gronfa Cymorth Dewisol ar gyfer nwyddau gwyn a chymorth ynni gwerth cyfanswm o £5,462.
- Dosbarthwyd 87 o barseli bwyd, pethau ymolchi a hylendid brys.
- Rhoddwyd 31 o dalebau banc bwyd.
- Gwerth cymdeithasol HACT o £203,530 ar gyfer y prosiect.
- Cefnogwyd 88 o deuluoedd gyda ffyrdd mwy fforddiadwy o goginio prydau iach a maethlon yn unol â chanllawiau safonau maeth ICC.

# Fit and Fed Merthyr Tydfil

**Sefydliad arweiniol: Cymdeithas Tai Merthyr Tudful**

**Sefydliadau partner: Gemau Stryd, Gwasanaeth Ieuenctid Merthyr, 15 o safleoedd sy'n cyflwyno gyda ni**



### Datganiad o gefnogaeth

Cyn yr argyfwng costau byw, roedd teuluoedd yn ei chael hi'n anodd iawn ddod o hyd i'r arian ychwanegol yn ystod gwyliau'r ysgol i dalu am y bwyd ychwanegol yr oedd ei angen a'r incwm gwario ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi ychwanegol. Yna cawson ein bwrw gan gostau byw, gan ddwysau'r broblem hon ddeg gwaith, gyda'r holl deuluoedd yn cael trafferth gyda chostau bwyd a chostau ynni cynyddol pan fydd eu plant adref o'r ysgol. Mae'r mater hwn, a oedd unwaith yn cael ei gweld fel problem is-ddosbarth, yn effeithio ar y rhai ar incwm isel neu fudd-daliadau, bellach wedi dechrau bwrw enillwyr canol, ac am y tro cyntaf, maent wedi cael trafferth ymdopi â bwydo eu plant a darparu gweithgareddau cyfoethogi i'w plant yn ystod gwyliau'r ysgol. Yn ystod y pandemig, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddarparu talebau bwyd neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt ar ffurf arian parod, i'r teuluoedd hynny a oedd yn cael prydau ysgol am ddim, er mwyn sicrhau bod yr incwm ychwanegol yno i'w cefnogi gyda'r costau bwyd cynyddol pan oedd plant gartref. Nawr mae hyn wedi dod i ben, ac unwaith eto, mae diffyg tegwch ymhlith ein plant a'n pobl ifanc o ran y mynediad sydd ganddynt at fwyd maethlon a medru cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi gyda'u ffrindiau a'u cyfoedion.

Yn fwy nawr nag erioed, mae ein prosiect Fit and Fed Merthyr Tydfil wedi dod yn llinell fywyd estynedig i deuluoedd niferus ym Merthyr Tudful. Gyda 15 o safleoedd yn weithredol ar draws y fwrdeistref, mae 2300 o wahanol blant a phobl ifanc wedi elwa o'r prosiect. At hynny, mae'r plant a'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y prosiect wedi cael gwersi syrffio fel rhan o Ŵyl Chwaraeon Traeth, ac wedi bod ar deithiau i Ninja Warrior, Oakwood, a llawer mwy. Yn ystod cyfnodau o anawsterau dwys i fwrdeistref Merthyr Tudful, y prosiect Fit and Fed fu'r prosiect cyson

sy'n agor ei freichiau i gefnogi pawb sy'n byw yn y fwrdeistref.

"Mae Fit and Fed wedi ein cefnogi i chwarae pêl-droed, Rygbi, Rownderi, cael diwrnodau hwyl gyda chastell neidio, gwersi syrffio a chael eu cyflwyno i ffyrdd newydd a mwy iach o fwyta. Mae'r prosiect hwn wedi cael effaith enfawr ar fywydau pawb dan sylw ac wedi rhoi'r offer a'r wybodaeth iddynt am fwyta'n iach a'r buddion y maent yn eu rhoi i chi yn ogystal â buddion bod yn egnïol."

"Mae'r flwyddyn wedi bod yn anhygoel gyda phobl ifanc yn cyrchu cynifer o gyfleoedd oherwydd Fit and Fed. Gallech weld datblygiad y bobl ifanc o ran hyder, cyfathrebu a gwaith tîm. Gweithiodd y bobl ifanc yn galed i ennill cymwysterau amrywiol neu rannau o gymwysterau.


Roedd gennym garfan newydd o bobl ifanc yn mynychu'r ganolfan oherwydd yr hyn yr oeddem yn ei gynnig gyda'r rhaglen Fit and Fed. Fe wnaethom gymaint â'r ariannu, o ddiwrnodau hwylio i deithiau hwylio preswyl, teithiau i theatrau, vertigo, ninja warrior, trip i'r big sparkle, cerdded, diwrnod ar y traeth a llawer mwy. Un o'r opsiynau hyfryd i'n pobl ifanc oedd mynychu'r cwrs preswyl ar draws y fwrdeistref a oedd yn cael ei redeg gan Fit and Fed yn Nol-y-gaer. Rhoddodd y cwrs preswyl hwn hyder i bobl ifanc a datblygodd cyfeillgarwch newydd gyda phobl ifanc eraill. Tyfodd y bobl ifanc gymaint ac i rai o'r bobl ifanc hynny dyma oedd eu tro cyntaf i ffwrdd o gartref. Yn gyffredinol, mae'r prosiect wedi cael effaith aruthrol ar y bobl ifanc a'r ganolfan. Mae gan lawer o'r bobl ifanc drafferthion ariannol ac i'r bobl ifanc hynny mae cael bwyd yn rheolaidd fel rhan o Fit and Fed yn golygu bod gan y rhieni ychydig yn llai i boeni amdano."

**Canlyniadau a chyflawniadau**

- Ebrill 2022 – Mawrth 2023
- Mae dros 2300 o blant a phobl ifanc gwahanol wedi cyrchu'r prosiect.
- Rhedwyd 219 o sesiynau.
- Darparwyd 4937 o brydau maethlon
- Enillwyd 54 o achrediadau
- Gwerth cymdeithasol cyfunedig o £1,532,061 ar gyfer y prosiect.
- Am bob £1 a fuddsoddwyd mae wedi dychwelyd gwerth o £16.23

# Cost of Living Increase group (COLIn) a Trellis

**Cymdeithas Tai Sir Fynwy**




**Datganiad o gefnogaeth**

Ein Her

Ym mis Tachwedd 2021 cyfarfu staff ar draws MHA ar gyfer uwchgynhadledd arbennig. Lluniwyd y sesiwn o amgylch cyflwyniad gan Sefydliad Bevan yn seiliedig ar eu Brîff Cyflwr Cymru ar Dlodi. Rhannodd y sesiwn hon ddata o'n gwasanaethau incwm a'n cymorth a ddangosodd sut yr oedd ymchwil Sefydliad Bevan i'w weld ym mywydau ein tenantiaid a'n cymunedau.

Beth Gwnaethom Ni

Datblygwyd gweithgor a chynllun gweithredu am fod yr amgylchedd ariannol yn gwaethygu.

Ailenwyd y grŵp yn Cost of Living Increase support neu COLIn. Gan gyfarfod bob deufis, mae amcan syml gan y grŵp:

Rheoli adnoddau, prosiectau a gweithgarwch cefnogi tenantiaid yn effeithiol i reoli eu costau uwch trwy:

- Rannu syniadau, creu gweithredoedd y gellir eu cyflawni mewn gofod cydweithredol.
- Cynyddu adnoddau i helpu tenantiaid a chymunedau i gynnal eu lles ariannol.
- Meithrin partneriaethau creadigol i gynyddu effaith.
- Cymryd cyfrifoldeb unigol dros weithredoedd a fydd yn cyfrannu at ein nod.
- Lliniaru effaith y cynnydd mewn costau byw ar refeniw MHA ac ar les ein tenantiaid a'n cymunedau.

Mae oriau gwirfoddoli staff MHA yn cefnogi gweithgarwch partneriaeth gymunedol, yn ogystal â galwadau lles, creu pecynnau cymorth a chydlynu apeliadau teganau Nadolig. Hefyd, i gefnogi ein ffocws ar gynnal tenantiaethau, ceisiodd a chyflawnodd MHA achrediad HQN mewn casglu a rheoli incwm. Isod mae crynodeb o'r gweithgarwch hyd yma.

Ar gyfer cartrefi tenantiaid:

- Anfonwyd bylbiau golau arbed ynni at bob tenant.
- Cyflwynwyd fideos arbed ynni gan weithredwyr gwasanaethau adeiladu.
- Darparwyd sesiynau er mwyn i denantiaid y cynllun byw cymunedol gynllunio sut i leihau costau cymunedol: e,g. amseryddion ar oleuadau cymunedol; lleihau gosodiadau thermostat.
- Prosiect paneli solar yng nghynllun Cwrt Severn sy'n darparu ynni gwyrdd i fannau cymunedol.
- Safon ailosod aur: cartref newydd wedi'i addurno, carpedi wedi'u gosod, bleindiau wedi'u darparu.
- Pecynnau dodrefn ar gyfer tenantiaid newydd nad ydynt yn gymwys ar gyfer DAF.

Lles:

- Pecynnau gaeaf: gan gynnwys poptai araf, ffwrn ffrio, blancedi, sanau ac ati.
- Galwadau lles i gartrefi a allai fod yn agored i niwed gan dimau cefn swyddfa.
- Gwasanaethau mewn Hybiau Lles.
- Sesiynau Cynhesu'r Gaeaf mewn cynlluniau byw cymunedol.

Lleddfu a Lliniaru:

- Cynyddu Incwm HQN: Achrediad Cynnal Tenantiaethau (MIST).
- Ailstrwythuro'r gronfa caledi ar gyfer ymyrraeth gyflymach. Bellach â'r enw Trellis, mae'n cynnwys amrywiaeth o ymyriadau.
- Manteisio i'r eithaf ar dalebau tanwydd a SIMS am ddim.
- Hyrwyddo'r defnydd o DAF gyda hyfforddiant ac arweiniad i'r holl staff rheng flaen.
- Proses atgyfeirio banc bwyd awtomataidd.
- Ailstrwythuro ac ailfrandio ein cymorth cyflogaeth i ehangu'r cylch gwaith. Now Financial Wellbeing i hyrwyddo gallu ariannol, ymgyrchoedd allgymorth a chefnogi tenantiaid i mewn i waith neu swyddi gwell.
- Hyrwyddo dulliau cyllidebu hunanwasanaeth ac offer cyfrifo cynyddu incwm.
- Cost y gefnogaeth Diwrnod Gwaith.
- Ymgyrchoedd wedi'u targedu i liniaru meysydd penodol o straen ariannol.
- Pecynnau Byrbrydau Gwyliau.

Partneriaethau:

- Cyllidebu cyfranogol gyda Chyngor Sir Fynwy.
- Uwchgynadleddau ardal ar Gostau Byw.
- CLG Cyngor ar Ynni gyda Cymru Gynnes
- CLG Cyngor i bobl hŷn gyda Gofal a Thrwsio.
- Partneriaethau a llwybrau atgyfeirio gyda'r Prosiect Cyngor Anabledd, CAB, Undeb Credyd Gateway a Stepchange.
- Partneriaethau cryfion gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, y Ganolfan Byd Gwaith (gan gynnwys cynnal cymorthfeydd ar y safle) a Gwasanaeth Budd-daliadau a Rennir Cyngor Sir Fynwy.
- Partneriaeth gyda'r Working Wardrobe gan Moxie People
- Partneriaethau gyda grwpiau llesol ac eglwysi, mynediad at hamperi bwyd a chefnogaeth i gartrefi mwy ynysig.

Mwy o adnoddau:

- Lefelu i Fyny: Cynhwysiad Digidol iConnect
- Multiply: cymorth ar gyfer gallu ariannol a rhifedd.
- Defnydd wedi'i Dargedu o Fanteision Cymunedol i ddarparu cyngor.

Gweithgarwch Cymunedol:

- Hybiau Cymunedol wedi'u cefnogi gan weithgarwch wedi'i dargedu gan ein Tîm Ymgysylltu
- Clybiau bwyd, Masterchef Sir Fynwy, Masterchef Minis, clwb ar ôl ysgol 'Games & Grub'
- Future Footsteps (Saving the Pounds and the Planet One Step at Time):
    - Prosiect mislif cynaliadwy Sustainable You Sustainable Me (gyda bwndeli cynnyrch mislif am ddim),
    - Gweithdai darbodaeth
    - Sioeau ffasiwn cynaliadwy
    - Siopau dillad ail law gwib ac ymgyrchoedd iwnifform
    - Banc babanod

**Canlyniadau a chyflawniadau**

Canlyniadau ac Effaith

- Atal cynnydd sylweddol mewn ôl-ddyledion a dyledion tenantiaid. Canfu HQN berfformiad 'cryf' o ran casglu rhent a rheoli ôl-ddyledion:

'Mae'r cynnig o gyngor a chymorth yn amlwg ...Mae yna ymdeimlad bod cwsmeriaid yn cael eu clywed a'u cynnwys...Daethom o hyd i enghreifftiau o swyddogion MHA a thimau yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi cwsmeriaid.'

- Mewn 12 mis, cefnogwyd 53 o bobl i mewn i waith a chafwyd£673,411 mewn incwm ychwanegol i denantiaid
- Trosolwyd adnoddau i mewn i'w hychwanegu at ein cronfeydd ein hunain (gweler y graffig).

Adborth:

Cefnogwyd aelwyd mewn argyfwng i gyrchu: PIP, CC, Cronfa Cymorth Dŵr, Grant Iwnifform, Pecynnau Paent, Hamper Nadolig, Apêl Teganau, Talebau Ynni.

Disgrifiwyd y cymorth fel 'newid fy mywyd'.

'Danfonwyd fy mhopty a'm oergell. Mae'n hyfryd coginio yn fy nghartref fy hun a chadw pethau'n ffres yn yr oergell.'

Cyfranogwr Masterchef: 'Dwi mor ddiolchgar fy mod i nawr yn gallu cadw'r offer... Mae dal yn anhygoel i mi.'

Fred Weston - Arweinydd Lles Cygnor Sir Fynwy

Mae ymrwymiad MHA i weithio mewn partneriaeth wedi arwain at lwyddiant wrth weithredu prosiectau sydd â'r nod o ymyrryd ac atal yn gynnar. Trwy weithio'n agos gydag aelodau'r gymuned a phartneriaid allweddol eraill, rydym wedi llwyddo i nodi ac ymdrin â phroblemau cyn iddynt droi'n argyfyngau, gan wneud gwahaniaeth sylweddol ym mywydau llawer o bobl yn y pen draw.

Mae gallu MHA i oresgyn rhwystrau sefydliadol traddodiadol a ffurfio timau seiliedig ar le effeithiol yn dyst i'w hymrwymiad i werthoedd sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

# NU Life

**Cymdeithas Tai Cadwyn**



**Datganiad o gefnogaeth**

Mae NU Life mewn lleoliad gwych yn ardal Butetown, Caerdydd. Mae llawer o deuluoedd yn yr ardal hon bob dydd yn wynebu problemau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, newid yn yr hinsawdd a llai o fynediad at ddodrefn a chelfi fforddiadwy.

Felly mae NU Life yn chwarae rôl arwyddocaol yn y gymuned, gan fynd i'r afael â mater tlodi dodrefn yng Nghaerdydd a'r cyffiniau, yn ogystal â lleihau nifer yr eitemau a anfonir i safleoedd tirlenwi.

Rydym yn sefydliad nid-er-elw sy'n darparu dodrefn a chelfi i deuluoedd ac unigolion sy'n gadael hosteli, lloches, llety dros dro ac eraill yr effeithir arnynt gan ddigartrefedd heb unrhyw gost iddynt. Yn ddiweddar, rydym wedi sicrhau cyllid gan Fanc y Principality i helpu 50 o deuluoedd ac unigolion ychwanegol gyda chronfa ddewisol (mae hyn ar gyfer teuluoedd ac unigolion nad ydynt yn gymwys i dderbyn cymorth arall, gan gynnwys pobl sydd o bosib yn gweithio).

Mae gan y prosiect ystafell arddangos dodrefn y gall unrhyw un brynu dodrefn ohoni am brisiau fforddiadwy. Mae cynaladwyedd wrth wraidd gwaith NU Life ac mae'r dodrefn yn yr ystafell arddangos i gyd yn ail law. Mae llawer yn cael ei achub o safleoedd tirlenwi ac yna'n cael ei wellgylchu i roi bywyd newydd iddo. Mae gennym dîm o wirfoddolwyr sy'n mynd ati gyda chariad i adfer a gwellgylchu dodrefn a fyddai fel arall yn mynd i safleoedd tirlenwi.

Ar hyn o bryd mae gan NU Life 15 o wirfoddolwyr sydd i gyd yn byw'n lleol, ni fyddai'r prosiect yn gynaliadwy heb eu cefnogaeth. Mae gan NU Life 6 aelod o staff cyflogedig yr oedd 4 ohonynt yn wirfoddolwyr yn NU Life cyn sicrhau cyflogaeth gyda ni. O ganlyniad i'r sgiliau a enillwyd o wirfoddoli gydag NU Life, mae 8 o wirfoddolwyr hefyd wedi sicrhau cyflogaeth â thâl gan eu bod wedi cael profiad gwaith gwerthfawr gyda ni.

Mae NU Life hefyd wedi datblygu'n organig i fod yn hyb cymunedol sy'n darparu nid yn unig ddodrefn ond cyrsiau a gweithdai o fewn amgylchedd diogel a chyfarwydd a chyfleoedd i gysylltu/ailgysylltu yn sgil covid. Rydym yn cynnig ystod eang o gyrsiau a gweithgareddau fel:

- Digwyddiadau crefftau cymunedol am ddim
- Gweithdai ailbwrpasu cysgodion lamp
- Gweithdai decoupage
- Grŵp crefftau wythnosol
- Cwrs 'Live Life To The Full' a redir gan United Welsh a Chymdeithas Tai CCHA ddiwedd mis Medi

- Cyrsiau upcycling2upskill 6 wythnos sydd wedi bod yn llwyddiant aruthrol

Roedd y cwrs olaf yn benodol ar gyfer grŵp o fenywod Somalïaidd lleol. " Yr hyn sy'n gosod y cwrs hwn ar wahân yw'r gofod diwylliannol a phriodol sy'n parchu gwerthoedd a thraddodiadau crefyddol a diwylliannol y grŵp, gan alluogi'r grŵp i ddysgu sgiliau heb gyfaddawdu eu credoau crefyddol a diwylliannol." Zainab.

Mae NU Life hefyd wedi datblygu amrywiaeth o bartneriaethau i helpu'r gymuned hyd yn oed yn fwy:

- Oasis Caerdydd, sefydliad sy'n ymroddedig i helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Rydym yn rhoi pecynnau o offer cegin hanfodol iddynt ar gyfer teuluoedd ffoaduriaid sy'n symud i eiddo gwag neu sydd angen eitemau hanfodol
- Rydym yn bwynt casglu ar gyfer "Love Grace x" – sefydliad sy'n casglu llawfagiau a nwyddau ymolchi i fenywod sydd yn yr ysbyty neu mewn lloches o ganlyniad i drais domestig. 'Ni fyddai gan fenter Love Grace x bresenoldeb yn ein cymuned leol heb Nu Life. Maent yn anhygoel yn eu rhinwedd eu hunain ond yn rhan annatod o'r hyn yr ydym yn ei wneud ac yn ei gyflawni yng Nghaerdydd' Debbie Way (cynrychiolydd o Gaerdydd)
- Rydym yn rhoi cotiau ac eitemau babanod i'r grŵp Cwtch Baby, maen nhw'n ailddosbarthu eitemau babanod ail law am ddim i deuluoedd agored i niwed yn y gymuned.
- Rydyn ni'n casglu ar gyfer Tools for Self-Reliance Cymru maen nhw'n casglu ac yn atgyweirio offer ac yn eu hanfon i Affrica.
- Rydym yn gweithio gyda'r holl wasanaethau cyflogadwyedd, sefydliadau gwirfoddoli yng Nghaerdydd, y gwasanaeth prawf, gwasanaethau cymdeithasol, darpariaethau cymorth iechyd meddwl a gwasanaethau cyffuriau ac alcohol

**Canlyniadau a chyflawniadau**

Weithiau mae gwerth cymdeithasol prosiect yn anodd ei ddiffinio; fodd bynnag mae nifer y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau wedi cynyddu'n ddramatig ac yn parhau i gynyddu. Dyma grynodeb o'n canlyniadau rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023:

Cefnogwyd teuluoedd ac unigolion sy'n cael cymorth gyda dodrefn a chelfi hanfodol am ddim: 375

Eitemau a arbedwyd o safleoedd tirlenwi: 7706

Oriau gwirfoddoli: 3861

Gwirfoddolwyr sydd wedi sicrhau cyflogaeth: 6

Teuluoedd ac unigolion a gynorthwywyd gan y gronfa cymorth dewisol: 9

Teuluoedd ac unigolion a helpwyd adeg y Nadolig gydag anrhegion a bwyd: 16

Nifer y bobl a fynychodd gyrsiau gwellgylchu i ddysgu sgiliau newydd: 36

Oherwydd yr argyfwng costau byw, mae nifer y bobl sy'n chwilio am ddodrefn fforddiadwy wedi cynyddu'n ddramatig ac o ganlyniad mae ein tudalen Facebook bellach wedi cyrraedd dros 4000 o ddilynwyr.

Yn olaf, mae NU Life yn un o chwech sydd wedi cyrraedd rownd derfynol Gwobr Sefydliad y Flwyddyn UK Reuse (yr enillydd i'w gyhoeddi ar Hydref 10).

# Jubilee Crescent Community Action

**Cymoedd i'r Arfordir**



**Datganiad o gefnogaeth**

Ystâd fechan yw Jubilee Crescent a Queens Avenue, wedi'i lleoli yn Sarn, Sir Pen-y-bont ar Ogwr. Mae Tai Cymoedd i'r Arfordir yn berchen ar 143 o gartrefi ar y stad a chysylltwyd â nhw gan nifer o drigolion a fu'n anhapus gyda'r tipio anghyfreithlon, meintiau mawr o sbwriel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol amgylcheddol. Roedd y gweithredoedd hyn yn cael effaith negyddol ar les llawer o drigolion, eu canfyddiad o ddiogelwch ac ymdeimlad o falchder yn eu cymdogaeth.

Arweiniodd Tai Cymoedd i'r Arfordir weithredu cymunedol adferol i gefnogi trigolion i ddod o hyd i atebion, drwy gynhyrchu cynllun gweithredu i'r ystâd a oedd â'r nod o ysgogi ymdrech gydweithredol gan nifer o randdeiliaid.

Amlinellodd cynllun gweithredu'r ystâd - ddigwyddiadau ymgynghori cymunedol ac amserlenni yn nodi sefydliadau a phartneriaid a all gyfrannu trefnu ymyriadau ymarferol megis diwrnodau sgip gydag ymgyrchoedd addysgiadol ar fanteision ailgylchu a gwellgylchu yn ogystal â goblygiadau amgylcheddol, ymgysylltu â dosbarth Blwyddyn 5 yr Ysgol Gynradd leol ar eu canfyddiadau o sbwriel a gwastraff,

diwrnodau casglu sbwriel cydgysylltiedig a chynllun cyfathrebu clir ar gyfer yr holl drigolion a rhanddeiliaid am gyfnod o 12 mis.

Dyddiau plannu

Digwyddiadau siop cyfnewid dillad a theganau i addysgu ar wellgylchu gyda Chaffi Trwsio Cymru mewn cydweithrediad ag ymgyrch Gwanwyn Glân Cymru Cadwch Gymru'n Daclus

Dros gyfnod o chwe mis, gweithredwyd cynllun gweithredu helaeth â ffocws, yn cynnwys tenantiaid bob cam ar hyd y ffordd.

Cynigiodd y digwyddiadau amnest sgipiau gyfle i denantiaid gael gwared ar eitemau mawr diangen ac ailgylchu cymaint â phosib. Roedd Tîm Ystadau Cymoedd i'r Arfordir wrth law i helpu tenantiaid llai abl i symud eitemau. Neilltuodd Cadwch Gymru'n Daclus a chaffi Trwsio Pen-y-bont ar Ogwr amser drwy gydol y cynllun gweithredu i gynghori ac addysgu trigolion ar wellgylchu. Cyflwynwyd siopau cyfnewid teganau hefyd a fu'n galluogi trigolion i gyfnewid teganau mewn cyflwr da, y byddent fel arfer naill ai wedi cael eu tipio'n anghyfreithlon neu eu hanfon i safleoedd tirlenwi, gyda'u cymdogion.

Dangos yr effaith rydych chi wedi'i chael a'r gwahaniaeth rydych chi wedi'i wneud i fywydau pobl -

Mae effaith y mae'r fenter hon wedi'i chael ar y gymuned leol wedi bod yn anhygoel. Ers i gynllun gweithredu'r ystâd gael ei lunio a'i weithredu, mae nifer o fentrau dilynol wedi dod i'r amlwg - mae trigolion yn defnyddio'r mannau agored ar draws yr ystâd yn fwy

Mae trigolion yn teimlo'n fwy diogel ac yn fwy cysylltiedig ac mae ymdeimlad o falchder yn eu cymdogaeth yn dychwelyd. Sylwodd un tenant "Mae'n hyfryd fy mod wedi dod i nabod fy nghymdogion yn well a gweithio gyda'n gilydd i wneud i'r lle edrych yn well, rwyf wedi gwneud ffrindiau newydd ac mae llai o sbwriel ym mhobman!"

Mae trigolion wedi cymryd rhan wrth blannu coed, rhoi gwestai creaduriaid bach at ei gilydd, ac adeiladu gwelyau plannu uchel.

Dangos gwaith partneriaeth -

Cryfhawyd llwyddiant cynllun gweithredu ystâd Jiwbilî Crescent gan y gwaith partneriaeth gyda nifer o randdeiliaid allweddol yn y gymuned, sef -

Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu

Y Gwasanaeth Tân

Cadwch Gymru'n Daclus

Partneriaid Tai Cymunedol a'r Tîm Ystadau Cymunedol

Blwyddyn 5 Ysgol Gynradd Bryncethin

Caffi Trwsio Cymru

Y Cyngor Cymuned

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Canlyniadau a chyflawniadau**

Yn gyffredinol mae sbwriel ar draws yr ystâd wedi lleihau, ac mae lefelau ailgylchu a gwaredu gwastraff wedi gwella.

Casglwyd dros 4 tunnell o wastraff dros yr holl ddigwyddiadau amnest sgipiau.

Mae trigolion wedi adrodd iddynt deimlo eu bod wedi dod at ei gilydd fel cymuned a bod hyn wedi cryfhau eu hymdeimlad o berthyn

Mae trigolion yn teimlo'n fwy hyderus i ymgysylltu â'r landlord cymdeithasol ynghylch problemau casglu gwastraff ar ôl bod yn rhan o'r broses gynllunio

Mae ymgysylltu â thrigolion wedi gwella'n sylweddol ac mae gan nifer o drigolion ddiddordeb mewn bod yn llysgenhadon i'r ystâd er mwyn gweithio gyda'r landlord cymdeithasol i adolygu problemau ar y cyd a dod o hyd i atebion

Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol amgylcheddol, megis tanau ar fannau agored wedi lleihau'n sylweddol, o ganlyniad uniongyrchol i weithredu gan drigolion a'r landlord, a'r ffaith bod trigolion yn naturiol yn cadw llygad ar ardaloedd a fu'n destun ymddygiad gwrthgymdeithasol yn flaenorol.

# DATBLYGU CARTREFI O SAFON UCHEL

Mae'r wobr hon yn cydnabod cyfraniad sefydliadau sy'n ymwneud ag adeiladu cartrefi cymdeithasol a fforddiadwy newydd ar draws Cymru. Rydym eisiau clywed am gartrefi sydd ar flaen y gad o ran arloesedd y maent, trwy eu hadeiladu, nid yn unig wedi helpu diwallu anghenion o ran tai ond wrth wneud hynny wedi cyflwyno buddion lluosog i'r cymunedau lleol y maent wedi'u lleoli ynddynt hefyd.

## Cynllun Peilot Tai Arloesol Caerffili

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**



**Datganiad o gefnogaeth**

Yn 2020 cymeradwyodd Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gynlluniau uchelgeisiol i ddarparu 400 o gartrefi fforddiadwy newydd erbyn 2025. Mae arloesedd, cydnerthedd i'r hinsawdd ac effeithlonrwydd ffabrig wrth wraidd ei raglen ddatblygu. Yn haf 2021 dechreuodd ar daith gyffrous i ddod â chartrefi newydd i'r fwrdeistref sirol, gyda rhaglen Beilot Tai Arloesol yn darparu 18 o fflatiau un ystafell wely ar draws dau safle tir llwyd bach.

Mae Cyngor Caerffili wedi torri tir newydd gyda'r prosiect hwn, trwy fod yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i ddefnyddio dulliau adeiladwaith a thechnegau gweithgynhyrchu modern i ddatblygu cartrefi modiwlaidd, ffrâm ddur at safon Passivhaus ardystiedig.

Roedd gofynion y Cyngor yn uchelgeisiol ac yn eang eu cwmpas ac yn annhebygol o gael eu gwasanaethu gan lwybr caffael traddodiadol. O ganlyniad, nodwyd fframwaith sector cyhoeddus sy'n cydymffurfio â SCAPE OJEU fel llwybr a fyddai nid yn unig yn cyflwyno yn erbyn y gofynion, ond hefyd drwy drefniant Contract NEC yn dod ag arloesedd, cydweithredu, effeithlonrwydd, creadigrwydd a dychymyg i'r trafodaethau rhwng Cyngor Caerffili a Willmott Dixon. Y canlyniad oedd datrysiad tai blaengar wedi'i deilwra!

Er bod dulliau adeiladu traddodiadol wedi gwasanaethu'r diwydiant yn dda, gyda galw cynyddol, prinder sgiliau ac argyfwng hinsawdd ynghyd â'r angen am greu economi mwy bytholwyrdd a chynaliadwy i gefnogi cyfleoedd cyflogaeth hirdymor, cynigiodd Dulliau Adeiladu Modern yr ateb perffaith.

Diolch i gyllid gwerth £3.1miliwn gan Raglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru, llwyddodd y Cyngor i ddechrau gwireddu ei gynlluniau gyda phrosiect peilot ar ddau safle yn ardal basn Caerffili.

Nododd Asesiad o'r Farchnad Tai Leol a Chofrestr Tai Cyffredin Caerffili angen nas diwellir am dai cymdeithasol un ystafell wely, yn enwedig yn ardal basn Caerffili y fwrdeistref sirol. Wrth ymateb i hyn, targedodd y cyngor ei raglen gyntaf at helpu i ateb y galw cynyddol hwn.

Mae costau ynni cynyddol a phryderon hinsawdd yn uchel ar agenda'r Cyngor a nod Peilot Tai Arloesol Caerffili yw taclo'r rhain, ar yr un pryd â darparu cartrefi diogel a chadarn i'r rhai sydd fwyaf mewn angen.

Gan weithio mewn partneriaeth â'r arbenigwr adeiladu Willmott Dixon a'r gwneuthurwr dur lleol Caledan, mae Cyngor Caerffili wedi datblygu 18 o fflatiau un ystafell wely ar safleoedd yn ardaloedd Trecenydd a Thretomos yng Nghaerffili.

Trwy fabwysiadu dull ffabrig yn gyntaf mae'r cartrefi'n cynnwys lefelau uchel iawn o insiwleiddio, ffenestri gwydr triphlyg perfformiad uchel iawn gyda fframiau wedi'u hinswleiddio, ffabrig adeilad aerglos ac anhylosg a system awyru gwres mecanyddol.

Roedd hon yn rhaglen uchelgeisiol, lle'r oedd Cyngor Caerffili nid yn unig yn wynebu heriau allweddol

ond hefyd yn mynd i'r afael â nhw'n uniongyrchol, gan groesawu'n llawn y syniad o ail-ddychmygu'r ddarpariaeth cartrefi cymdeithasol yng Nghymru.

**Canlyniadau a chyflawniadau**

Gweledigaeth Caerffili oedd datblygu cynigion ar gyfer y prosiect peilot a fyddai'n gweithredu fel catalydd ar gyfer datblygu yn y dyfodol ac yn gosod y safon ar gyfer cartrefi rhent cymdeithasol a fforddiadwy newydd yn y fwrdeistref sirol.

Canlyniadau a chyflawniadau allweddol o'r Cynllun Peilot Tai Arloesol:

- Taclo newid yn yr hinsawdd a gweithio tuag at gyflwyno bwrdeistref ddi-garbon erbyn 2030.
- Mynd i'r afael â phrinder tai rhent cymdeithasol trwy ddefnyddio Dulliau Adeiladu Modern i gefnogi gweithgarwch economaidd lleol a sbarduno gweithgynhyrchu newydd yng Nghymru i gefnogi twf economi werdd genedlaethol.
- Darparu cartrefi diogel, deniadol a chadarn ar gyfer y rhai sydd fwyaf agored i niwed ac mewn angen.
- Creu cartrefi sy'n hyblyg, yn hygyrch ac yn gallu darparu ar gyfer gofynion newidiol.
- Ymdrin â thlodi tanwydd drwy ddarparu cartrefi sy'n defnyddio ynni'n effeithlon ac yn gydnerth i'r hinsawdd.
- Darparu datrysiad wedi'i deilwra ac ailgylchadwy a fyddai'n helpu Cyngor Caerffili i ddarparu cartrefi newydd ar raddfa fawr yn gyflym yn y dyfodol.
- Creu cymunedau cymysg, cydlynol a hardd.
- Cyflawni nodau ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

# Developing High Quality Homes at The Mill

**Sefydliad arweiniol: Lovell**

**Sefydliadau partner: Cartrefi Tirion, Cymdeithas Adeiladu'r Principality, Llywodraeth Cymru**



**Datganiad o gefnogaeth**

Y Felin yw rhaglen adfywio fwyaf Cymru gan ddarparu 800 o gartrefi daliadaeth gymysg ar hen safle Melin Papur Arjo Wiggins 53 erw a gaeodd dros 20 mlynedd yn ôl gan fynd â channoedd o swyddi gydag ef. Wedi'i ddatblygu gan Lovell mewn partneriaeth â Tirion Homes, Cymdeithas Tai Cadwyn, Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Adeiladu'r Principality mae'r datblygiad yn darparu cymysgedd o 442 o gartrefi fforddiadwy o ansawdd uchel a 358 o gartrefi ar werth.

Hyd yn hyn mae 693 o gartrefi o ansawdd uchel wedi'u cwblhau a'u trosglwyddo i drigolion newydd gyda 107 o gartrefi yn weddill i'w hadeiladu a'u cwblhau erbyn mis Mai 2024.

Hanes

Roedd y safle'n gartref i hen Felin Bapur Arjo Wiggins a fu'n gweithredu rhwng 1830 a 1990. Ar ôl iddo gau bu'n segur am dros 20 mlynedd. Roedd y safle wedi'i halogi'n fawr ac roedd llifogydd yn digwydd yn rheolaidd. Bu llawer o fandaliaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y safle.

Dros y blynyddoedd ceisiodd llawer o ddatblygwyr preifat ddod o hyd i ateb preswyl i ddatblygu'r safle ond yn anffodus oherwydd maint y problemau technegol a chost annormal barnwyd nad oedd y safle'n hyfyw.

Partneriaeth

Daeth Llywodraeth Cymru yn bartner allweddol wrth helpu'r prosiect uchelgeisiol i gael ei wireddu gan weithio mewn partneriaeth â Tirion, sefydliad nid-er-elw sy'n helpu i ddarparu mwy o gartrefi fforddiadwy yng Nghymru, heb grant tai cymdeithasol. Cyfrannodd cyllid ar ffurf benthyciad gan Lywodraeth Cymru ynghyd â chyllid preifat gan Gymdeithas Adeiladu'r Principality at y gwaith adfer, seilwaith ac amddiffyn rhag llifogydd yr oedd dirfawr eu hangen ar y safle cyn i unrhyw waith adeiladu gael ei wneud. Ymunodd Cadwyn â'r bartneriaeth fel y LCC oedd yn rheoli'r cartrefi fforddiadwy a dewiswyd Lovell fel datblygwr y bartneriaeth oherwydd eu profiad a'u gwybodaeth helaeth o gyflwyno datblygiadau daliadaeth gymysg fawr ar safleoedd tir llwyd heriol.

Gweledigaeth a rennir

O'r cychwyn cyntaf y weledigaeth ar gyfer Y Felin oedd darparu cartrefi ansawdd uchel, hyblyg a chynaliadwy o fewn fframwaith y cynllun meistr yr oedd ganddo 'creu lle' fel prif ysgogydd. Cartrefi'n seiliedig ar rwydwaith o ofodau croyw ac ansawdd uchel a rennir gydag isadeiledd tirlun cryf i feithrin datblygiad cymuned newydd.

Cymuned newydd

Rydym yn falch o fod wedi creu lle y gall pobl fyw a ffynnu ynddo a chreu cysylltiadau rhwng hanes cyfoethog a bywiog yr ardal, ei phresennol a'i dyfodol. Mae'r egwyddorion canlynol wedi'u cyflwyno'n unol â'r cynllun meistr gwreiddiol:

- Adfer tirwedd afon Elái
- Lleoliad y gymuned gynaliadwy newydd
- Creu 'lle' sydd wedi'i ymwreiddio yn y dirwedd
- Creu cymuned seiliedig ar rwydwaith o strydoedd sy'n ffafrio cerddwyr, beicio a chludiant cyhoeddus.
- Darparu cymysgedd o ddefnyddiau tai, masnachol a chymunedol
- Ansawdd a naws unigryw y dyluniad.

Mae ailddatblygiad Y Felin bellach yn darparu'r cysylltiad colledig hanfodol ar lwybr darluniaidd Afon Elái, gan alluogi pobl i werthfawrogi'r fioamrywiaeth gyfoethog a chynefinoedd amrywiol ar hyd yr afon o Sain Ffagan i Fae Caerdydd.

Arloesedd

Roedd y prosiect yn cynnwys treialu rhai o'r cartrefi fforddiadwy gyda thechnolegau carbon isel/di-garbon a gwelliannau eraill fel rhan o gynllun peilot i ddangos y manteision i drigolion. Roedd y cartrefi hyn hefyd yn rhan o'r prosiect ymchwil llinell wastad, sy'n arddangos ymateb yr ochr galw domestig i'r grid.

Mae gan bob un o'r cartrefi hyn bympiau baneli solar, batris, storio thermol a phympiau gwres integredig a gydlynwyd drwy'r gwaith adeiladu i gael eu hintegreiddio a'u comisiynu'n ddeallus gan Gartrefi Sero. Mae hyn yn sicrhau system ynni cartref gyfan sy'n gweithio'n gyfannol a gallu'r trigolion i ddefnyddio'r llwyfan Sero Life i sicrhau eu cysur yn ddiymdrech.

Tystebau

Rydym yn wefr i gyd â'n tŷ newydd yn Y Felin, mae o faint gwych, yn olau ac yn awyrog ac mae eisoes yn teimlo fel cartref. Roedd yn wych symud i'n cartref newydd ar yr un pryd â'n cymdogion, mae'n gwneud dod i nabod pawb gymaint yn haws ac yn adeiladu teimlad cymunedol hyfryd. Un o'r pethau a'n denodd i Y Felin oedd y diogelwch o rentu gan Gartrefi Tirion a Chadwyn, sydd mor bwysig pan fydd gennych deulu ifanc – Vanessa Oldham, Tenant Cadwyn.

## Canlyniadau a chyflawniadau

Mae cyflwyno'r datblygiad hwn wedi creu cynifer o fanteision ac wedi rhagori ar y targedau a bennwyd ar gyfer cyflogaeth leol, recriwtio wedi'i dargedu a gwerth cymdeithasol. Mae hefyd wedi cyflwyno cartrefi eithriadol o ansawdd uchel ar gyfer cymuned daliadaeth gymysg, a cheir tystiolaeth o hyn yn nifer Gwobrau'r Cyngor Adeiladu Tai Cenedlaethol (NHBC) a gyflawnwyd gan gydnabod ansawdd adeiladu eithriadol y cartrefi hyn.

Ond nid yw'r hyn yr ydym yn wirioneddol falch ac yn gyffrous yn ei gylch yn ymwneud ag adeiladau a brics a morter, ond â'r hyn y mae'r brics a'r morter hynny gyda'i gilydd yn ei greu, sef cymuned lewyrchus. A phan edrychwn yn ôl ymhen 25 mlynedd gan ragweld sut olwg fydd ar Y Felin? Cymuned hollol newydd yn ffynnu ac yn byw bywydau hapus ac iach.

Gwobrau:

- Enillydd Rhanbarthol NHBC Cymru ar gyfer Prosiect Preswyl Aml-lawr 2023
- Gwobr Ansawdd NHBC Pride in the Job 2023
- Gwobr Ansawdd NHBC Pride in the Job 2022
- Gwobr Ansawdd NHBC Pride in the Job 2021
- Gwobr Ansawdd NHBC Pride in the Job 2020
- Gwobrau Eiddo Insider – Gwobr Datblygiad y Flwyddyn 2019
- Gwobr Ansawdd NHBC Pride in the Job 2018
- NHBC – Gwobr Seal of Excellence 2018
- Gwobrau Darllenwyr First Time Buyer – Cartref Teuluol Gorau First Time Buyer 2018

# TÎM TAI Y FLWYDDYN

Noddir gan:

Mae'r wobr hon ar gyfer tîm sydd wedi gwneud cyfraniad heb ei ail i'w sefydliad ac i'r sector tai.  Mae wedi'i dylunio i gydnabod cyflawni rhywbeth arbennig, fel rhan o ddatblygu gwasanaethau newydd, ymdrin â sefyllfaoedd anodd neu gyflwyno'r gwasanaethau gorau.

## Tîm Yma i Chi a Thimau Rhenti a Chymorth Tenantiaeth

**Adra**




**Datganiad o gefnogaeth**

Mae'r enwebiad hwn ar gyfer tîm Yma i Chi Adra, sy'n cynnwys staff o'r gwasanaethau Rhenti a Chymorth Tenantiaeth am eu gwaith rhagorol yn helpu tenantiaid Adra yn ystod yr argyfwng costau byw.

Mae costau byw wedi cael effaith sylweddol ar deuluoedd y rhanbarth, yn enwedig yn ardal Arfon, gydag ymchwil gan Sefydliad Bevan - 'Tlodi yn Arfon' - yn dangos bod tâl isel a gwaith ansicr yn broblemau sylweddol yn yr ardal.

Mae pobl Arfon hefyd yn wynebu premiwm costau byw gan i aelwydydd wynebu costau tai, ynni a theithio uchel – gan roi pwysau sylweddol ar deuluoedd incwm isel.

Mae Adra wedi trefnu mentrau a gwasanaethau i gefnogi tenantiaid ac mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad Cynllun Corfforaethol Adra i helpu cymunedau ac unigolion i ffynnu.

Lansiodd ymgyrch o'r enw 'Yma i Chi' gyda chymorth yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol i denantiaid. Isod mae rhestr o weithgareddau penodol a gyflawnwyd gan y timau cymorth Rhenti a Thenantiaeth.

Creu rôl Cydlynydd Llesiant Ariannol newydd i weithio gyda thimau i gefnogi tenantiaid gyda chyngor a gwybodaeth. Fe wnaethant gynnig hyfforddiant, mynychu gweminarau, rhannu gwybodaeth, creu rhestrau gwirio ar gyfer staff, ac maent wedi gweithio gyda'r tîm cyfathrebu a phartneriaid allanol i rannu gwybodaeth a chyngor defnyddiol gyda thenantiaid.

Crëwyd Cronfa Gymorth sylweddol o £160k i helpu tenantiaid sy'n wynebu caledi ariannol.

Cynhaliwyd gweithdy gyda Sefydliad Bevan i helpu staff Adra i ddeall tlodi, ei effeithiau, ac i nodi blaenoriaethau o ran sut y gallai timau gefnogi tenantiaid i'w cynnwys yng Nghynllun Tlodi Adra ar gyfer y Flwyddyn.

Mae Adra wedi sefydlu Grŵp Argyfwng Costau Byw Gwynedd y mae ei aelodaeth yn cynnwys Adra, Cyngor Gwynedd, Grŵp Cynefin, Tai Gogledd Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cyngor ar Bopeth a'r Gwasanaeth Cyngor Ariannol a Phensiynau. Mae'r grŵp wedi gweithio ar ymgyrchoedd ar y cyd ac wedi annog gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod cymorth yn cyrraedd y rhai sydd ei angen.

Cymerodd Adra ran mewn sesiynau Costau Byw yng Ngwynedd ochr yn ochr â phartneriaid.

Gweithiodd partneriaid ar draws Gogledd Cymru gyda'i gilydd i ddarparu gofodau cynnes a diogel ar gyfer pobl a oedd yn cael trafferth ymdopi â'r cynnydd mewn costau ynni.  Chwaraeodd Adra ran weithredol yn y fenter Croeso Cynnes yr oedd ei phartneriaid yn cynnwys Cyngor Gwynedd, Menter Môn, Cyngor Sir Ynys Môn, Mantell Gwynedd, Cymdeithas Elusennol Ynys Môn, Medrwn Môn, a llawer o sefydliadau fel rhan o Fudiad 2025.

Cynhelir asesiadau fforddadwyedd gyda phob darpar denant i sicrhau y gall gynnal y denantiaeth ac i nodi meysydd ar gyfer cymorth pellach.

Gwneir ceisiadau gan swyddogion ar ran tenantiaid i gronfa Taliad Tai Dewisol £650k Cyngor Gwynedd.

Darparodd Academi Adra gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant, prentisiaethau a chymorth i denantiaid a'r gymuned ehangach i wella sgiliau a chyflogadwyedd.

Dywedodd Sion Hughes, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cwsmeriaid a Chymunedau: "Mae tenantiaid wrth wraidd yr hyn a wnawn ac mae ein timau wedi mynd yr ail filltir i roi cyngor, cefnogaeth ac arweiniad i'r rhai sydd eu hangen.

"Mae gennym hanes cryf o weithio mewn partneriaethau, yn enwedig yn ystod yr argyfwng costau byw hwn. Rydym wedi arwain drwy esiampl ac fel sefydliad wedi dangos arweiniad i gydlynu ymateb a dod â phobl o bob rhan o amryw sefydliadau o gwmpas y bwrdd".

### Canlyniadau a chyflawniadau

Mae gan Adra gytundeb gwasanaeth gyda thri hwb iechyd meddwl - gwnaed 70 o atgyfeiriadau.

122 o atgyfeiriadau newydd ar gyfer cymorth tenantiaeth a darparwyd 6,734 awr o gymorth.

Mae cytundeb gyda Chyngor ar Bopeth wedi rhoi cymorth i denantiaid drwy gyngor ariannol a budd-daliadau. 162 o atgyfeiriadau. £33,101 o ddyled wedi'i dileu. Derbyniwyd £134,783 mewn incwm ychwanegol. Cynhyrchwyd £1.96 miliwn o werth cymdeithasol.

Derbyniodd 220 o gwsmeriaid gymorth drwy wasanaeth atgyfeirio Warden Ynni, sef partneriaeth rhwng darparwyr tai, gan gynnwys cymorth i wneud cais am grantiau a gostyngiadau, cymorth i ddod o hyd i'r tariff gorau a chyngor ar effeithlonrwydd ynni.

£46k oedd cyfanswm y ceisiadau i Adra am gymorth gan y Gronfa Cymorth Dewisol.

£297,529 – cyfanswm y gwerth cymdeithasol a gynhyrchwyd drwy Academi Adra.

Stori Gareth:

Mae Gareth yn un o lawer o denantiaid sy'n defnyddio gwasanaeth cefnogi tenantiaeth Adra. Mae wedi canmol y gwasanaeth sydd wedi ei gefnogi trwy gyfnod anodd.

Dywedodd Gareth: "Ces i sioc o ddeall bod yna gefnogaeth ar gael gan nad ydych chi wir yn ei ddisgwyl ar fy oedran i. Heb y cymorth gan Adra, fyddwn i ddim yn agos at ble rydw i nawr. Mae wedi bod yn frwydr enfawr i mi ond dwi bron yno diolch i'w cymorth nhw."

"Mae'r cymorth sydd wedi'i gynnig wedi bod yn hawdd cael mynediad ato ac mae wedi bod yn wych."

# Tîm Sir Ddinbych

**Cymdeithas Tai Adullam Homes**



### Datganiad o gefnogaeth

Mae prosiect Adullam Sir Ddinbych yn cynnig tai â chymorth a chymorth fel y bo angen i tua 90 o ddinasyddion. Derbynnir atgyfeiriadau gan Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer pobl sy'n profi digartrefedd neu sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref.

Dan arweiniad Rebecca Atherton, mae gan y tîm 10 aelod arall o staff.

Mae'r trigolion a gefnogir yn byw mewn eiddo gwasgaredig, rhai yn eiddo i Adullam, a rhai i landlord cymdeithasol cofrestredig arall y mae Adullam yn ei reoli/lesio. Mae'r tîm hefyd yn rheoli/lesio eiddo y mae landlordiaid preifat yn berchen arno.

Er gwaetha'r heriau y gall y grŵp cleientiaid eu cyflwyno, mae'r tîm yn mynd yr ail filltir i'w helpu i gyflawni bywydau sefydlog, ac ennill sgiliau i'w galluogi i fyw'n annibynnol.

Mae cael cleientiaid i ymgysylltu'n hanfodol i ddarparu'r cymorth. Yn aml mae'r rhai dan sylw wedi cael trafferth cysylltu â darparwyr gwasanaeth yn y gorffennol, ac felly gall hyn fod yn dipyn o her.

Er mwyn bod yn llwyddiannus mae angen i dîm Adullam fod yn greadigol, yn arloesol ac yn wydn. Felly y maent, ac mae'r llwyddiannau a gyflawnwyd yn dystiolaeth o hynny. Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf helpodd y staff i sicrhau canlyniad/ymadawiad cadarnhaol ar gyfer 80% o'r grŵp cleientiaid y buont yn gweithio gyda nhw.

Defnyddir ystod eang o leoliadau, gweithgareddau a dulliau i annog cyfranogiad, a thrwy hynny caiff gwybodaeth hanfodol ei chyfleu, gwiriadau eu gwneud, sgiliau eu hennill a hyder ei hybu.

Mae datblygu'r ardd yn swyddfeydd Adullam yn Rhodfa Westbourne, Y Rhyl wedi chwarae rhan bwysig

wrth ymgysylltu ac mae'n parhau i wneud hynny. Pan symudodd y tîm i mewn, yn haf 2021, roedd adnewyddiad yr adeilad wedi'i gwblhau, gan ddarparu cyfleusterau rhagorol, ond roedd yr ardd yn edrych fel safle adeiladu.

Gyda mewnbwn gan y staff a chefnogaeth gan Adullam Social Enterprises, dechreuodd y gwaith trawsnewid.

Roedd y cleientiaid yn ymwneud â phob agwedd ar y gwaith. Roedd llawer yn ei chael hi'n wobrwyol gweld y tomatos, y tatws, y gwrdiau, y courgettes a'r nionod yr oeddent wedi'u plannu yn tyfu. Mae addysgu nhw sut i ofalu am y planhigion a sut i ddod yn hunangynhaliol yn sgiliau allweddol.

Mae'r ardd hefyd yn annog rhyngweithio cymdeithasol, gan gael ei ddefnyddio'n aml fel lleoliad ar gyfer cyfarfodydd.

Mae cynnyrch gardd yn ymddangos yn rheolaidd yn y sesiynau 'ready-steady-cook' a gynhelir gan y tîm. Mae cawl nionod wedi dod yn syndod o ffefryn.

Mae dangos gwerth bod yn rhan o'r gymuned i gleientiaid yn bwysig i'r tîm ac mae diddordeb mewn coginio a gynhyrchwyd gan yr ardd wedi helpu gyda hyn. Cymerodd y staff i gyd ran mewn gweithgaredd adeiladu tîm a oedd ar yr un pryd yn cefnogi prosiect arall yn yr ardal.

Mae Becws Cymunedol Use your Loaf yn Y Rhyl yn darparu sesiynau am ddim i ddysgu dinasyddion sut i bobi bara crefft. Mae sgiliau a ddysgwyd gan y tîm yma wedi cael eu rhannu gyda chleientiaid ers hynny.

Cynhelir cyfarfodydd fforwm yn yr ardd a cheir adborth gwerthfawr ynddynt. Roedd sylwadau adeiladol o'r rhai diweddaraf yn cynnwys bod angen mwy o eglurder ynghylch pwy yw pwy, nid yn unig yn Adullam, ond drwy gydol y profiad digartrefedd cyfan.

Mae eu sylwadau wedi'u cymryd i ystyriaeth ac mae gwybodaeth ychwanegol wedi'i chynnwys yn llawlyfr cleientiaid y Gymdeithas gyfan.

Trwy feithrin hyder cleientiaid, mae staff hefyd wedi annog nifer i gymryd rhan mewn fforymau a chynadleddau ehangach. Cytunodd un o ddefnyddwyr y gwasanaeth cefnogaeth fel y bo angen, Janet, i fynychu Fforwm Digartrefedd a drefnwyd gan Cymorth Cymru. Ar y diwedd, dywedodd Janet iddi deimlo ei bod wedi'i dilysu ac yn cael ei chlywed. Canlyniad gwerthfawr.

Mae staff yn chwarae rhan weithredol yn y gymuned a'r sector hefyd. Mae enghreifftiau yn cynnwys cymryd rhan yng ngharnifal Y Rhyl a Rebecca Atherton yn dod yn Gynrychiolydd Darparwr ar Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Bydd yr ardd yn chwarae rhan gymunedol ehangach fyth hefyd ar ôl i'r tîm sicrhau arian o'r pecyn Lleoedd Lleol ar gyfer Natur – Datblygu Bwyd a weithredir gan Cadwch Gymru'n Daclus. Mae planwyr coed, tŷ gwydr a phlanhigion ac offer amrywiol eraill yn cael eu cyflwyno.

### Canlyniadau a chyflawniadau

Gellir dangos tystiolaeth o lwyddiant Tîm Adullam Homes Sir Ddinbych mewn sawl ffordd wahanol.

Y nod cyffredinol yw atal digartrefedd yn Sir Ddinbych. Yn ystod blwyddyn ariannol 2022 – 2023 cefnogwyd cyfanswm o 216 o bobl gan y tîm.

O'r 75 o bobl a adawodd y gwasanaeth eleni, llwyddodd 25 o drigolion i symud i'w cyfeiriadau parhaol, annibynnol eu hunain a chyflawnodd 32 yr amcanion a nodwyd ganddynt yn eu cynlluniau cymorth.

Mae pob un o'r rhain yn nodi cyflawniadau arwyddocaol, ar gyfer yr unigolion a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt.

Yr hyn sydd hefyd yn bwysig yw nifer y bobl a gefnogir sy'n cymryd rhan mewn sesiynau a gweithgareddau a drefnir gan y tîm; popeth o 'ready-steady-tenancy' i wirfoddoli yn yr ardd. O ganlyniad i'r rhain mae sgiliau newydd yn cael eu hennill (gan gynnwys rhyngweithio cymdeithasol), ac mae unigolion yn fwy parod i ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau.

Bydd aelodau'r tîm hefyd yn cyfeirio at gynnydd mewn hyder ac ymdeimlad o les fel canlyniadau pwysig o'u gwaith. Mae gweld, er enghraifft, ymatebion cleientiaid a ddewiswyd fel "tenant y mis" neu glywed adborth cadarnhaol gan niferoedd cynyddol sy'n mynychu cynadleddau digartrefedd, yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr.

Mae tîm Adullam Sir Ddinbych yn eithriadol, gan ddangos gofal ac ymrwymiad yn gyson, o fewn y gweithle a'r tu hwnt iddo.

# Tîm Cartrefi Gwag Caerffili

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**



**Datganiad o gefnogaeth**

Mae cartrefi gwag yn y sector preifat yn broblem sylweddol ym mwrdeistref Caerffili. Mae eiddo gwag yn cynrychioli adnodd sy’n cael ei wastraffu, cost ariannol barhaus ac, mewn llawer o achosion, cyfle a gollwyd i ddarparu tai fforddiadwy y mae mawr eu hangen. Gallant hefyd fod yn bla i gymunedau a denu ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Sefydlwyd Tîm Tai Gwag Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sydd newydd ei greu i daclo mater y nifer gynyddol o eiddo gwag. Yn ystod ei 18 mis cyntaf o weithredu, ac er gwaethaf yr heriau a achoswyd gan y pandemig Covid-19, mae’r tîm wedi datblygu enw cadarnhaol yn lleol ac yn genedlaethol, wedi gwneud gwahaniaeth parhaus mewn cymunedau lleol ac wedi helpu i ddarparu cartrefi y mae mawr eu hangen.

Ers ei sefydlu, mae'r tîm wedi datblygu a gweithredu ystod eang o ddulliau i fynd i'r afael â thai gwag, gan ffurfio sail ei Strategaeth a Chynllun Gweithredu Tai Gwag.

Mae'r tîm yn greadigol yn ei ddull gweithredu, ar ôl lansio gwefan a phecyn cyngor pwrpasol 'Caerffili - Yn Dda i Ddim yn Wag' i ddarparu adnoddau i berchnogion eiddo gwag.

Maent wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth ac yn ddygn yn eu hymagwedd at ymgysylltu a chefnogi perchnogion tai i ddod â'u heiddo yn ôl i ddefnydd. Arwyddair y tîm yw 'nid yw gwneud dim yn opsiwn' sy'n golygu bod yn rhaid iddynt hefyd weithiau wneud penderfyniadau anodd a chymryd camau gorfodi pan fydd popeth arall yn methu.

Yn ogystal â sicrhau canlyniadau mesuradwy, gyda'r flwyddyn ddiwethaf yn gweld y nifer uchaf erioed o gartrefi gwag yn dod yn ôl i ddefnydd ym mwrdeistref Caerffili, mae ymdrechion y tîm hefyd wedi helpu i drawsnewid bywydau. Gan gynnwys dod o hyd i eiddo addas i gartrefu'r rhai sy'n ffoi rhag gwrthdaro yn yr Wcrain a chael cartrefi i'r rhai a fyddai fel arall wedi dod yn ddigartref.

Yn aml gall gwaith eiddo gwag fod yn eithaf disylw ac weithiau mae'n cymryd amser hir i weld y manteision. Mae amynedd a pharodrwydd y tîm i ddelio ag achosion mwy cymhleth eisoes yn cael effaith fawr, e.e. gweithredu polisi gwerthu gorfodol cyntaf y Cyngor.

Astudiaeth achos

Yr eiddo cyntaf y gwnaeth y tîm orfodi ei werthu oedd tŷ yng Nghaerffili a oedd wedi bod yn wag ers o leiaf Chwefror 2015.

Roedd yr eiddo wedi’i adael i ddirywio ac ni nodwyd bod unrhyw un yn atebol i ofalu am yr eiddo yn dilyn marwolaeth y deiliad yn 2012. Awgrymodd cyfranogiad y Gwasanaethau Cymdeithasol pan oedd y deiliad yn fyw y bu 3 brawd neu chwaer a oedd i gyd wedi marw yn berchen ar yr eiddo. Er gwaethaf treulio cryn dipyn o amser ac ymdrech, methodd yr awdurdod â nodi unrhyw berthynas agosaf a oedd yn fodlon derbyn profeb yr eiddo. Nid oedd yr eiddo wedi'i gofrestru a, heb berson atebol, roedd wedi'i eithrio o refeniw treth y cyngor.

Bu'r eiddo'n wag am dros 7 mlynedd, gan ddirywio ac achosi annifyrrwch i eiddo cyfagos. Dechreuodd yr eiddo edrych yn ddi-gariad ac yn hyll, dechreuodd hefyd ddenu plâu ac yn aml roedd yn destun cwynion gan gymdogion a'r gymuned ehangach. Heb ymyrraeth gan yr awdurdod, byddai'r eiddo hwn wedi aros yn wag ac wedi'i adael i ddirywio ymhellach.

Ymchwiliodd y tîm i berchnogaeth yr eiddo eto er mwyn cyflwyno rhybuddion cyfreithiol ar yr ardd oedd wedi gordyfu ac yn llawn gwastraff. Fe wnaethant roi cynnig ar nifer o ffyrdd, gan gynnwys hysbysebu â thâl, i nodi rhywun â diddordeb yn yr eiddo, i gyd yn ofer.

Roedd yn bleser mawr i drigolion lleol fod yr awdurdod wedi gwneud gwaith yn sgil diffyg hysbysiad i glirio'r ardd. Bu i hyn gronni dyled i'r awdurdod, gan agor y drws i'r tîm orfodi'r gwerthiant er mwyn adennill yr arian. Cwblhawyd y gwerthiant ym mis Gorffennaf a ymgymerodd perchennog newydd â'r eiddo.

**Canlyniadau a chyflawniadau**

- Llwyddodd y tîm i ddod â 104 o eiddo gwag yn ôl i ddefnydd y llynedd; y ffigwr blynyddol uchaf hyd yma ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.
- Cwblhawyd 2 werthiant gorfodol cyntaf y Cyngor yn llwyddiannus.
- Lansiwyd a hyrwyddwyd y Grant Eiddo Gwag Cenedlaethol yn lleol.
- Nodwyd ymagwedd y tîm fel arfer gorau gan Lywodraeth Cymru.
- Lleihawyd ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Helpwyd i ddiwallu anghenion tai lleol.

Ni ddylid ychwaith diystyru budd ariannol gwaith y tîm i'r awdurdod. Er enghraifft, yn astudiaeth achos 1 ad-dalwyd dyled o fwy na £55,000 i'r Gwasanaethau Cymdeithasol o ganlyniad i werthu, yn ogystal â'r holl gostau sy'n gysylltiedig â chlirio'r ardd a gorfodi gwerthu'r eiddo.

Bydd refeniw treth cyngor o £1,504.92 y flwyddyn hefyd yn daladwy i'r awdurdod nawr bod rhywun yn atebol. Dyma swm sylweddol o refeniw a gollwyd dros yr 8 mlynedd y mae wedi bod yn wag. At hynny, mae budd economaidd cymdeithasol yr eiddo o gael ei feddiannu gan ddeiliaid sy'n debygol o fod yn gweithio yn yr ardal leol ac yn siopa mewn siopau lleol yn fanteision economaidd anfesuradwy o ddod â'r eiddo gwag hwn yn ôl i ddefnydd.

# Tîm Datblygu sy'n Canolbwyntio ar Werth Cymdeithasol

**Cymdeithas Tai Linc Cymru**



**Datganiad o gefnogaeth**

Ers mis Ionawr 2022, mae tîm datblygu Linc wedi rhoi croeso gwirioneddol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 drwy gyflwyno ymagwedd uchelgeisiol ac arloesol at gyflwyno datblygiadau newydd. Ymgorffori chwe egwyddor y siarter creu lleoedd, adeiladu cartrefi newydd mewn lleoliadau cynaliadwy, rhoi pwyslais ar gydlyniant cymunedol, creu mentrau economi gylchol, ac ymwreiddio polisi a fframwaith gwerth cymdeithasol i fanteisio i'r eithaf ar fuddion cymunedol, sydd oll yn rhan annatod o'r ymagwedd hon.

Mae Siân Diaz, Cyfarwyddwr Datblygu yn arwain tîm sy'n cynnwys: Cyn-Gontract (Tir a Chynllunio), Ôl-Gontract (Contractau ac Adeiladu) a Gwerth Cymdeithasol. Cyn 2022, roedd y tîm Gwerth Cymdeithasol yn rhan o'r adran Tai a Chymunedau, ond tua diwedd 2021 cafodd y tîm eu hadleoli i'r tîm Datblygu, oherwydd yr ystyriwyd bod angen adolygu ein strategaeth i sicrhau'r enillion cymdeithasol mwyaf posib ar bob buddsoddiad, adeiladu cymunedau cynaliadwy, manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i greu'r amgylchedd cywir i bobl ffynnu a chyfrannu at y rhaglen dwf drwy fuddion cymunedol.

Trwy'r ymagwedd newydd hon a thrwy gydweithio â chydweithwyr Linc a phartneriaid allanol mae'r tîm wedi gwireddu eu gweledigaeth o gyflawni gwerth cymdeithasol a gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol tenantiaid, trigolion, a'r cymunedau yr ydym yn gweithio ynddynt. Mae ymgysylltu pwrpasol â chymunedau lleol mewn cam cynnar cyn y cam caffael neu gysyniad a chyn yr Ymgynghoriad Cyn-Ymgeisio wedi ein galluogi i ddod i adnabod ein cymunedau'n wirioneddol o dda, creu cysylltiadau cryfion â thrigolion lleol, grwpiau cymunedol, sefydliadau trydydd sector a busnesau lleol.

Rydym yn defnyddio gweithgarwch datblygu fel catalydd i fwyafu'r effaith gadarnhaol ar gymunedau ac isafu'r negyddol ac i greu cyfleoedd i bobl leol, busnesau lleol, yr amgylchedd, a threftadaeth, gan fabwysiadu ymagwedd ragweithiol o gam cynnar iawn. Tra'n bodloni 7 Nod Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Fel 'edefyn aur' ym mhopeth a wnawn a thrwy weithio i gyflwyno'r nodau hyn, rydym wedi llwyddo i gysylltu'r gwahanol rannau o'r broses ddatblygu'n effeithiol a sicrhau bod hyn yn gweithio gyda chanlyniadau ehangach cyflwyno cartrefi newydd er mwyn darparu effeithiau cadarnhaol yn ein cymunedau.

Mae ein hymagwedd yn cynnwys:

1. Ymgysylltu ac adborth cynnar cyn ac ar ôl y contract
2. Cymryd rhan yn fanwl yn y broses ddatblygu ac ymwreiddio gwerth cymdeithasol yn ein holl gontractau
3. Manteisio ar gyfleoedd i gyflawni prosiectau economi gylchol: e.e.: ailddefnyddio deunyddiau o adeiladau presennol ar gyfer gwaith adeiladau newydd a'u defnyddio ar gyfer grwpiau/mentrau cymunedol

4. Rheoli prosiectau buddion cymunedol/recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu
5. Creu a rheoli partneriaethau hirdymor cynaliadwy gyda rhanddeiliaid allweddol i gyflwyno prosiectau mewn cymunedau.
6. Creu, datblygu a rheoli mentrau lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol i denantiaid a thrigolion newydd a phresennol eu cyrchu

Rydym yn darparu cartrefi newydd ar gyfer y canlyniadau 'cywir' sy'n adlewyrchu ein diben fel darparwr tai fforddiadwy. Rydym yn creu cyfleoedd ar gyfer y cymunedau rydym yn gweithio ynddynt ac ar yr un pryd yn darparu cartrefi newydd ar gyfer y bobl y mae arnynt eu hangen fwyaf. Rydym yn darparu cynlluniau o ansawdd uchel sy'n ddall i ddaliadaeth, gan ddefnyddio MMC (Dulliau Adeiladu Modern) a gweithgynhyrchu oddi ar y safle i gyflymu'r broses gyflenwi a lleihau effeithiau cymunedol ac amgylcheddol negyddol. Rydym wedi cynyddu'r defnydd o dechnoleg werdd i leihau costau ynni ac yn cyflawni'r safonau uchaf o ran effeithlonrwydd ynni yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Rydym yn darparu mannau gwyrdd i wella iechyd a lles a mwyafu cyfleoedd ar gyfer bioamrywiaeth.

Fel mabwysiadwyr Siarter Creu Lleoedd Cymru, rydym yn dylunio cartrefi sy'n creu cyfleoedd ac yn sicrhau bod ein cynllun yn 'ffitio'r' cyd-destun presennol a'r cymunedau presennol, gan alluogi'r ymdeimlad hwnnw o le. Mae ein hymagwedd yn cysylltu'r gymuned bresennol â'r trigolion newydd, gan ddarparu cyfleoedd i adeiladu cysylltiadau a chydlyniant cymunedol cadarn.

### Canlyniadau a chyflawniadau

Yng Nghastell-nedd Port Talbot mae ein hymagwedd tîm at werth cymdeithasol wedi grymuso'r gymuned i ddysgu am y broses gynllunio ac wedi rhoi llwyfan i rannu gwybodaeth leol gyda ni, lleisio pryderon, gofyn cwestiynau, a gwneud awgrymiadau. Ar un cynllun, mae hyn wedi arwain at adleoli ffordd fynediad, gwella llwybrau cyhoeddus, cael gwared ar goed heintiedig, gwella diogelwch y safle. Rydym yn parchu'r adborth gan y gymuned (graddfa, màs, strydlun, a mannau gwyrdd hygyrch) ac wedi datblygu prosiect treftadaeth gymunedol, celfyddydau ac economi gylchol sy'n ailddefnyddio deunyddiau o'r adeilad presennol ac yn creu cyfleoedd cyflogaeth, gwirfoddoli, hyfforddiant a phrentisiaeth.

Gan ddefnyddio ein hymagwedd gwerth cymdeithasol a chynnwys cymalau gwerth cymdeithasol yn ein contractau ers mis Ionawr 2022, rydym wedi:

- Sicrhau £121,229.73 trwy gymalau gwerth cymdeithasol, i gefnogi ein cymunedau a'n tenantiaid
- Ariannu 31 o grwpiau cymunedol yn uniongyrchol gan greu buddion ar gyfer dros 3100 o bobl mewn 11 o ardaloedd awdurdod lleol gwahanol yng Nghymru
- Plannu 200 o goed
- Buddsoddi £10,439,236.08 yn Economi Cymru
- Cyfrannu £3,327,139 at BBaChau yng Nghymru
- Creu 22 o gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant
- Cyflwyno 171 wythnos o hyfforddiant
- Dargyfeirio 1218 tunnell o wastraff o safleoedd tirlenwi
- Noddi £6,632.50 o weithgareddau chwaraeon
- Noddi £18,572.69 o weithgareddau addysg gymunedol
- Noddi £3,800 o weithgareddau diwylliannol
- Cynnal 13 o brentisiaethau/hyfforddeiaethau/treialon gwaith a phrofiadau gwaith

# Gwasanaethau Cymdogaeth

**Cymdeithas Tai Sir Fynwy**




**Datganiad o gefnogaeth**

Tîm tai y flwyddyn - Blaenoriaethu Atal

Mae Tîm Gwasanaethau Cymdogaeth Cymdeithas Tai Sir Fynwy (MHA) yn cynnwys pedwar tîm sy'n cyflwyno pob elfen o Reoli Tenantiaethau: Incwm, Cymdogaethau a Diogelwch Cymunedol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae hyn hefyd wedi ehangu i gynnwys Prydlesi a Thaliadau Gwasanaeth a Thîm Glanhau sydd newydd ei sefydlu gan MHA. Mae'r tîm hwn yn rheoli 3760 eiddo.

Dros y blynyddoedd, mae Rheoli Tai a chymhlethdod y gwaith hwn wedi bod yn ymatebol yn bennaf gyda gwaith yn cael ei gynhyrchu gan drafodion, wedi'u hysgogi gan geisiadau tenantiaid neu waith sy'n ofynnol gan dimau eraill. Mae hyn oherwydd bod llawer o'r tasgau'n seiliedig ar gydymffurfiaeth gan amrywio o weithredu amserlenni rheoli tenantiaethau yn unol â Deddf Rhentu Cartrefi Cymru, cydymffurfio â Rheoliadau Tân a rheoli ardaloedd cymunedol, mynediad i gartrefi i sicrhau bod profion nwy a thrydanol yn cael eu cwblhau ar amser a chasglu rhent yn amserol.

Gosododd y Tîm Gwasanaethau Cymdogaeth amcan i greu fframwaith o wasanaethau i alluogi dull rhagweithiol a lle bo'n bosib ataliol o ddarparu gwasanaethau i sicrhau ein bod yn cyflawni gweledigaeth MHA.

Cyfraniad Eithriadol:

Nid yw cofnodi hanfod rheoli tenantiaeth a chyfleu'r gwaith bob dydd sydd â'r potensial i newid bywydau yn hawdd i'w gyflawni ond mae'r allbynnau a gyflwynir gan dîm Gwasanaethau Cymdogaeth MHA yn siarad drostynt eu hunain (gweler y canlyniadau ar ffurf lluniau yn yr e-bost)

Yng nghyd-destun newid sylweddol ym maes tai, mae tîm Gwasanaethau Cymdogaeth MHA wedi cyflwyno maint eithriadol sy'n seiliedig ar ddiwylliant o ofal a chydweithio, gan sicrhau ein bod yn gwneud y penderfyniadau cywir ar gyfer tenantiaid.

Cydweithio:

Mae creu "patch-ups" sy'n digwydd bob dwy - tair wythnos yn golygu ymagwedd gydweithredol gyda'r tenant yn y canol at wneud penderfyniadau. Mae'r rhain yn cynnwys swyddogion incwm, swyddogion cymdogaeth, diogelwch cymunedol, anogwyr tenantiaeth a swyddogion cynnal a chadw. Enghreifftiau o ble mae'r sgyrsiau hyn wedi bod yn hollbwysig yw trosglwyddiadau lle mae tenant yn ceisio symud i gartref llai am resymau fforddadwyedd ond lle y maent efallai'n destun pryder o ran cyflwr yr eiddo. Mae'r timau hyn yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniad gorau i'r tenant, yr eiddo ac adennill rhent a thaliadau eraill yn ogystal â rhoi mesurau diogelu ar waith ar gyfer ymgartrefu mewn eiddo newydd.

Darparu'r gwasanaethau gorau:

Mae tîm Cymdogaethau MHA wedi cofleidio a ymwreiddio Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Mae adolygiad o achosion rheoli tai'n dangos cydymffurfiaeth 100% ag amserlenni a chyflwyno.

Dangosodd arolwg STAR MHA 2021 foddhad gwael ymysg tenantiaid o ran glanhau anghenion cyffredinol. Mae'r penderfyniad i greu tîm glanhau mewnol wedi troi hyn o gwmpas am nad oes unrhyw gwynion bellach, ceir canmoliaeth bob dydd a gallwn lanhau'n drylwyr trwy ein tîm newydd. Mae'r dull newydd hwn yn rhoi gwell gwerth am arian i'r sefydliad ac i denantiaid fel rhan o'u tâl gwasanaeth.

Mae'r Tîm Incwm yn ymarfer casglu'n dosturiol ac o ganlyniad nid oes unrhyw un nad yw'n ymgysylltu. Daeth y tîm â'r flwyddyn ariannol i ben gydag ôl-ddyledion o 2.2% gan roi'r sefydliad mewn sefyllfa cryf iawn o ran incwm. O ganlyniad i hyn, ynghyd â'u harfer o weithio mewn ffordd a gyfeirir gan drawma a phartneriaethau mewnol ac allanol cryfion, gwnaethant dderbyn yr achrediad HQN cyntaf ar gyfer mwyafu incwm a chynnal tenantiaethau yng Nghymru.

Y tu hwnt i'r gwaith bob dydd defnyddiodd y Tîm Cymdogaeth eu diwrnod adeiladu tîm i greu gardd fwytadwy anhygoel ar gyfer yr ysgol uwchradd leol er mwyn lliniaru tlodi bwyd a chefnogi teuluoedd i gael mynediad at fwyd ffres.

## Canlyniadau a chyflawniadau

Canlyniadau – stori o wahaniaeth:

Cartref Newydd i H

Yn aml, mae rôl swyddog rheng flaen yn golygu ymgysylltu â rhai tenantiaid yn rheolaidd iawn am eu bod mewn argyfwng neu'n methu ag ymdopi yn eu cartref. Gall hyn ddod i'r amlwg mewn llawer o ffyrdd, o anallu neu ddiffyg cymhelliant i reoli eu cartref, mynd yn raddol i ôl-ddyledion, niwsans i gymdogion neu effaith ar les.

Roedd hyn yn wir am un tenant "H" a oedd wedi byw yn ei fflat ers saith mlynedd ar hugain. Yn fwy diweddar, roedd eu hiechyd a'u symudedd yn dechrau dirywio, ac roeddent mewn cysylltiad â MHA bob dydd yn methu â rheoli cysylltiadau â chymdogion, ymdopi â newidiadau o fewn y bloc a dod yn rhan o anghydfodau cilyddol yn y bloc. Roedd H wedi cysylltu â'u swyddog 151 o weithiau mewn cyfnod byr a oedd yn hynod o ddwys o ran adnoddau. Fe wnaeth cynhadledd achos amserol a myfyrdod ar ein harferion a gyfeirir gan drawma ein hysgogi i ystyried yr hyn y gallem ei wneud yn y sefyllfa hon. Cytunwyd y byddai MHA yn cefnogi symud y tenant mewn ffordd reoledig, penderfyniad nad yw'n fater dibwys.


Cafodd H gefnogaeth ddwys gan Swyddogion i hwyluso symud i rywle a fyddai'n eu galluogi i fod yn agosach at eu teulu ac a fyddai'n cefnogi anghenion mynediad a llesiant.

Flwyddyn yn ddiweddarach ac mae effaith y penderfyniad hwnnw a amserwyd yn dda yn glir, nid ydym wedi clywed gan H nes iddynt anfon yr e-bost hwn flwyddyn ar ôl iddynt symud.

"Rwyf wrth fy modd yma...mae wedi newid fy mywyd yn llwyr. Rwy'n gweld fy nheulu yn fwy fy wyrion ac wyresau yn fwy, rwyf yn yr ardd drwy'r amser. Mae'r cymdogion i gyd mor neis hefyd. Allwn i ddim gofyn am fwy. Bu farw fy mam yn fuan ar ôl i mi symud a dydw i ddim yn meddwl y byddwn wedi delio ag ef cystal ag y gwnes i heb y lle hwn. Mae fy wyrion a wyresau wrth eu bodd yn ymweld â mi nawr, rhywbeth nad oedden nhw'n ei wneud o'r blaen. Dydw i ddim hyd yn oed yn gor-ddweud pan ddywedaf fod fy ansawdd bywyd cyfan wedi newid, hyd yn oed yn yr amseroedd anoddaf rwy'n wirioneddol ddiolchgar."

# Datblygiad Hill Street, Casnewydd

**Cymdeithas Tai Linc Cymru**



**Datganiad o gefnogaeth**

Mae Linc Cymru, LCC cofrestredig gyda dros 5000 o gartrefi, yn ddarparwr tai cymdeithasol a gofal sy'n canolbwyntio ar gydweithio â thenantiaid, trigolion a rhanddeiliaid i greu amgylcheddau lle gall pobl ffynnu. Gydag uchelgeisiau i ddarparu dros 1,700 o gartrefi newydd erbyn 2027, maent yn chwarae rhan weithredol wrth roi diwedd ar ddigartrefedd ac ymdrin ag anghenion tai tra hefyd yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac annhegwch trwy bartneriaethau seiliedig ar le. Mae Linc wedi ymrwymo i leihau effeithiau amgylcheddol negyddol, gwella safonau cynaladwyedd, a mwyafu cyfleoedd trwy eu polisi a fframwaith gwerth cymdeithasol.

Yng Nghasnewydd, mae dros 9,000 o aelwydydd ar y gofrestr tai. Mae dros 369 o aelwydydd yn byw mewn Llety Dros Dro.

Er mwyn hybu'r cyflenwad tai fforddiadwy, gan weithio gyda Chyngor Casnewydd ystyriodd Linc nifer o safleoedd ar gyfer darparu cartrefi newydd, gyda chymorth cyllido gan Lywodraeth Cymru ac er bod safle Hill Street mewn Ardal Gadwraeth â thopograffeg heriol, roedd y maes parcio hwn nad oedd yn cael ei ddefnyddio llawer yn safle trefol delfrydol i ddarparu cartrefi ynni effeithlon o ansawdd uchel yn gyflym i gartrefu pobl a oedd wedi profi digartrefedd. Un o symbylyddion Linc oedd lleihau unrhyw effeithiau negyddol ar y gymuned gyfagos a mwyafu canlyniadau cadarnhaol.

Bu i Linc weithio gyda chontractwr arbenigol cartrefi modiwlaidd ZED PODS i ddylunio ac adeiladu 12 o gartrefi hunangynhwysol, ynni isel a charbon isel gan ddefnyddio methodoleg adeiladu oddi ar y safle. Mae'r strategaeth gyfunol o ffabrig adeiladwaith gwell, mesurau effeithlonrwydd ynni llwyfan integredig, a thechnolegau carbon isel ac adnewyddadwy yn ildio buddion ar ffurf biliau ynni isel ar gyfer trigolion.

Bu i'r cynllun fodloni Blaenoriaeth 1 y Strategaeth Digartrefedd a chyflwyno canlyniadau Rhaglen Datgarboneiddio Llywodraeth Cymru.

Mae pontio o lety digartref dros dro i gartref parhaol yn heriol, gan nad oes gan lawer o bobl fawr ddim eiddo i wneud cartref, os o gwbl.

- Fe wnaethom ddefnyddio dodrefn o ansawdd da a roddwyd/ailgylchwyd a dodrefn meddal gan ein partneriaid, yna cafodd popeth a ddefnyddiwyd mewn fflat arddangos ei ddewis gan ein tenantiaid a'i roi iddynt.

- Trefnwyd i'n tenantiaid newydd brofi 'apwyntiad gwylio' o'r hyn a fyddai'n fuan yn dod yn gartref parhaol newydd iddynt yn ogystal â thaith o amgylch y 'Fflat Arddangos'.
- Roedd gennym ddewis helaeth o becynnau cegin wedi'u hailgylchu (gan gynnwys llestri, cyllyll a ffyrc, potiau a sosbenni, mygiau, gwydrau, a dillad gwely wedi'u golchi) a dewisodd tenantiaid beth bynnag oedd arnynt ei angen a/neu yr hoffent ei gymryd. Rhoddwyd eitemau dros ben i'r elusen ddigartref, The Wallich.
- Gwnaeth Raven House Trust roddion o barseli bwyd i bob tenant pan symudodd i mewn
- Gwahoddwyd tenantiaid i ginio croesawu i gwrdd â'r contractwr, tîm Linc a phartneriaid gwirfoddoli lleol. Fe'u gwahoddwyd i rannu eu barn a'u hawgrymiadau ar
    - o Y profiad o symud i mewn
    - o Technoleg Newydd
    - o Mynediad i fannau gwyrdd
    - o Diogelwch a chadernid
    - o Mynediad i Wasanaethau Lleol
- Cefnogwyd un tenant i mewn i hyfforddiant a chyflogaeth. Derbyniodd liniadur a roddwyd ac a ailgyfluniwyd i'w gadw ac i'w gynorthwyo i chwilio am swydd.
- Cefnogwyd un tenant i wirfoddoli yn ein sefydliad partner.

Mae Our ReStore Project (a ariennir gan Sefydliad Cymunedol Cymru), ein cronfeydd budd cymunedol a gweithio mewn cydweithrediad â sefydliadau partner, ein contractwyr a'n cadwyn gyflenwi wedi gwneud hyn oll yn bosib.

Mae'r prosiect hwn wedi ysbrydoli eraill i ailystyried y defnydd o safleoedd sydd heb gael eu defnyddio llawer i ddarparu cartrefi cynaliadwy arloesol ac ar yr un pryd ymdrin â'r argyfwng tai "fforddiadwy".

"Mae yna ysbryd cymunedol go iawn yma, mae'n braf. Pan gerddais i mewn am y tro cyntaf ym mis Medi roedd i'w weld yn drech na fi, i fynd o'r hyn yr oeddwn yn byw ynddo i hyn. Dwi mor hapus yma. Doedd rhentu preifat ddim yn bosib i mi gan nad oes unrhyw ffordd y gallwn i fod wedi'i fforddio. Roedd naill ai talu fy rhent neu fwyta a pheidio â thalu'r rhent."

Sam Lewis, Un o Drigolion Hill Street House

**Canlyniadau a chyflawniadau**

1. Y cynllun MMC cyntaf erioed yn y DU wedi'i adeiladu ar faes parcio nas defnyddiwyd llawer mewn Ardal Gadwraeth.
2. Mwy o wyrddni, toeau gwyrdd, trelis, gardd dŵr glaw a phalmentydd athraidd fel rhan o Strategaeth Draenio Cynaliadwy.
3. Llwyddodd pob annedd i gyflawni Tystysgrifau Perfformiad Ynni gyda sgorau A dros 92.
4. Mae lefel aerglosrwydd 80% yn well na safonau Cenedlaethol.
5. Defnydd o ynni adnewyddadwy e.e. paneli solar, awyru mecanyddol ynni isel i leihau biliau ynni trigolion.
6. Dim ond 3 diwrnod o amser gosod ar y safle gan leihau aflonyddwch a gwastraff yn lleol.
7. Llai o grefftau gwlyb gan ddefnyddio llai o ddŵr a deunyddiau carbon uchel.
8. Arbedion blynyddol o 9.9 tunnell o garbon a 42,945 litr o ddŵr.
9. Cefnogwyd Cronfa Buddion Cymunedol Linc Cymru:
    - £500 o roddion a thalebau £200 ar gyfer ysgol gynradd leol
    - Sesiwn gyrfa mewn gweithgarwch adeiladwaith gyda phlant blwyddyn 2/3
    - Teithiau wedi'u hariannu i Wlyptiroedd Casnewydd ar gyfer teuluoedd
    - Rhoddion o £500 yr un ar gyfer Prosiect Danteithion y Nadolig, Gŵyl Yemeniaid Cymru a digwyddiad Balchder yn y Porthladd
    - Plannu 200 o goed yng Nghasnewydd
10. Wedi'i ddangos ar The One Show ar y BBC fel prosiect tai cymdeithasol enghreifftiol a arweinir gan MMC.
11. Ymwelodd Ei Uchelder Brenhinol y Tywysog William (Mehefin 2023) a helpodd Casnewydd i fod yn un o'r 5 dinas ar gyfer ei raglen Homeward.

# CONTRACTWR Â FFOCWS AR Y GYMUNED

Mae'r wobr hon yn cydnabod y cyfraniad y gall contractwyr ei wneud tuag at y gymuned ac economi leol.  Bydd y sefydliadau buddugol wedi ymwreiddio cyflwyno buddion cymunedol yn eu rhaglenni gwaith.

## Pentwyn Drive

**Willis Construction Limited**



**Datganiad o gefnogaeth**

Mae Willis Construction yn gontractwr lleol sydd wedi bod yn 'adeiladu dyfodol mwy disglair' ar draws De Cymru ers bron i 40 mlynedd. Gydag ymrwymiad clir i gynaladwyedd amgylcheddol a chymdeithasol, mae Willis yn ymdrechu i gyflogi pobl leol a chreu partneriaethau â phartneriaid cadwyn gyflenwi lleol, gan gadw'r buddsoddiad mwyaf posib o fewn y cymunedau y maent yn gweithredu ynddynt.  Mae Willis yn cydweithio'n agos â chleientiaid i adolygu ffyrdd eraill o greu buddion ar gyfer yr economi a'r gymuned trwy recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu.

Mae Pentwyn Drive yn brosiect Partneriaeth gyda Linc Cymru, a gefnogir gan Raglen Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Mae wedi darparu 28 o gartrefi newydd ar safle hen Archfarchnad Morrisons.

Mae cyfleusterau'r datblygiad yn cynnwys cwrt wedi'i dirlunio sy'n darparu man gwyrdd ar gyfer trigolion, storfa sbwriel benodedig, parcio ar y safle ar gyfer pedwar cerbyd a storfa feiciau fawr ar gyfer 48 o feiciau. Mae'r cartrefi'n agos at arosfannau bysiau er mwyn annog trigolion i ddefnyddio opsiynau cludiant cynaliadwy. Yn gynharach eleni, cytunodd Cyngor Caerdydd i lesio'r bloc i gartrefu teuluoedd sydd wedi profi digartrefedd ac a oedd yn cael eu cartrefu mewn llety dros dro, fel gwestai a gwely a brecwast o amgylch y ddinas.

Roedd y prosiectau etifeddiaeth cymunedol allweddol yn cynnwys ymgysylltu ag ysgolion cynradd St. Bernadettes, St. Davids a Bryn Celyn. Yn ddi-os y bydd y cyfnod adeiladu'n cael ei gofio am ei hysbysfyrddau gwych a gynhyrchwyd fel rhan o Brosiect Celf Ysgol gyda'r ysgolion hyn. Parchwyd y rhain yn fawr ac fe'i hamddiffynnwyd rhag difrod gan y gymuned leol.

Daeth y prosiect i ben gyda brithwaith etifeddiaeth wedi'i arddangos yn barhaol ar yr adeilad, a gafodd ei ddylunio, ei fowldio a'i danio gan ddisgyblion o'r 3 ysgol gynradd. Mae disgyblion eisoes yn falch o'u gwaith celf wrth iddynt ei edmygu bob dydd ar eu ffordd i'r ysgol. Cafodd teils hefyd eu dylunio a'u gwneud gan bobl ifanc lleol sy'n mynychu Prosiect Gwasanaethau Ieuenctid 'Ministry of Life'.

Gan barhau i gefnogi ysgolion lleol, rhoddodd a gosododd Willis fwrdd du newydd hefyd mewn gofod dysgu allanol yn Ysgol St Bernadette's, rhoddodd a gosododd dwnnel polythen newydd yn Ysgol St David's.

Rhai enghreifftiau pellach o Brosiectau Cymunedol:

- Rhoddwyd offer chwaraeon i'w leoli yng Nghanolfan Hamdden Pentwyn i grwpiau eraill ei ddefnyddio.
- Rhaglen Gweithgareddau Ieuenctid a oedd yn cynnwys beicio cwad, gwibgartio, teithiau parc sglefrio a chwrs hylendid bwyd ardystiedig.
- Cyrsiau Iechyd Meddwl a Lles

Yn gynnar yn y prosiect cynhaliodd Willis Gyfarfodydd Cyfarwyddyd Gyrfa ochr yn ochr â Linc Cymru gyda'r rhai oedd â diddordeb mewn gyrfa adeiladwaith. Adnabu'r broses hyfforddeion y maent oll wedi ffynnu ar eu taith yn Pentwyn Drive.

Roedd Jay Gill wedi wynebu bwlio yn amgylchedd ei ysgol a effeithiodd ar ei iechyd meddwl a'i hunan-barch gan olygu ei fod wedi rhoi'r gorau i'w mynychu. O ganlyniad i'w brofiad ysbrydolwyd ei fam Charmaine i ddatblygu ei Phrosiect Ymyrraeth 'Just Be You', a gefnogwyd trwy Ddatblygiad Pentwyn. Cydnabuwyd potensial Jay gan Paul Cachia. Mae bellach yn mwynhau prentisiaeth plymwr 3 blynedd, ac mae ei hyder yn tyfu gyda'r buddsoddiad y mae Willis yn ei wneud i'w ddatblygiad proffesiynol a phersonol.

Nid yn unig y gwnaeth Chelsea Cashman, Prentis Saer Coed ffynnu yn ystod ei chyfnod ym Mhentwyn, fe wnaeth ysbrydoli eraill hefyd, gan gyflwyno hyd yn oed mewn digwyddiad Menywod mewn Adeiladu CITB yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro. Gyda chefnogaeth y Rheolwr Hyfforddi Paul Cachia, siaradodd am ei thaith ei hun i mewn i'r diwydiant adeiladu ac amlinellodd gyfleoedd gyrfa i ferched Blwyddyn 7 i 9.

Ymunodd Will Thomas â thîm datblygu preswyl Pentwyn fel Rheolwr Safle dan Hyfforddiant. Dangosodd Will, sydd wedi bod gyda'r cwmni ers gadael yr ysgol, barodrwydd i ddysgu a dawn am arweinyddiaeth a gafodd ei wobrwyo gyda'r cyfle i symud ymlaen.

Fe wnaeth Tîm Cyflwyno'r Prosiect integreiddio eu hunain yng nghymuned Pentwyn, gan gofleidio'r gweithgareddau cymunedol yn llwyr gyda balchder ac ymroddiad. Roedd hyn yn amlwg yn yr ymateb a'r parch a gawsant gan yr holl randdeiliaid lleol drwy gydol y gwaith adeiladu.

## Canlyniadau a chyflawniadau

"Mae hyn yn ddatblygiad pwysig sy'n mynd i wneud cymaint o wahaniaeth i fywydau cynifer o bobl. Rydym yn falch o fod wedi chwarae ein rhan wrth ddod â'r cartrefi newydd hyn y mae mawr eu hangen i'r ddinas.

Diolch yn fawr i Willis Construction am wneud gwaith gwych yn adeiladu'r cartrefi hyn a rhoi cymaint o brofiadau ymarferol i'r prentisiaid. Cyflogodd Willis dri phrentis sydd wedi rhagori mewn dysgu eu crefftau wrth eu gwaith ac yn y coleg. Mae un o'r rhain yn un o drigolion Linc sy'n byw'n lleol.

Bydd y bobl ifanc hyn yn parhau â'u prentisiaethau ar ddatblygiadau eraill ond byddant bob amser yn gwybod y rhan y gwnaethant ei chwarae wrth adeiladu'r cartrefi newydd hyn."

Jo Yellen, Linc Cymru

Cwblhawyd trosglwyddo'r prosiect ar amser ym mis Medi 2023, ond bydd cysylltiad Willis â Chymuned Pentwyn yn parhau drwy'r gwaddol y mae eu hymgysylltiad wedi'i adael, mewn ysgolion lleol trwy'r gwaith celf o'r prosiectau hysbysfyrddau a'r mosaigau fel nodwedd barhaol ar yr adeilad.

Trwy gydol y gwaith adeiladu, cyflawnwyd y canlyniadau canlynol:

- Buddsoddwyd £8,220,587.86 yn Economi Cymru
- Buddsoddwyd £3,148,715 gyda busnesau bach a chanolig
- 15 o gyfleoedd cyflogaeth/hyfforddiant (88 awr)
- 3 Prentisiaeth (72 wythnos)
- Dargyfeiriwyd 833 tunnell (100%) o wastraff o gael ei dirlenwi.
- Rhoddwyd £11,458 fel nawdd ar gyfer gweithgareddau chwaraeon ac addysgol diwylliannol

# CREU LLEOEDD CADARNHAOL

Mae'r wobr hon yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol amrywiaeth o gyrff, sefydliadau a grwpiau lleol wrth adnewyddu ac adfywio cymunedau a chymdogaethau lleol. Mae'n cydnabod hefyd bod gwelliannau diriaethol yn mynd llaw yn llaw â datblygiadau cymdeithasol ac economaidd i wneud gwir wahaniaeth i fywydau pobl.

## RHA \ Little Shed

**RHA Cymru**



**Datganiad o gefnogaeth**

Fe wnaethom holi ein hunain ynghylch sut y gallwn helpu i arwain ar adfywio tref Tonypandy a chefnogi'r gymuned i adeiladu ymdeimlad cryf o le a pherthyn. Wedi'i ddisgrifio'n flaenorol fel 'Stryd Fawr Waethaf Prydain' rydym wedi bod â phresenoldeb yn y dref erioed, gyda'n swyddfa wedi'i lleoli oddi ar y stryd fawr, rydym yn gysylltiedig â'r gymuned ac roeddem yn gwybod bod yn rhaid i ni chwarae ein rhan wrth siapio ei dyfodol a gweithio gyda'r gymuned leol i adeiladu'n ôl yr hyn a oedd unwaith yn dref farchnad ffyniannus.

Er gwaetha'r wasg negyddol, mae positifrwydd i'w weld, gyda busnesau newydd yn agor a nifer yr ymwelwyr yn cynyddu ar ôl dad-bedestreiddio'r Stryd Fawr. Rydym eisoes yn chwarae rôl allweddol wrth arwain y cynnydd hwn gan i ni gadeirio Siambr Fasnach Tonypandy a darparu nawdd ar gyfer digwyddiadau cymunedol.

Am fod gennym gymaint o gred ac ymrwymiad yn y dref rydym yn ymgymryd â gwariant cyfalaf o £20m yno. Ond drwy ein hymrwymiad i Siarter Creu Lleoedd Comisiwn Dylunio Cymru rydym yn gwybod na allwn ganolbwyntio ar weithgarwch cyfalaf yn unig, felly rydym wedi dewis ymagwedd 360 at sicrhau bod ein cynlluniau creu lleoedd yn mynd i'r afael â ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae ein cynlluniau'n gweld y buddsoddiad mwyaf yn y dref ers degawdau, gyda dyhead i fod yn gatalydd wrth ddatgloi potensial Tonypandy – gan greu lle y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn falch ohono.

Ochr yn ochr â'n prosiectau cyfalaf, rydym yn gweithio gyda thrigolion a busnesau i sicrhau ein bod yn cynnig lleoedd sydd eu hangen ar ein cymuned, ar gyfer cysylltiadau cymdeithasol, hyfforddiant, dysgu sgiliau newydd ac ystod o wasanaethau eraill i daclo unigedd cymdeithasol, tlodi bwyd a helpu atgyfeirio ein tenantiaid a'n haelodau cymuned at rwydwaith cymorth ehangach.

Mae ein cais yn ymwneud â'n gwaith Creu Lleoedd yn Nhonypandy, yn benodol 'Y Sied Fach'. A ninnau'n uniongyrchol ar y stryd fawr, rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i ail-bwrpasu hen swyddfa wag a defnyddio cymalau budd cymunedol mewn contractau i adnewyddu'r gofod gan greu man cymunedol bywiog a hygyrch gyda ffocws ar adeiladu ymdeimlad o le a pherthyn.

Un o'r prif ysgogyddion wrth gyflwyno'r prosiect hwn oedd sicrhau bod hyfforddiant a dysgu sgiliau newydd yn rhan annatod o'r ddarpariaeth, i gyflawni hyn bu i ni weithio gyda Black Sheep (rhan o Grŵp Hyfforddi ARC) i gynnig y cyfleoedd hyn. Mae'r prosiect Black Sheep yn cefnogi pobl ifanc i ddysgu sgiliau i weithio ym maes adeiladwaith. Maent wedi gwneud defnydd da o'u dysgu trwy'r gwaith adnewyddu hwn, gan ail-bwrpasu deunyddiau o fewn y gofod, gan gynnwys creu eu wal nodwedd eu hunain.

Rydym wedi darparu mwy nag 'adeilad', gan greu lle i bobl yn ein cymunedau, gyda phobl o'n cymuned leol. Dyna'r gwahaniaeth gyda'n hymagwedd ni, saif yr ymgysylltu a'r cyfranogiad uwchlaw unrhyw brosiect neu waith cyfalaf.

Rydym wedi cynnwys tenantiaid a'r gymuned wrth greu'r gofod, ac erbyn hyn mae llawer yn ymwneud â

rhedeg Y Sied Fach trwy waith gwirfoddol! I ni, mae hynny'n dyst i'n hymrwymiad i Greu Lleoedd yn ei wir ystyr. Mae'n hawdd gweld wrth gerdded drwy'r dref bod y gofod wedi tyfu i fod yn hyb cymunedol prysur sy'n cyfrannu'n aruthrol at adfywio yn Nhonypandy, yn ogystal â chefnogi lles y gymuned.

Rydym yn falch ein bod wedi creu gofod lle mae croeso i bawb, lle â chalon a chysylltiad â'r gymuned.

Rheolwr prosiect Black Sheep:

"Roedd y bobl ifanc dan sylw i gyd yn agos at gael eu taflu allan, mae gan rai awtistiaeth, rhai ADHD ac roedd pob un wedi'u "labelu" ac yn teimlo na allent gynnig dim byd i gymdeithas. Trwy fanteisio ar eu diddordebau a gweithio gyda nhw ar eu lefel nhw fe wnaethant ffynnu wrth greu'r gofod hwn a dysgu sgiliau ar gyfer gyrfaoedd yn y dyfodol. Roeddent yn teimlo'n falch ac yn gweld eu gwerth personol wrth greu'r Sied Fach gyda RHA – ni allwn ddiolch digon iddynt."

### Canlyniadau a chyflawniadau

Llwyddodd 38 o bobl ifanc i ennill sgiliau adeiladwaith, cwblhau cymwysterau, ailgydio yn eu haddysg, a symud ymlaen i gyflogaeth ac addysg bellach.

Sesiynau Man Cynnes, a sefydlwyd mewn ymateb i bryderon costau byw yn y gaeaf, gan symud ymlaen o foreau coffi bach o 5 o bobl i foreau Coffi Crefftus - gyda chefnogaeth 3 gwirfoddolwr, sydd wedi'u mynychu'n rheolaidd gan tua 30 o bobl bob wythnos ac yn parhau i dyfu.

Ers mis Mai 2023 rydym wedi croesawu bron i 800 o bobl sydd wir yn dangos bod Y Sied Fach yn lle a werthfawrogir o fewn y gymuned. Ers agor rydym yn amcangyfrif ein bod wedi derbyn dwywaith y nifer hwnnw o ymwelwyr ac wedi gwella'u lles a'u hiechyd cyffredinol yn ogystal â chyfrannu at adfywiad ehangach y dref.

Canlyniadau eraill:


- Y prosiect parseli bwyd Grub Hub, mewn partneriaeth ag archfarchnadoedd i leddfu'r pwysau ar ein banciau bwyd.
- Oergelloedd Cymunedol mewn partneriaeth â Hubbub a Coop – gan leihau gwastraff bwyd sy'n mynd i safleoedd tirlenwi.
- Cymorth tlodi mislif mewn partneriaeth â CBSRhCT
- Sesiynau sgiliau digidol gyda Generation Rhondda
- Caffis Trwsio
- Sesiynau galw heibio i bobl ifanc
- Grwpiau cymorth iechyd meddwl
- Man Cynnes/ Sesiynau Crefft Wythnosol
- Dosbarthiadau ioga
- Caffis Hot Flash
- Hyb hyfforddiant ac adnoddau i denantiaid ar Lythrennedd Carbon
- Gorsaf ailgylchu ar gyfer cwmni buddiant cymunedol sy'n ailddefnyddio plastigau i ariannu gweithgareddau celfyddydol.
- Gorsaf ail-lenwi dŵr am ddim
- Sesiynau coginio cartref

# CEFNOGI BYW'N ANNIBYNNOL

Roeddem yn chwilio am landlord sydd wedi chwarae rôl hanfodol wrth ddarparu cefnogaeth gysylltiedig â thai i amrywiaeth eang o bobl. Dylai prosiectau gydweithio'n uniongyrchol ag unigolion, teuluoedd a gofalwyr i rymuso pobl i gael ansawdd bywyd dymunol, gan gefnogi eu nodau, uchelgeisiau a dyheadau trwy ddarparu cartrefi ac amgylchedd cefnogaeth o ansawdd da.

## Byw â Chymorth

**Caredig**



**Datganiad o gefnogaeth**

Yn Caredig, rydym wedi ymrwymo i rymuso'r bobl rydym yn gweithio gyda nhw i fyw bywydau llewyrchus. Rydym yn gwneud hyn drwy weithio mewn ffordd a gyfeirir gan drawma ac ACE, sy'n canolbwyntio ar adferiad, yn anfeirniadol ac yn hynod oddefgar.

Gwyddom, oherwydd natur ein gwaith, y byddwn yn gweithio gyda phobl sy'n cael anhawster wrth ymdopi gydag ystod o heriau ac yn rhoi cymorth iddynt. Gall y rhain gynnwys problemau fel iechyd meddwl, unigedd cymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau. Mae gan lawer o'n trigolion gyflyrau iechyd meddwl hirdymor parhaus fel sgitsoffrenia, anhwylder deubegwn, anhwylder personoliaeth a phroblemau camddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd.

Gwyddom eisoes fod y gwaith a wnawn i gefnogi defnyddwyr ein gwasanaeth yn cael effeithiau hynod gadarnhaol ar eu lles meddyliol, corfforol a chymdeithasol, fodd bynnag, rydym yn sefydliad sy'n dysgu'n barhaus, ac yn rhagweithiol wrth archwilio dulliau arloesol o gefnogi ein defnyddwyr gwasanaeth i'w grymuso i fyw bywydau llewyrchus.

Rydym wedi datblygu model seicolegol wedi'i deilwra i gefnogi pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau gofal a chymorth. Gelwir hwn yn fodel 360O. Mae pedair adran iddo sy'n canolbwyntio ar y gwahanol gamau o deithiau bywyd pobl pan fyddant yn dod i gysylltiad â'n gwasanaethau, sef:

- Archwilio: Dod i wybod beth sy'n wirioneddol bwysig i bobl, eu hanes, eu hoff bethau a'u cas bethau a sut beth yw bywyd llewyrchus iddyn nhw'n bersonol.
- Ymgysylltu: Adeiladu cymhelliant a datblygu cynlluniau ar gyfer llwyddiant
- Gweithredu: Canolbwyntio ar feysydd bywyd penodol
- Grymuso: Datblygu cryfderau a chysylltu â'r gymuned

Wrth i ni barhau â'n taith, rydym wedi defnyddio gwasanaethau hyfforddwr a mentor arbenigol yn y modelau a gyfeirir gan ACE/trawma a 360 a byddwn yn parhau i ddarparu hyfforddiant i'r holl staff i gadw eu set sgiliau'n uchel a dysgu unrhyw ddulliau newydd a ddaw. Byddwn yn parhau i ddysgu, myfyrio, datblygu a gwella ein model fel y byddwn yn fwy effeithiol fyth wrth drawsnewid bywydau pobl.

Mae trigolion yn rhan o'r broses hon o'r cychwyn cyntaf ac yn ymwneud yn weithredol â phob agwedd ar gynllunio cymorth ac arwain y broses o sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth y maent ei eisiau a'i angen a'u bod yn teimlo bod ganddynt reolaeth dros eu bywydau.

Rydym yn gweithio'n agos gydag asiantaethau eraill fel y timau Iechyd Meddwl Cymunedol, asiantaethau camddefnyddio sylweddau, gwasanaethau gwirfoddol fel MIND ymhlith eraill i sicrhau bod y cymorth yn llwyddo i'r eithaf.

Mae'r rhan fwyaf o'n trigolion yn derbyn gofal a reolir, rydym yn gweithio'n agos gyda nhw, ac maen nhw'n ymwneud â chynllunio gofal a chymorth ar gyfer eu defnyddiwr gwasanaeth ac yn rhan o bob cam y maent yn ei wneud ar eu taith. Maent yn gwbl gefnogol i ddarpariaeth y model ac yn gweld gwelliannau mawr yn ansawdd bywyd y rhai y maent yn gofalu amdanynt.

### Canlyniadau a chyflawniadau

Isod mae tystebau rhai rhanddeiliaid ac ystadegau o adolygiad blynyddol 2022/2023 Caredig:

- Galluogi trigolion i gael yr ansawdd bywyd gorau a'u hannog i gyrraedd eu llawn botensial. Trin pob person fel unigolyn. Cyfathrebu ardderchog gyda'r cydlynydd gofal ac adnabod unrhyw risg neu ddangosyddion ailwaelu. Mae'r staff yn adnabod eu trigolion yn dda iawn. Caredig, gofalgar, da wrth ymdrin yn hyderus ag unrhyw broblemau. Galluog a phroffesiynol iawn drwy'r amser.
- Yn fy mhrofiad i, mae'r staff yn cefnogi trigolion yn dda iawn, maent wedi buddsoddi yn eu hadferiad, ac yn dymuno eu cefnogi i fyw yn y gymuned. Mae cyfathrebu â staff yn hanfodol, ac rwy'n cael fy hysbysu am unrhyw bryderon neu newidiadau. Bydd staff yn mynd allan o'u ffordd (gan weithio oriau ychwanegol mewn rhai achosion) i ddarparu ar gyfer y trigolyn mewn argyfwng pan fydd angen.
- Yn fy mhrofiad i, dangoswyd parodrwydd gwirioneddol i roi cynnig ar bethau, rhannu gwybodaeth bwysig ac i weithio ar y cyd â gofal.
- Mae'r berthynas yn dda iawn gyda staff, mae rhannu gwybodaeth yn dda ac mae'n ymagwedd gydweithredol dda i gyflawni'r gorau dros y trigolyn.

Yn ogystal â'r uchod, dywedodd 95% o ymatebwyr i'r arolwg eu bod yn fodlon iawn â'r gwasanaeth a ddarparwyd gennym i'w cleientiaid ac roedd 5% yn fodlon. Ni chofnodwyd unrhyw anfodlonrwydd gyda'r gwasanaeth.

Isod mae rhai tystebau ac ystadegau gan y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau:

- Heb ofal a chefnogaeth Caredig ni fyddai fy mywyd yn werth ei fyw. Dyna'r hyn y mae'n ei olygu i mi.
- Rwy'n cyflawni llawer mwy nawr nag o'r blaen.
- Mae'n synnu fi pa mor bell yr wyf wedi dod mewn cyfnod byr o amser.
- Rwy'n teimlo'n dda y rhan fwyaf o'r amser gan wybod bod y staff bob amser yma i siarad â nhw.
- Mae'r prosiect hwn wedi gwneud rhyfeddodau i mi.
- Rwy'n hapusach ac yn fwy diogel.
- Gwych, chi yw fy nheulu ac rwy'n caru chi i gyd.

Yn ychwanegol at yr uchod, dywedodd 95% o ymatebwyr eu bod yn ymwneud â'r gwasanaethau gofal a chymorth y gwnaethant eu derbyn, ni allai 5% gofio. Roedd 86% yn teimlo'n well oherwydd y gofal a'r cymorth y maent yn ei dderbyn ac roedd 14% yn teimlo'r un peth. Nid oedd neb yn teimlo'n waeth o ganlyniad.

# RHAGORIAETH MEWN PROFFESIYNOLDEB, DYSGU A DATBLYGU

Bydd y wobr hon y cydnabod sefydliadau sy'n flaengar wrth symbylu proffesiynoldeb, dysgu a datblygu ar yr un pryd â darparu gwasanaeth penigamp i denantiaid. Roeddem am glywed gan sefydliadau sy'n wych i weithio ynddynt ac yn cyflawni canlyniadau gwych ar gyfer eu staff fel rhan o'r gwaith bob dydd.

## Fframwaith Egwyddorion ac Ymddygiadau Hafod

**Hafod**




### Datganiad o gefnogaeth

Ym mis Medi 2022 lansiodd Hafod eu fframwaith Egwyddorion ac Ymddygiadau Diwylliant. Crëwyd y fframwaith i sefydlu ymagwedd gyson at safonau proffesiynol ac ymddygiadau disgwyliedig ar draws y sefydliad. Gan weithio i gefnogi cenhadaeth Hafod o wneud bywydau'n well, mae'r fframwaith yn sicrhau bod cydweithwyr yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt gan eu cymheiriaid a'u cwsmeriaid. Mae'r fframwaith yn gwahaniaethu rhwng Egwyddorion, a ddiffinnir fel 'beth' mae Hafod (ni) yn ei wneud ar y cyd i wella bywydau ac Ymddygiadau, a ddiffinnir fel yr hyn y mae cydweithwyr (fi) yn ei wneud yn unigol i weddu i egwyddorion a chenhadaeth Hafod. Yna caiff yr ymddygiadau eu torri i lawr ymhellach yn ddangosyddion effeithiol a llai effeithiol ar gyfer yr holl gydweithwyr, rheolwyr ac arweinwyr strategol, gan wneud disgwyliadau'n glir a sicrhau atebolrwydd ar bob lefel o'r sefydliad.

Mae'r fframwaith Egwyddorion ac Ymddygiadau wedi'i greu mewn cydweithrediad â chydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad drwy adborth uniongyrchol gan gydweithwyr, cyfweliadau, gweithdai diwylliant a grŵp newid diwylliant trawsadrannol. Wrth ddylunio'r fframwaith, roedd Hafod yn awyddus i greu ymddygiadau a fyddai'n bwrpasol ac yn cael eu cymhwyso'n glir drwy gydol y cylch bywyd cydweithwyr. Lansiwyd y fframwaith Egwyddorion ac Ymddygiadau trwy ystod o weithdai a gyflwynwyd i reolwyr ar draws y sefydliad a oedd yn eu tro yn briffio eu timau trwy gyfarfodydd a digwyddiadau tîm.

Yn ogystal â hyn, mae tîm Dysgu a Datblygu Hafod wedi cefnogi'r sefydliad gyda dros 20 o sesiynau hyfforddi wedi'u teilwra er mwyn grymuso timau i nodi sut y gellir datblygu, cydnabod a dathlu'r egwyddorion a'r ymddygiadau. Yn ystod y sesiynau hyn, mae cydweithwyr wedi cael y cyfle i ddod â'r ymddygiadau yn fyw yn eu timau, gan nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Yna cofnodwyd pob maes datblygu mewn cynllun gweithredu i'w roi ar waith gan reolwyr tîm gyda chefnogaeth y tîm Dysgu a Datblygu.

Mae wyth ymddygiad Hafod yn rhan allweddol o raglen dysgu a datblygu Hafod. Yn ogystal â sicrhau bod gan bob gweithiwr yr wybodaeth dechnegol i gyflawni ei rôl, mae arlwy dysgu Hafod yn anelu at ddatblygu sgiliau ac ymddygiadau megis cyfathrebu, rheoli newid ac ymgysylltu ag eraill trwy ddull cymysg o anogaeth, hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol ac adnoddau dysgu hunangyfeiriedig. Bob blwyddyn, mae Hafod yn cynnal dadansoddiad cynhwysfawr o anghenion hyfforddi sy'n cynnwys arolwg cydweithwyr, adolygiadau datblygu personol a chyfarfodydd gyda

Phenaethiaid Adrannau ac aelodau'r tîm Gweithredol. Mae datblygu egwyddorion ac ymddygiadau wedi bod yn faes trafod allweddol yn ystod y broses hon.

Mae alinio â fframwaith Egwyddorion ac Ymddygiadau Hafod yn cael ei ystyried drwy broses recriwtio Hafod. Mae'r cyfweliadau a diwrnodau asesu ar gyfer pob rôl ar draws y sefydliad bellach wedi'u dylunio gan gadw egwyddorion ac ymddygiadau Hafod mewn golwg er mwyn denu a dethol ymgeiswyr sy'n dangos priodoleddau sy'n gweddu i ymddygiadau Hafod.

Anogir pawb i gydnabod cydweithwyr sy'n arddangos ymddygiadau Hafod trwy'r gydnabyddiaeth fisol i gydweithwyr Hafod, 'Shout Out'. Mae'r rhaglen hon yn galluogi'r holl gydweithwyr i enwebu eu cymheiriaid, y bobl maen nhw'n eu rheoli'n uniongyrchol a rheolwyr drwy gydol y mis ar gyfer dangos un o wyth ymddygiad Hafod neu weithredu'n unol â hwy. Ar ddiwedd y mis, mae'r holl gydweithwyr a enwebir yn cael eu cydnabod a'u dathlu mewn crynhoad fideo misol sy'n cael ei rannu ar draws y gymdeithas. Mae enwebiadau'n aml yn cynnwys enghreifftiau o gydweithwyr yn mynd yr ail filltir i 'wneud bywydau'n well' i gwsmeriaid y sefydliad. Ers lansio'r cynllun cydnabod cydweithwyr ym mis Medi 2022 hyd at Orffennaf 20023, mae 188 o bobl wedi enwebu cydweithiwr ar gyfer dangos un o ymddygiadau Hafod. Mae enghreifftiau o enwebiadau sydd wedi creu canlyniadau gwych i denantiaid yn cynnwys:

- Gweithredu fel un tîm i ddiogelu tenantiaid mewn perygl.
- Cyflwyno canlyniadau wrth ddod o hyd i lety brys ar gyfer tenantiaid sy'n wynebu digartrefedd
- Galluogi newid i gyflwyno cegin fwyd wib yn un o gynlluniau gofal ychwanegol Hafod i gefnogi'r gymuned leol.

### Canlyniadau a chyflawniadau

Mae fframwaith Egwyddorion ac Ymddygiadau Hafod wedi bod ar waith ers deng mis ac mae’n amlwg bod cydweithwyr wedi mabwysiadu’r ymddygiadau ac ymgysylltu â’r fframwaith. Ers cyflwyno rhaglen cydnabod cydweithwyr Hafod ym mis Medi 2022, mae 188 o gydweithwyr wedi enwebu a chydnabod cymheiriaid ar gyfer dangos un o ymddygiadau Hafod. Dyluniwyd y fframwaith i sicrhau bod y cwsmer wrth wraidd pob egwyddor ac ymddygiad, ac nid yw'n syndod bod y mwyafrif o enwebiadau gan gydweithwyr yn adlewyrchu sut mae ein cydweithwyr yn ymgysylltu â'n cwsmeriaid ac yn ymdrechu i sicrhau canlyniadau rhagorol i gwsmeriaid.

Enghraifft ddiweddar yw cydweithiwr sy’n gweithio yn nhîm Anogaeth Cymdogaethau Hafod a gafodd ei enwebu am ymddygiad Gofalu a Chefnogi:

‘Maen nhw wedi mynd gam ymhellach yn achos un o Ddeiliaid Contract Hafod a gafodd ei hun mewn sefyllfa enbydus yn ei gartref. Roedd mewn perygl mawr o ran diogelu a gyda chydweithio a meddwl yn gyflym daethant o hyd i lety arall i'r dyn hwn i sicrhau ei ddiogelwch a'i les’.

Mae'r fframwaith Egwyddorion ac Ymddygiad yn darparu safon y gall ein cwsmeriaid ei ddisgwyl gan holl gydweithwyr Hafod ac anogir cwsmeriaid i roi adborth i'r Gymdeithas os nad yw cydweithwyr yn bodloni'r safonau ymddygiad a ddisgwylir.

# CYFLAWNWR IFANC YM MAES TAI (CATEGORI UNIGOL)

Mae'r wobr yn dathlu unigolion a all ddangos eu hangerdd, ymrwymiad a dawn wrth ddarparu gwasanaethau i denantiaid a thrigolion.

## Carys Wiggins

**Cymdeithas Tai Taf**



**Datganiad o gefnogaeth**

Gyda chymorth ein partneriaid cyfathrebu, mae Carys wedi sicrhau cynnydd enfawr yn ein sylw allanol yn y wasg gydag erthyglau ar ein gwaith yn ymddangos yn Inside Housing, Wales Online, Cardiff Business Insider a BBC Cymru ar-lein.

Cynnydd mawr yn ein cyrhaeddiad ar-lein ar lwyfannau fel Twitter, Facebook a LinkedIn.

Ymgyrchoedd cyfathrebu llwyddiannus yn helpu i godi ein proffil ac yn rhannu gwybodaeth hanfodol bwysig gyda thenantiaid. Mae ymgyrchoedd wedi cynnwys Diogelwch Nwy, codi ymwybyddiaeth am Leithder a Llwydni, storïau ysbrydoliaethus gan gynnwys cydweithwyr Taf a gyrhaeddodd Gymru fel ffoaduriaid ac ymgyrch Diwrnod Rhyngwladol y Menywod i amlygu effaith ein gwaith gyda menywod digartref.

Aelod allweddol o'r Tîm Digwyddiad Argyfyngus gan helpu i sicrhau bod cyfathrebu priodol yn digwydd gyda thenantiaid a rhanddeiliaid eraill yn ystod argyfwng diogelwch adeilad.

Cefnogi partneriaeth lwyddiannus rhwng Taf a Choleg Caerdydd a'r Fro i helpu i arddangos gwaith celf myfyrwyr ar hysbysfyrddau ein safleoedd datblygu.

Ail-lansio ein cylchlythyr tenantiaid, Taff Talks, yn llwyddiannus.

## Canlyniadau a chyflawniadau

Mae Carys Wiggins yn seren.

Yn 2022, roedd hi'n derbyn ei chanlyniadau Safon Uwch, nawr mae hi'n arwain ein gwaith marchnata a chyfathrebu fel rhan o radd a noddir gyda Network75.

Wedi'i thaflu i'r pen dwfn yn Taf, mae hi wedi cydio'n ddi-ofn ond yn ostyngedig yn yr her ac yn rhagori trwy raglen hyfforddi israddedig pum mlynedd i gyflawni ei BA Anrh mewn Cyfathrebu a Marchnata, gan rannu ei hamser rhwng y brifysgol a gwaith Taf. Mae Carys wedi dod yn gydweithiwr gwerthfawr iawn yn gyflym, gan adael argraff bythgofiadwy o gadarnhaol ar ei chymheiriaid a'n tenantiaid.

O'r diwrnod yr ymunodd â Taf mae Carys wedi ein syfrdanu â'i hymagwedd anhygoel ac ysbrydoledig at ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar denantiaid. Mae hi wedi cael effaith enfawr nid yn unig ar denantiaid, ond hefyd ar ei chydweithwyr a'r busnes ehangach. O'r cychwyn cyntaf, mae Carys wedi bod yn fodlon dysgu, ond eto heb osgoi rhannu ei syniadau ei hun o ran sut y gallwn ni wneud pethau'n well. Gan ddefnyddio ei menter, mae hi wedi cyflwyno ymgyrchoedd cyfathrebu ar faterion o bwys fel diogelwch nwy, lleithder a llwydni a Diwrnod Rhyngwladol y Menywod.

Mae ei hagwedd 'medru gwneud' gadarnhaol wedi ein harwain at welliannau gwirioneddol yn y modd yr ydym yn cyfathrebu â thenantiaid a rhanddeiliaid eraill. Er bod Carys yn un o aelodau ieuengaf tîm Taf, mae hi'n cael effaith fawr. Mae hi'n greadigol ac yn cydnabod bod y ffordd yr ydym yn cyfathrebu yr un mor bwysig â'r hyn yr ydym yn ei gyfathrebu. Mae hi'n rhedeg ein holl gyfryngau cymdeithasol ac yn ein helpu i ddod o hyd i ffyrdd newydd a diddorol o gyfathrebu'n eang i'n rhanddeiliaid. Mae galw mawr amdani ar draws Taf, gyda chydweithwyr yn ceisio cael mynediad at ei harbenigedd a'i chyngor.

Gan weithio ar y cyd ac yn effeithiol gyda gwahanol gydweithwyr o bob adran, mae hi wedi arwain ar nifer o ymgyrchoedd cyfathrebu gyda'r nod o sicrhau nid yn unig ein bod ni'n cyfathrebu'n effeithiol â thenantiaid, ond ein bod hefyd yn annog deialog, naws agored, ymgysylltu a thryloywder go iawn ym mhopeth a wnawn.

Mae Carys yn sicrhau bod ein tenantiaid yn cael y profiad gorau posib, gan ddangos empathi a dealltwriaeth wirioneddol yn ei hymagwedd at gyfathrebu. Mae ei hangerdd dros wneud newidiadau cadarnhaol wedi gyrru llawer o fentrau yn eu blaen, er budd ein tenantiaid.

Mae hi wedi dangos y gall nid yn unig weithio mewn ffordd ragweithiol, ond ei bod hefyd yn ased gwirioneddol yn ystod her. Helpodd i gyflwyno cyfathrebiadau effeithiol i denantiaid yn ystod argyfwng diogelwch adeilad diweddar ac roedd yn aelod allweddol o'r Tîm Digwyddiad Argyfyngus drwyddi draw.

Mae Carys yn cymryd rhan yn rhagweithiol mewn gweithgareddau cyfathrebu a chysylltiadau cyhoeddus y sector ehangach, mae wedi bod yn wych gweld ei hyder yn datblygu wrth iddi gamu allan o'i pharth cysur i siarad mewn rhwydweithiau a digwyddiadau eraill.

Mae adborth gan gymheiriaid am Carys wedi bod o'r radd flaenaf. Nid oes unrhyw beth sy'n ormod o drafferth iddi. Mae ei pharodrwydd i dreulio amser yn helpu pobl eraill wedi bod y tu hwnt i ddyletswydd.

Mae Carys yn ddi-baid o gadarnhaol, yn gweithio'n galed ac yn ceisio helpu pobl eraill bob amser. Mae hi'n dysgu'n gyflym ac yn cyfrannu syniadau newydd sy'n cyfoethogi ac yn gwella ein gwasanaethau. Mae hi wedi dod yn aelod anhepgor o bob tîm y mae hi wedi gweithio gyda nhw. Mae hi'n uchel ei chymhelliad ac yn ddawnus ac mae ganddi yrfa anhygoel o'i blaen. Mae'n bleser ac yn fraint ei chael hi yma yn Taf.

# Joe Stockley

**Cymoedd i'r Arfordir**



**Datganiad o gefnogaeth**

Mae Joe wedi cyflawni'r canlyniadau canlynol ar gyfer y busnes yn ogystal ag ar gyfer ei ddatblygiad personol:

Llunio adroddiad ar ymwreiddio arfer gorau Cenedlaethau'r Dyfodol mewn Cymdeithasau Tai Cymru. Bydd Cymoedd i'r Arfordir yn ystyried hyn fel rhan o'n hymagwedd at gyflawni nodau Cenedlaethau'r Dyfodol a dulliau gweithio yn ein prosesau newid sefydliadol.

Llunio adroddiad ar ennyn diddordeb cwsmeriaid mewn gwaith datgarboneiddio, gan gymryd ysbrydoliaeth o arfer gorau Orbit Housing i wneud argymhellion i Cymoedd i'r Arfordir ar gyfer dulliau newydd o gynnwys cwsmeriaid yn ein taith ddatgarboneiddio barhaus.

Cynnal ymchwil ar Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol a'i gweithrediad ymarferol mewn Cymdeithasau Tai

Cymryd rhan yn y broses recriwtio ac aelod o'r panel cyfweld ar gyfer rôl Pennaeth Asedau a Chynaladwyedd.

**Canlyniadau a chyflawniadau**

Roedd yn bleser gennym groesawu Joe i Cymoedd i'r Arfordir ym mis Chwefror 2023, ar leoliad gwaith drwy Gynllun Graddedigion Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru sy'n cael ei redeg gan Academi Cymru. Gwnaed argraff arnom gan ymdrech a brwdfrydedd Joe, a oedd yn amlwg wrth iddo dreulio amser gyda'r timau amrywiol ar draws y sefydliad, yn deall ein busnes a chael trosolwg o'r diwydiant tai, cyn ymgartrefu gyda'n tîm Cynaladwyedd.

Mae Joe wedi bod yn allweddol wrth yrru nifer o'n prosiectau a'n ffrydiau gwaith ymlaen.

Mae wedi cydlynu'r gwaith o gyflwyno'r Cynllun Gweithredu Dyfodol Cynaliadwy Diogel a Hapus, gan hwyluso cyfarfodydd grŵp, cymryd cofnodion a sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cyflwyno. Saif y cynllun hwn o fewn Strategaeth Cynaladwyedd Cartrefi Diogel a Hapus Cymoedd i'r Arfordir, gyda'r nod o gyflawni ein nodau Sero Net.

Mae wedi bod yn gweithio i ddatblygu caffael cynaliadwy o fewn V2C, wedi cefnogi datblygiad datganiad caffael cynaliadwy, ac wedi cyflawni nifer o adroddiadau ar gaffael o fewn V2C gydag argymhellion i ddatblygu darpariaeth, mewn ymateb i ddata sy'n amlygu effaith anghymesur caffael ar allyriadau.

Cydweithiodd â'n tîm cyfathrebu i hwyluso'r gwaith o gyflwyno Arolygon Cartref Cyfan sy'n orfodol o dan SATC2. Gyda Chyngor Adeiladu Gwyrdd y DU yn datgan y bydd pobl yn dal i fyw mewn 80% o'r adeiladau a ddefnyddir heddiw erbyn 2050, mae ôl-osod yn dod yn gynyddol pwysig i gymdeithasau tai, ac mae Joe wedi bod yn ymgysylltu â chymdeithasau tai eraill i ddatblygu arfer gorau ar ennyn diddordeb cwsmeriaid ar fater datgarboneiddio.

Mae Joe yn gweithio i ddatblygu ffyrdd mwy effeithiol o gynnwys cwsmeriaid mewn gwelliannau eiddo gwyrdd. Mae'n datblygu Cwestiynau Cyffredin a gwybodaeth datrys problemau i gefnogi cwsmeriaid i nodi problemau eu hunain a deall pryd i gynnwys Cymoedd i'r Arfordir i'w cefnogi. Bydd hyn yn helpu cwsmeriaid i fanteisio i'r eithaf ar eu gwelliannau gwyrdd, a'r bwriad yw helpu Cymoedd i'r Arfordir i ymdrin â materion yn rhagweithiol, gan arbed arian ac amser i'r gymdeithas tai.

Mae Joe wedi ymgymryd â chydlynu prosiect i osod nifer o fatris ar draws eiddo Cymoedd i'r Arfordir gyda systemau ynni'r haul ffotofoltäig, drwy greu cysylltiadau â chwsmeriaid, staff a chontractwyr i gyflwyno'r prosiect yn brydlon, gan helpu cwsmeriaid i arbed arian ar filiau ynni eu heiddo.

Yn sail i gymhelliant Joe fu ei ymrwymiad clir i Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol ac ymwreiddio'r gwersi y mae'n eu cynnig o fewn tai er mwyn dysgu o'i enghreifftiau o arfer gorau, gan gynnal ymchwil ar draws Sector Tai Cymru i oblygiadau ymarferol y ddeddf ar gyfer cymdeithasau tai eraill.

CIH Cymru


# TAI 2024

## Digwyddiad tai mwyaf a gorau Cymru

Yn ystod ein gŵyl eiconig dros ddau ddiwrnod, byddwn yn cynnal sesiynau arloesol sy'n ysgogi'r meddwl er mwyn ennyn eich ysbrydoliaeth, bywiogrwydd a chymhelliant.

**Sganiwch y cod QR i gadw eich lle heddiw**

**www.cih.org/events/tai-2024**



Chartered Institute of Housing Cymru

# WELSH HOUSING AWARDS 2023

# ENILLWYR

## Rhagoriaeth gwasanaeth i gwsmeriaid

Noddir gan: united welsh

**Teitl Prosiect yr Enillydd:** Monmouthshire Homesearch - Customer Excellence in a Digital Age

**Sefydliad yr Enillydd:** Cymdeithas Tai Sir Fynwy

## Rhagoriaeth iechyd a llesiant

**Teitl Prosiect yr Enillydd:** RHA Wales Hapus & BeActive RCT

**Sefydliad yr Enillydd:** RHA Cymru

## Rhagoriaeth arloesedd tai

**Teitl Prosiect yr Enillydd:** Pen Y Dre Apartments / Compass Community Hub

**Sefydliad yr Enillydd:** CBS Merthyr Tudful

**Partneriaid:** Cartrefi Cymoedd Merthyr

## Rhagoriaeth wrth eirioli cydraddoldeb ac amrywiaeth

**Teitl Prosiect yr Enillydd:** Equality Matters

**Sefydliad yr Enillydd:** Cymdeithas Tai Newydd

## Gweithio mewn partneriaeth

Noddir gan: LOVELL

**Teitl Prosiect yr Enillydd:** STAR Housing Model

**Sefydliad yr Enillydd:** United Welsh a Chyngor Caerffili

**Partneriaid:** Platform

## Creu lleoedd cadarnhaol

**Teitl Prosiect yr Enillydd:** RHA \ Little Shed

**Sefydliad yr Enillydd:** RHA Cymru

## Cefnogi cymunedau

**Teitl Prosiect yr Enillydd:** NU Life

**Sefydliad yr Enillydd:** Cymdeithas Tai Cadwyn

Noddir gan: resource Sustainable Creativity

## Datblygu cartrefi o safon uchel

**Teitl Prosiect yr Enillydd:** Developing High Quality Homes at The Mill

**Sefydliad yr Enillydd:** Lovell

**Partneriaid:** Cartrefi Tirion, Cymdeithas Adeiladu'r Principality, Llywodraeth Cymru

## Contractwr â ffocws ar y gymuned

**Teitl Prosiect yr Enillydd:** Pentwyn Drive

**Sefydliad yr Enillydd:** Willis Construction Limited

## Cefnogi byw'n annibynnol

**Teitl Prosiect yr Enillydd:** Cefnogi byw'n annibynnol

**Sefydliad yr Enillydd:** Caredig

## Cynaladwyedd ym maes tai

**Teitl Prosiect yr Enillydd:** Thornhill Decarb Project

**Sefydliad yr Enillydd:** Hafod

**Partneriaid:** SERS Ltd

Noddir gan: BLAKE MORGAN

## Tîm tai y flwyddyn

**Teitl Prosiect yr Enillydd:** Tîm Cartrefi Gwag Caerffili

**Sefydliad yr Enillydd:** Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Noddir gan: brc

## Cyflawnwr ifanc ym maes tai

**Enillydd:** Carys Wiggins

**Sefydliad yr Enillydd:** Cymdeithas Tai Taf

Noddir gan: Tai Wales & West Housing

## Rhagoriaeth mewn proffesiynoldeb, dysgu a datblygu

**Enillydd:** Fframwaith Egwyddorion ac Ymddygiadau Hafod

**Sefydliad yr Enillydd:** Hafod

Llongyfarchiadau i'n henillwyr i gyd a diolch i'n noddwyr am gefnogi'r digwyddiad

NODDWR PENNAWD: aico® | HomeLINK